

Y fframwaith o bolisïau, dulliau a chynlluniau y mae ei angen i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru (Beth mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru'n ei olygu mewn gwirionedd)

Adroddiad y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd ar gyfer
Llywodraeth Cymru

Mawrth 2020

Ynglŷn â'r Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd

Sefydlwyd y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (y Grŵp Gweithredu) gan Lywodraeth Cymru i argymhell y camau nesaf y mae eu hangen i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Gofynnodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Julie James AC, i'r Grŵp Gweithredu ateb y cwestiynau canlynol:

1. Pa fframwaith o bolisiâu, dulliau a chynlluniau y mae ei angen i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru? (Beth mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru'n ei olygu mewn gwirionedd?)
2. Pa gamau allwn ni eu cymryd ar unwaith i leihau nifer yr achosion o gysgu allan rhwng nawr a gaeaf 2019/20, ac i roi diwedd ar gysgu allan yn gyfan gwbl?
3. Sut allwn ni sicrhau bod y broses o ailgartrefu pobl yn gyflym ac yn barhaol wrth wraidd y gwaith i atal digartrefedd, ei drechu a rhoi diwedd arno?
4. Sut allwn ni sicrhau bod partneriaethau a chynlluniau cydgysylltiedig lleol yn cael eu rhoi ar waith er mwyn atal digartrefedd, ei drechu a rhoi diwedd arno ledled Cymru?

Fe atebodd adroddiad cyntaf¹ y Grŵp Gweithredu gwestiwn 2 ond gan gyfeirio i ryw raddau at ddatrysiadau tymor hwy i gysgu allan a mathau eraill o ddigartrefedd. Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â chwestiwn 1, gan adeiladu ar y datrysiadau tymor hwy yn ein hadroddiad cyntaf ond gan gyfeirio at y cwestiynau eraill hefyd. Byddwn yn gwneud gwaith pellach i fynd i'r afael â'r cwestiynau sy'n weddill.

Aelodau'r Grŵp

- Jon Sparkes (cadeirydd) – Prif Weithredwr, Crisis
- Bonnie Navarra – Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Clare Budden – Prif Weithredwr, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn
- Clarissa Corbisiero – Cyfarwyddwr Polisi a Materion Allanol, Cartrefi Cymunedol Cymru
- Frances Beecher – Prif Weithredwr, Llamau, a chadeirydd End Youth Homelessness Cymru
- Gaynor Toft, Rheolwr Corfforaethol (Tai), Cyngor Sir Ceredigion
- Glynne Roberts – Rheolwr Rhaglen, Well North Wales, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- John Puzey – Prif Weithredwr, Shelter Cymru
- Katie Dalton – Cyfarwyddwr, Cymorth Cymru
- Lindsay Cordery-Bruce – Prif Weithredwr, The Wallich
- Naomi Alleyne – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Dr Peter Mackie – Darllenydd, Prifysgol Caerdydd
- Tamsin Stirling – Arbenigwr llawrydd ar ddigartrefedd a thai

¹ Y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2019) *Atal cysgu allan yng Nghymru a'i leihau yn y byrdymor* <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/grwp-gweithredu-ar-ddigartrefedd-adroddiad-hydref-2019.pdf>

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	1
1.0 Cyflwyniad	3
1.1 Diffiniad o ddigartrefedd	3
1.2 Sut y gellir cartrefu pawb a rhoi diwedd ar ddigartrefedd	4
1.3 Gwneud digartrefedd yn brin	5
1.4 Gwneud digartrefedd yn ddigwyddiad byrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto	6
1.5 Iaith yn yr adroddiad hwn	6
1.6 Fframwaith ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru	6
1.7 Ymgynghoriadau â phobl i oleuo'r adroddiad	9
2.0 Gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i roi diwedd ar ddigartrefedd ...	13
2.1 Deilliannau i roi diwedd ar ddigartrefedd	13
2.2 Cymorth i weithluedd	14
2.3 Diwylliant a rheoli newid	15
2.4 Ei gwneud yn bosibl darparu gwasanaethau cymorth sy'n effeithiol ac yn ystyriol o gyflwr seicolegol	17
2.5 Gwranddo ar bobl sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd	19
3.0 Gwneud digartrefedd yn brin trwy Atal Cyffredinol (Atal Sylfaenol)	21
3.1 Yr hawl i fyw mewn diogelwch, heddwch ac urddas	21
3.2 Nawdd cymdeithasol i atal digartrefedd a threchgu tlodi	26
3.3 Budd-daliadau lles sydd wedi'u datganoli i Gymru ar hyn o bryd	27
3.4 Profiadau yn gynnar mewn bywyd (plant a phobl ifanc)	29
3.5 Cyfathrebu am ddigartrefedd a thlodi i gefnogi newid	31
4.0 Gwneud digartrefedd yn brin trwy Atal wedi'i Dargedu (Atal Eilaidd)	33
4.1 Sefydliad gwasanaethau cyhoeddus a threfniadau ar gyfer atal digartrefedd	33
4.2 Adnabod yn gynnar a thargeddu gwaith atal digartrefedd	34
4.3 Cartrefu pobl ar ôl eu rhyddhau	39
5.0 Gwneud digartrefedd yn brin trwy Atal Argyfwng (Atal Trydyddol a Gwario Acíwt)	41
5.1 Dull dim drws anghywir, beth bynnag a gymer	42
5.2 Helpu pobl sy'n defnyddio sylweddau	43
6.0 Sicrhau bod digartrefedd yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto trwy ailgartrefu'n gyflym	47
6.1 Ymatebion cyfredol ar gyfer pobl sydd eisoes yn profi digartrefedd	47
7.0 Gwladolion o'r Tu Allan i'r DU	49

Atodiad 1 – Gweithgarwch ymgynghori i oleuo’r adroddiad hwn.....	51
Atodiad 2 – Fersiynau llawn o argymhellion adroddiad 1^{af} y Grŵp Gweithredu y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn.....	57
Atodiad 3 – Digartrefedd craidd	63
Atodiad 4a – Grwpiau sy’n wynebu risg ac ymyriadau wedi’u targedu.....	66
Atodiad 4b – Enghreifftiau o gymorth wedi’i dargedu.....	69
Atodiad 5 – Arbenigwyr drwy Brofiad: sut y gallwn roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru – adroddiad ymgynghori.....	71

Rhagair y Cadeirydd

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu nod uchelgeisiol i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru, ac mae wedi disgrifio hyn yn glir fel mater sy'n ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus yn fwy eang yn hytrach na thai yn unig. Fe ganolbwyntiodd adroddiad cyntaf y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd ar gysgu allan; camau gweithredu byrdymor i fynd i'r afael â chysgu allan yng ngaeaf 2019/20 a chamau gweithredu tymor hwy i atal pobl rhag cael eu gorfodi i gysgu allan yn y lle cyntaf. Cafodd nifer o'r camau gweithredu hyn eu cymryd gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol mewn partneriaeth gydag asiantaethau lleol eraill.

Yr adroddiad hwn gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd yw'r ail ac mae'n mynd i'r afael â'r cwestiwn ynglŷn â pha fframwaith o bolisiâu a dulliau y mae ei angen i roi diwedd ar ddigartrefedd yn gyfan gwbl. O'r dechrau, dewisodd y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd ddefnyddio dull atal mewn perthynas â hyn; dull i sicrhau mai prin iawn y mae digartrefedd yn digwydd, mai dim ond yn fyrhoedlog y mae'n digwydd mewn unrhyw achos, ac unwaith y mae wedi digwydd i unigolyn neu deulu ei fod yn cael ei atal rhag digwydd eto. Fel cenedl, mae Cymru wedi mabwysiadu safbwynt rhagweithiol ar hawliau plant a'r dyletswyddau sydd gennym tuag at genedlaethau'r dyfodol. Mae'r Grŵp Gweithredu'n obeithiol y bydd dull rhagweithiol a seiliedig-ar-hawliau tebyg yn cael ei fabwysiadu lle mae digartrefedd yn y cwestiwn, ac os felly yna gallwn roi diwedd, a byddwn yn rhoi diwedd, ar ddigartrefedd unwaith ac am byth.

Mae ein gwaith ar yr adroddiad hwn wedi mynd i'r afael ag atal ar sawl lefel. Mae Atal yn Gyffredinol yn cydnabod nad mater ar ei ben ei hun yw digartrefedd. Mae'n hysbys bod tlodi plant a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn rhagfynegyddion ar gyfer digartrefedd a bod angen mynd i'r afael â hwy i osod y sylfeini ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd. Mae'n dra hysbys nad dim ond problem sy'n ymwneud â thai yw trechu digartrefedd ond mae'r un mor amlwg bod cartref sefydlog, diogel ac addas yn rhan o'r datrysiad bob tro. Mae'r Grŵp Gweithredu yn argymhell y dylid trin tŷ digonol fel hawl; rhywbeth y dylai pob dinesydd allu ei ddisgwyl. Gyda dull o'r fath, byddem yn sicrhau bod digon o dai ar gael, bod tai ar gael y gall pawb eu fforddio, a lle mae tai'n rhai y telir amdanynt neu y rhoddir cymorth tuag atynt gan y wladwriaeth na ddylai dinasyddion ofni cael eu troi allan a'u gwneud yn ddigartref. Mae'r rhain yn ddatrysiadau sylfaenol ond ymarferol, ac yn angenrheidiol er mwyn i ni geisio rhoi diwedd ar ddigartrefedd unwaith ac am byth.

Gwyddom hefyd fod rhai grwpiau o bobl, oherwydd y profiadau bywyd y maent wedi'u cael, yn fwy tebygol o brofi digartrefedd na'i gilydd. Mae ein hargymhellion yn cynnwys Atal Wedi'i Dargedu, gan gymryd camau gweithredu penodol i fynd i'r afael â hyn. Os ydym yn gwybod bod pobl yn fwy tebygol na'i gilydd o brofi digartrefedd, yna dylem geisio atal hynny rhag digwydd trwy beidio â rhyddhau pobl o wasanaethau cyhoeddus i ddigartrefedd, a thrwy sicrhau dulliau cydgyssylltiedig ar draws gwasanaethau cyhoeddus i roi 'llwybrau' ar waith sy'n cynorthwyo pobl i osgoi digartrefedd.

Ceir adeg benodol hefyd pan fo pobl neu deuluoedd yn wynebu risg sydd ar fin digwydd o brofi digartrefedd. Mae gan Gymru hanes clodfawr o atal digartrefedd ar

yr adeg hon, a hithau wedi arloesi mewn dyletswyddau atal a lleddfu digartrefedd. Mae'r dull hwn wedi cael ei fabwysiadu ers hynny yn Lloegr, ac mae wrthi'n cael ei ddatblygu ymhellach yn yr Alban. Mae tua dwy ran o dair o'r achosion o ddigartrefedd bellach yn cael eu hatal gan waith caled timau tai awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol a phreifat. Mae angen i ni wneud yn well, ac mae'r cynigion i gynyddu diogelwch trwy gyfnod rhybudd o 6 mis yn gam enfawr yn y cyfeiriad cywir. Fodd bynnag, os ydym ni yn awr yn mynd i ddefnyddio'r trothwy 6 mis hwnnw fel yr adeg pan ydym yn ystyried bod y risg o ddigartrefedd ar fin digwydd, yna bydd gennym fwy o amser i helpu pobl. Ac, os ydym yn estyn y dyletswyddau atal hynny i'r holl gyrrff cyhoeddus sy'n gweithio mewn partneriaeth i fynd ati'n gyflym i ailgartrefu pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd neu sy'n profi digartrefedd, yna mae'r Grŵp Gweithredu'n credu ei bod wir yn bosibl sicrhau mai dim ond digwyddiad sy'n brin, yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto yw digartrefedd.

Lluniwyd yr argymhellion yn yr adroddiad hwn gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd mewn ymgynghoriad gyda phobl sydd wedi profi digartrefedd, a phobl sy'n gweithio ym maes tai neu ddigartrefedd. Fe wnaethom hefyd ymgynghori â phobl sydd â phrofiad personol o fod yn ddigartref ar yr argymhellion drafft. Roedd llawer o gefnogaeth i'r argymhellion drafft ond gwnaethom eu haddasu hefyd yn dilyn adborth a gawsom, a adroddir yn llawn yn yr atodiadau i'r adroddiad hwn. Rydym ni o'r farn ei fod yn gasgliad ymarferol o argymhellion a fydd, o'u rhoi arwain yn llawn a'u hariannu'n iawn, yn galluogi Cymru i fynd yn bellach tuag at roi diwedd ar ddigartrefedd. Hoffwn weld cynllun gweithredu i ganlyn arni â hyn, gan nodi'r uchelgais i roi diwedd ar ddigartrefedd ynghyd â'r cytundebau ymarferol ynglŷn â chyllid a sut y pennir cyflymder newid dros amser.

Bydd dau adroddiad pellach gan y Grŵp Gweithredu. Bydd y naill yn nodi sut i sicrhau bod ailgartrefu'n gyflym (symud pobl i gartrefi sefydlog, diogel ac addas mor gyflym â phosibl fel y datrysiad diofyn i'r risg o fod yn ddigartref) yn ganolog i'r system ar gyfer trechu digartrefedd. Bydd y llall yn nodi rôl partneriaethau lleol a rhanbarthol o ran gweithio mewn ffordd gydgysylltiedig gan amcanu at roi diwedd ar ddigartrefedd.

Rwy'n ddiolchgar i'r 13 aelod o'r Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd am roi o'u hamser a'u hegni a chyfrannu eu syniadau i ddod â'r casgliad cynhwysfawr hwn o argymhellion ynghyd, ac edrychaf ymlaen at weld Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'r argymhellion gyda phartneriaid mewn cynllun gweithredu eglur wedi'i ariannu'n iawn.

1.0 Cyflwyniad

1.1 Diffiniad o ddigartrefedd

Mae nifer o deuluoedd ac unigolion ledled Cymru ar hyn o bryd sydd heb gartref. Mae hyn yn cynnwys digartrefedd gweladwy iawn, megis pobl yn cysgu allan, ond mathau llai gweladwy hefyd, fel pobl yn aros mewn siediau neu dai allan, ar soffas teulu neu ffrindiau, neu'n byw mewn hostelau a llety gwely a brecwast heb gynllun ar gyfer symud ymlaen.

Mae llawer o dystiolaeth bod cael eu gorfodi i fod yn ddigartref yn achosi niwed i unigolion a theuluoedd, a chymdeithas ar y cyfan. Mae hyn yn cynnwys niwed i iechyd meddwl, iechyd corfforol, perthnasoedd a lles, a mwy o angen am gymorth gan wasanaethau cyhoeddus.²

Mae gwaith gan Brifysgol Heriot Watt yn nodi diffiniad o 'ddigartrefedd craidd' sy'n amcangyfrif, ar unrhyw noson benodol yn 2017, bod tua 5,200 o aelwydydd ledled Cymru'n ddigartref.³ Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys pobl a oedd:⁴

- Yn cysgu allan.
- Yn cysgu mewn pebyll, ceir, cludiant cyhoeddus.
- Yn sgwatio (llety didrwydded a/neu anniogel.)
- Mewn llety dibreswyl anaddas, e.e. 'gwelyau mewn siediau'.
- Yn breswylwyr mewn hostelau.
- Yn ddefnyddwyr llochesi nos/gaeaf.
- Yn oroeswyr cam-drin domestig mewn lloches.
- Mewn llety dros dro anaddas (sy'n cynnwys llety gwely a brecwast, gwestai ac ati).
- Yn 'cysgu ar sofffa' – aros gydag eraill (nid teulu agos), ar sail fyrdymor/anniogel/yn dymuno symud, neu mewn amodau gorlawn (sylwer nad yw hyn yn cynnwys myfyrwyr).

Mae niferoedd y bobl sy'n profi digartrefedd craidd wedi cynyddu ym mhob gwlad ym Mhrydain a ledled Prydain gyfan ers 2011. Er bod codiadau mewn cysgu allan wedi denu sylw gwleidyddol ac yn y cyfryngau, dim ond rhan o'r darlun yw hyn. Mae ffigyrau 2017 yn awgrymu, am bob aelwyd a oedd yn cysgu allan yng Nghymru ar unrhyw noson benodol, bod bron i 10 yn cysgu ar sofffa.⁵

² Gweler er enghraifft Homeless Link, 'Impact of homelessness' a gyrchwyd ar 20 Ionawr 2020 ar <https://www.homeless.org.uk/facts/understanding-homelessness/impact-of-homelessness>

³ Blog Crisis (2018) 'What is the scale of homelessness on any given night?'. Cyrchwyd ar 16 Ionawr 2020 ar <https://www.crisis.org.uk/about-us/the-crisis-blog/what-is-the-scale-of-homelessness-on-any-given-night/>

⁴ Bramley, G. (2017) *Homelessness projections: Core homelessness in Great Britain*. Llundain: Crisis.

⁵ Gweler Atodiad 3 ar gyfer tablau llawn ar Gymru a Phrydain Fawr.

1.2 Sut y gellir cartrefu pawb a rhoi diwedd ar ddigartrefedd

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r fframwaith cyffredinol o bolisiau, cynlluniau a dulliau a fydd yn sicrhau bod pawb yng Nghymru'n gallu cael eu cartrefu ac, ar draws cymdeithas gyfan ac i unigolion, bod digartrefedd yn brin, yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto. Dyma y mae hyn yn golygu:

- **Bod digartrefedd yn brin:** mae mwy o fesurau i'w atal ac rydym yn achub ar gyfleoedd i helpu pobl ar adeg gynharach o lawer i sicrhau nad ydynt yn colli eu cartref yn y lle cyntaf.
- **Bod digartrefedd yn fyrhoedlog pan fo'n digwydd:** mewn rhai achosion ni ellir atal digartrefedd ond dylai fod yn brofiad byrhoedlog iawn, gyda phobl yn cael eu helpu i aros yn eu cartref neu'n cael eu hailgartrefu cyn gynted â phosibl gyda'r holl gymorth y mae ei angen arnynt.
- **Nad yw digartrefedd yn digwydd eto:** yn ogystal â bod yn fyr, dylai unrhyw brofiad o ddigartrefedd fod yn unigol ac ni ddylai pobl gael eu gorfodi i brofi sawl cyfnod o ddigartrefedd yn eu bywydau.

Yr ysgogydd pwysicaf ar gyfer digartrefedd yw tlodi.⁶ Dylanwadir ar ddigartrefedd ledled Cymru a gweddill y DU gan ddewisiadau polisi cyhoeddus, gan gynnwys y cyflenwad o dai a'u fforddiadwyedd, gwariant ar les, a pha mor lwyddiannus yw llywodraethau am gynnig cymorth i bobl sy'n ddigartref, yn wynebu risg o ddigartrefedd, neu sydd wedi profi trawma.⁷ Boed yn fwriadol neu beidio, gall penderfyniadau yn yr holl feysydd polisi hyn helpu neu rwystro ymdrechion i roi diwedd ar ddigartrefedd.

Effeithir ar Gymru hefyd gan gymysgedd o benderfyniadau polisi datganoledig, a wneir gan Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a chan benderfyniadau ynghylch materion a gadwyd yn ôl a wneir gan Lywodraeth y DU a Senedd y DU sy'n effeithio ar bob rhan o'r DU.

Ledled Cymru bu cynnydd o ran trechu digartrefedd ac mae'r adroddiad hwn yn ceisio adeiladu ar y gwaith hwn. Mae rhoi Deddf Tai (Cymru) 2014 ar waith yn un enghraifft lle mae deilliannau, cyllid a systemau wedi newid i'w wneud yn ddigwyddiad mwy prin bod sefyllfa pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd yn troi'n argyfyngus cyn iddynt gael cymorth.

Er mwyn cymryd y camau y mae eu hangen i gartrefu pawb a rhoi diwedd ar ddigartrefedd mae'r adroddiad hwn yn cynnig fframwaith ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd ac, yn erbyn y fframwaith hwn, mae'n awgrymu'r hyn sydd eisoes yn gweithio, yr hyn y mae angen gwneud mwy ohono neu lai ohono, a'r hyn y mae angen i Gymru ddechrau ei wneud. Gall rhai newidiadau ddigwydd yn weddol gyflym

⁶ Bramley, G. (2017) *Homelessness projections: Core homelessness in Great Britain*. Crisis: Llundain

⁷ Downie, M., Gousy, H., Basran, J., Jacob, R., Rowe, S., Hancock, C., Albanese, F., Pritchard, R., Nightingale, K. a Davies, T. (2018) *Everybody In: How to end homelessness in Great Britain*. Llundain: Crisis, t.28

ond mae eraill yn newidiadau dyfnach i systemau, diwylliannau ac ymddygiadau a fydd yn cymryd amser, buddsoddiad ac arweinyddiaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth benodol, lle bynnag y bo'n bosibl, am yr union gamau a phwy sy'n gyfrifol amdanynt ond lle nad yw hyn yn bosibl (e.e. oherwydd diffyg tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio) rydym yn cydnabod hyn ac yn cynnig datrysiad delfrydol ar y cyfan y gall fod angen ei ddatblygu ymhellach neu gasglu tystiolaeth bellach ar ei gyfer i'w gwblhau ar ffurf cam gweithredu penodol. Er ein bod yn canolbwyntio'n bennaf ar newidiadau y gall Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid eu gwneud, rydym hefyd yn adnabod y newidiadau y mae angen iddynt ddigwydd yn fwy eang mewn cymdeithas sifil i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru a hefyd newidiadau y mae Llywodraeth y DU yn bennaf neu'n llwyr gyfrifol amdanynt ar hyn o bryd.

Er mwyn rhoi diwedd ar ddigartrefedd bydd yn rhaid wrth ymdrech hirdymor, ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r sector gwasanaethau cyhoeddus ehangach, a chymdeithas sifil. Bydd angen cynllun sy'n cyflawni cyfeiriad strategol datganedig Llywodraeth Cymru.⁸ Mae'r adroddiad hwn yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, ar y cyd â phartneriaid, yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi cynllun gweithredu o'r fath mewn ymateb i argymhellion yr adroddiad hwn, gan gynnwys sut y bydd y cynllun gweithredu'n cael ei ariannu. Dylai'r cynllun hwn fod â chysylltiad eglur â fframwaith deilliannau sy'n dangos sut y bydd rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn cael ei dracio a'i gyflawni ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a thrwy gydweithio'n agor gyda'r gymdeithas sifil ehangach.

Mae'r argymhellion gyda'i gilydd yn cynrychioli newid ar lefel system o bwyslais ar drechu digartrefedd pan fo'n digwydd, neu ei atal pan fo wedi mynd bron yn anochel, i ddull sy'n seiliedig ar atal digartrefedd cyn ei fod yn digwydd.

Mae'r fframwaith ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y pum math o atal y cyfeiriom ni atynt yn ein hadroddiad blaenorol ar drechu a rhoi diwedd ar gysgu allan hefyd.⁹ Mae'r fframwaith a argymhellir gan y Grŵp Gweithredu hefyd yn mapio yn erbyn diffiniad gwasanaethau cyhoeddus Llywodraeth Cymru o atal (y mae iddo hefyd bum pwynt).¹⁰ Yn yr ymarfer mapio rydym wedi cynnwys y pum math o atal ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd trwy ei wneud yn ddigwyddiad prin, byrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto.

1.3 Gwneud digartrefedd yn brin

Yn ystod gwaith y Grŵp Gweithredu fe wnaethom ymgynghori â phobl sydd wedi profi digartrefedd. Er bod nifer o'r bobl y siaradom ni gyda hwy bellach wedi'u

⁸ Llywodraeth Cymru (2019) *Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd*. Cyrchwyd o https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/strategaeth-ar-ddigartrefedd_0.pdf

⁹ Fitzpatrick, S., Mackie, P., a Wood, J. (2019) *Homelessness Prevention in the UK – Policy Briefing*. Cyrchwyd o <http://thinkhouse.org.uk/2019/cache0719a.pdf>

¹⁰ Llywodraeth Cymru (2019) *Cynllun Gwella'r Gyllideb*. Cyrchwyd ar 16 Ionawr 2020 ar <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-12/cynllun-gwellar-gyllideb.pdf>

cartrefu, dim ond 1 ym mhob 10 o bobl (10%) a ddywedodd nad oeddent erioed wedi gofidio am eu sefyllfa o ran tai, sy'n awgrymu bod straen digartrefedd yn aros gyda phobl hyd yn oed ar ôl i sefyllfa argyfyngus gael eu datrys.¹¹ Meddai ymatebwyr:

- *“Fe ddes i’n ddigartref yn sydyn ac fe gefais i’r holl beth yn drawmatig a dryslyd.”*
- *“Dylai trechu digartrefedd ddechrau o oedran ifanc ac nid pan fyddwch yn cyrraedd statws digartrefedd.”*
- *“Mae angen i chi roi’r gorau i roi pobl mewn bocs a rhoi’r cymorth y mae ei angen i’r unigolyn ac arno’i angen.”*

Mae strategaeth gyfredol Llywodraeth Cymru ar ddigartrefedd yn cydnabod bod digartrefedd yn rhywbeth y gall cymdeithas, y llywodraeth, penderfynwyr a llunwyr polisi ei atal, trwy drechu achosion strwythurol digartrefedd (yn enwedig tlodi a straen tai) a thrwy weithredu’n gynharach a chefnogi pobl pan fo angen hynny a lle y bo’i angen arnynt.¹² Gall gwneud hynny leihau’r straen a’r niwed i bobl a allai fod yn ddigartref fel arall.

1.4 Gwneud digartrefedd yn ddigwyddiad byrhoedlog ac nad yw’n digwydd eto

Er mai’r nod fydd bod digartrefedd yn ddigwyddiad prin, bydd adegau o hyd pan fydd pobl yn colli eu cartrefi. Pan fydd hyn yn digwydd, dim ond am gyfnod byr iawn y dylai fod, a dylai fod yn ddigwyddiad unigol, fel nad yw’n digwydd eto. Mae’r adroddiad hwn yn cyfeirio at y cysyniad hwn fel ‘ailgartrefu’n gyflym’. Rydym yn cynnig rhai argymhellion yn yr adroddiad hwn ynghylch ailgartrefu’n gyflym yng nghyd-destun y fframwaith ehangach ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd ond byddwn yn cynhyrchu gwaith pellach erbyn Gwanwyn 2020 ar sut i bontio o’r system gyfredol i ddull ailgartrefu’n gyflym.

1.5 Iaith yn yr adroddiad hwn

Mae rhai o’n hargymhellion yn cyfeirio at yr angen am gyfathrebu wedi’i ailfframio ynglŷn â thlodi a digartrefedd i helpu pobl i ddatblygu dealltwriaeth well am y problemau a’r datrysiadau y mae eu hangen. Gwaith ar y gweill yw hwn ac yn yr adroddiad hwn rydym yn defnyddio rhai termau, megis ‘pobl agored i niwed’ ac ‘anghenion cymhleth’, am bod y termau hyn yn cael eu defnyddio’n gyffredin ar hyn o bryd.

1.6 Fframwaith ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru

Mae’r tabl canlynol yn dangos ein hargymhellion, sydd wedi’u gosod mewn fframwaith i wneud digartrefedd yn ddigwyddiad prin, byrhoedlog ac nad yw’n digwydd eto yng Nghymru. Mae’r adroddiad hwn yn cyfeirio’n ôl at fframwaith atal presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllidebu, oherwydd pwysigrwydd ymateb gan wasanaethau cyhoeddus ehangach i ddigartrefedd.

¹¹ Gweler Atodiad 1 ar gyfer rhagor o fanylion am yr ymgynghoriad

¹² Llywodraeth Cymru (2019) *Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd*

Fframwaith ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru

Digartrefedd yn brin, yn fyrhoedlog a lle nad yw'n digwydd eto	Y diffiniad o atal ar draws gwasanaethau cyhoeddus (cyllideb Llywodraeth Cymru) ¹³	Argymhellion y Grŵp Gweithredu	
Prin (atal i'r eithaf)	<p><i>“Atal Sylfaenol: Meithrin cadernid – creu'r amodau fel nad yw problemau'n codi yn y dyfodol. Dull gweithredu cyffredinol.”</i></p>	<p>Datrysiadau cyffredinol (argymhellion 1-5 a 18 yn yr adroddiad hwn)</p> <p>Fframwaith deilliannau rhoi diwedd ar ddigartrefedd</p> <p>Cymorth i weithluoedd; ariannu a chomisiynu</p>	<p>Atal cyffredinol (argymhellion 6-12 yn yr adroddiad hwn) i weithio ar draws y boblogaeth gyfan i greu'r amodau mewn cymdeithas lle mae digartrefedd yn fwy prin</p>
	<p><i>“Atal Eilaidd: Targedu camau gweithredu mewn meysydd lle mae risg uchel y bydd problem yn digwydd. Dull gweithredu wedi'i dargedu sy'n cadarnhau egwyddorion cyffredinoliaeth gynyddol.”</i></p>		<p>Atal wedi'i dargedu (argymhellion 13-15 yn yr adroddiad hwn) i helpu pobl ar adeg gynharach os ydynt yn wynebu mwy o risg o golli eu cartref</p>
	<p><i>“Atal Trydyddol: Ymyrryd pan fydd problem er mwyn ei rhwystro rhag mynd yn waeth ac i'w hatal rhag digwydd eto yn y dyfodol. Dull gweithredu sy'n ymyrryd.”</i></p>		<p>Atal argyfwng (argymhellion 16-17 yn yr adroddiad hwn) i helpu pobl adeg argyfwng (yn swyddogol 56 diwrnod) i osgoi digartrefedd</p>

¹³ Llywodraeth Cymru (2018) *Cyllideb Ddrafft 2019-20 – Cynigion amlinellol*. Cyrchwyd ar 20 Ionawr 2020 ar <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/2019-2020-gyllideb-ddrafft-amlinellol-naratif.pdf>

<p>Byrhoedlog (ymateb cyflym pan fo atal yn methu) Lle nad yw'n digwydd eto (datrysiadau tymor hwy)</p>	<p><i>“Gwario Acíwt: – Gwario sy'n gweithredu i reoli effaith sefyllfa negyddol iawn, ond sy'n gwneud ychydig neu ddim i atal problemau rhag digwydd eto yn y dyfodol. Dull gweithredu adferol.”</i></p>	<p>Cymorth i newid diwylliannau i roi diwedd ar ddigartrefedd</p> <p>Rhoi diwedd ar ddigartrefedd mudol</p>	<p>Ar hyn o bryd Atal Brys (pobl sy'n wynebu risg sydd ar fin digwydd, yn enwedig pobl sy'n cysgu allan) ac Atal trwy Adfer (atal digartrefedd mynych) ond mae'r adroddiad hwn yn argymhell cynyddu Ailgartrefu'n gyflym (argymhelliad 18 yn yr adroddiad hwn) a lleihau'r angen am Wario Acíwt</p>
---	--	---	--

1.7 Ymgynghoriadau â phobl i oleuo'r adroddiad

Mae Atodiad 1 yn nodi'r gwaith a wnaeth y Grŵp Gweithredu i ymgynghori â phobl sydd â phrofiad personol o fod yn ddigartref ac i ymgynghori â phobl sy'n gweithio i roi diwedd ar ddigartrefedd, yn enwedig mewn rolau sy'n ymwneud â thai a digartrefedd. Atodiadau 5a a 5b yw adroddiadau Cymorth Cymru ar ddigwyddiadau ymgynghori gyda bron i 80 o bobl yng ngogledd a de Cymru sydd wedi profi digartrefedd a'u safbwyntiau ar yr argymhellion yn yr adroddiad hwn.

Daeth ymatebion i'r arolygon ar-lein o ystod o gefndiroedd, sectorau ac ardaloedd daearyddol ond roedd consensws eang ynghylch y datrysiadau. Mynychodd aelodau'r Grŵp Gweithredu gynadleddau, digwyddiadau a chyfarfodydd hefyd i siarad gyda phobl wyneb yn wyneb, cyflwyno canfyddiadau'r arolwg, a datblygu ein dealltwriaeth am farn pobl ymhellach.

Mae'r canfyddiadau allweddol a'n helpodd i ddatblygu'r adroddiad hwn yn cynnwys:

Gan bobl â phrofiad personol o ddigartrefedd

Canfyddiadau arolwg ar-lein yn y cam cyntaf yn cynnwys:¹⁴

- Roedd gan oddeutu hanner yr ymatebwyr brofiad o ddigartrefedd yn y pum mlynedd ddiwethaf, ac mae llawer o bobl bellach wedi'u cartrefu, ond mae naw ym mhob 10 o bobl yn dal i boeni am eu sefyllfa o ran tai.
- Y datrysiad i ddigartrefedd a oedd yn cael y flaenoriaeth uchaf oedd helpu gwasanaethau cyhoeddus i fabwysiadu dull caredig a thosturiol wrth weithio gyda phobl y mae arnynt angen cymorth.
- Roedd ymatebion ar ffurf sylwadau agored mewn arolygon yn canolbwyntio ar yr angen am lety fforddiadwy a diogel.

“Ei gwneud hi'n haws i ni gael lle, hyd yn oed os mai dim ond am un noson oddi ar y stryd y mae hynny, wedyn fel allwch ddod i wybod ym mha sefyllfa yr ydym”

“Ni ddylai fod terfyn amser [ar gymorth] gan bod anghenion pobl yn wahanol; mae angen mwy o amser ar rai pobl.”

“Mwy o dosturi, deall yr effaith ar iechyd meddwl pobl! Deall y rhwystrau'n fwy. [Mae dileu] rhwystrau'n tynnu peth wmbredd o straen oddi ar berson digartref! Yn aml gwneir iddynt deimlo'n ddiwerth fel nad oes ots amdanynt!”

Yn yr ail gam, cynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgysylltu gan Cymorth Cymru ym Mae Colwyn a Chaerdydd. Gweithiodd tua 80 o bobl â phrofiad o ddigartrefedd mewn

¹⁴ Gweld Atodiad 1 am fwy o fanylion

grwpiau i drafod sut y gallai gwasanaethau cyhoeddus gwahanol helpu i atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd.

Roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys:

- Tai a chymorth
- Lles
- Gwasanaethau iechyd
- Gwasanaethau cymdeithasol
- Addysg
- Cyfiawnder troseddol

Gofynnwyd i'r grwpiau hefyd ystyried sut y gellid atal neu leddfu digartrefedd i'r grwpiau y nododd y Grŵp Gweithredu eu bod yn wynebu risg arbennig o fod yn ddigartref yn yr adran 'atal wedi'i dargedu' yn yr adroddiad hwn. Yn olaf, gofynnwyd i'r grwpiau sut i fynd i'r afael â stigma a newid agweddau'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol tuag at bobl sy'n profi digartrefedd, yn ogystal ag ystyried a oes gan bobl sylwadau eraill nad ymdriniwyd â hwy fel arall.

Atodiad 5 yw adroddiad Cymorth Cymru ar ail gam ymgynghoriad y Grŵp Gweithredu â phobl sydd â phrofiad o ddigartrefedd. Yn gyffredinol, canfu'r ymgynghoriad fod llawer o gefnogaeth i bron oll o argymhellion drafft y Grŵp Gweithredu. Fodd bynnag, gwnaeth y Grŵp Gweithredu rai newidiadau ac ychwanegiadau i'r argymhellion drafft yn dilyn sylwadau gan bobl â phrofiad personol gan gynnwys:

- Mewn atal wedi'i dargedu: gwneud yn siŵr bod y cymorth i fod yn 'barod i renti' yn ymyriad a gafodd ei awgrymu ar gyfer pobl ifanc oedd mewn perygl o fod yn ddigartref; ac ychwanegu pobl sy'n profi profedigaeth i'r grŵp risg o bobl sy'n profi perthynas yn chwalu neu berthynas gydag anawsterau.
- Mewn atal ac ailgartrefu'n gyflym: ychwanegu cyfeiriadau at well mynediad at gymorth iechyd meddwl, i atal digartrefedd ac ymateb iddo'n gyflym.
- Atal cyffredinol: cyfeiriadau at rôl eiddo gwag o ran cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a thai cymdeithasol.
- A gwneud argymhelliad penodol ynghylch cynnwys pobl sydd â phrofiad o ddigartrefedd wrth ddylunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau.

Gan bobl sy'n gweithio i roi diwedd ar ddigartrefedd

Fe ofynnwyd ni i bobl sy'n gweithio mewn rolau i roi diwedd ar ddigartrefedd beth fyddai'r datrysiadau pwysicaf i'w helpu hwy'n benodol. Y ddau ddatrysiad a gafodd y flaenoriaeth uchaf oedd:

- Llwybrau atgyfeirio cyflymach i mewn i wasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl a defnyddio sylweddau.

- Cyflenwad gwell o lety'n fwy cyffredinol. Fe ofynnem ni ar wahân am gyflenwad gwell o lety fforddiadwy, cymdeithasol a dros dro/symud ymlaen ac roedd pob ateb yn cael blaenoriaeth uchel.

“Mynediad at wybodaeth/canllawiau a chymorth ar adegau ac mewn lleoliadau sydd ar gael pan fo pobl yn gallu cael mynediad atynt. Nid yn ystod oriau 9 tan 5 gydag apwyntiadau nad yw pobl yn gallu eu cadw.”

“Pob sector a chorff cyhoeddus yn cymryd ac yn rhannu cyfrifoldeb”

“Mwy o dai fforddiadwy. Mwy o dai fforddiadwy. Mwy o dai fforddiadwy.”

Yn dilyn yr arolwg gyda phobl sy'n gweithio i roi diwedd ar ddigartrefedd fe fynychom ni gyfarfodydd a digwyddiadau tuag at ddiwedd 2019 i ymgynghori ymhellach (ceir rhestr o'r digwyddiadau hyn yn Atodiad 1). Fe wnaeth y Grŵp Gweithredu gyflwyno canfyddiadau'r arolwg yn ôl ar gyfer trafodaeth bellach.

Roedd pobl yn cyfeirio'n aml at anawsterau o ran rhoi cymorth i bobl mewn ffordd dosturiol a ffordd sy'n ystyriol o drawma er bod arnynt eisiau gwneud hynny. Roedd cyfeiriadau at y ffaith bod trefniadau ariannu/comisiynu cyfredol yn gallu cynyddu trosiant staff (oherwydd cyfnodau contract byrrach), llwythi gwaith uchel gyda chydabyddiaeth isel i'r pwysau sydd ar bobl a'r arbenigedd sydd ganddynt, a phwysau i gyrraedd targedau gweddol fyrdymor. Roedd ofn hefyd ynglŷn â diffyg cynaliadwyedd neu gydnerthedd mewn rhai sefydliadau, gyda gwasanaethau'n dibynnu ar un neu ddau unigolyn a dim cynllun wrth gefn ar gyfer salwch neu pan fo pobl yn gadael.

“...nid ansawdd y staff yr wyf wedi'u gweld yn y prosiectau yw'r broblem: ni waeth pa mor dda ydych, nid oes neb yn mynd i allu ymdopi â'r llwyth gwaith a'r straen a hwythau'n cael ychydig bach mwy na'r isafswm cyflog, gyda gwyliau sylfaenol a dim cymorth emosiynol a meddyliol amlwg y gallant gael mynediad ato'n gyflym ac yn gyfrinachol”.

“Dim ond pan fo'r gweithwyr cymorth yn cael eu gorweithio ac o dan straen y mae gwasanaethau cyhoeddus yn tueddu i fod yn annhosturiol...Mae angen cymorth ar y gweithwyr cymorth.”

“Ymddengys yn fwyfwy anodd recriwtio a chadw staff cymorth gan bod contractau ar gyfer gwasanaethau'n cael eu torri i'r briw a chyflogau cymorth yn cael eu torri yn unol â hynny – rwyf wedi gweld swyddi swyddogion cymorth yn cael eu hysbysebu â'r isafswm cyflog! Mae angen i ni werthfawrogi gweithwyr cymorth, talu'n dda a pharchu'r gwasanaethau y maent yn eu darparu.”

Roedd rhwystredigaethau gweithredol a oedd yn achosi i bobl sy'n gweithio i roi diwedd ar ddigartrefedd deimlo'n besimistaidd ynglŷn â'r rhagolygon o roi diwedd ar ddigartrefedd ar y cyfan. Roedd y brif rwystredigaeth yn ymwneud â'r

gydnabyddiaeth bod angen ymateb amlasiantaeth, cynharach i helpu pobl sy'n profi digartrefedd – ond nad yw hynny'n bodoli eto.

“Mae gweithio mewn ffordd fwy integredig ar draws sectorau'n tueddu i ddwyn deilliannau mwy llwyddiannus. Yn anffodus, mae'r gallu i wneud hyn yn dibynnu ar ymrwymiad amlasiantaeth a'r adnoddau i wneud i hyn ddigwydd.”

“Ennyn [cefnogaeth] staff rheng-flaen mewn gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a chaethiwed”

“Cydwethio agosach rhwng y sector iechyd a thai i gyflawni datrysiadau. Gall ymgysylltu â'r sector iechyd fod yn gryn her.”

Mewn ymateb i'r safbwyntiau hyn, penderfynodd y Grŵp Gweithredu gynnwys adran yn yr adroddiad ar gefnogi gweithluoedd a'r newid yn y diwylliant sydd ei angen i roi diwedd ar ddigartrefedd.

2.0 Gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i roi diwedd ar ddigartrefedd

2.1 Deilliannau i roi diwedd ar ddigartrefedd

Mae'r Grŵp Gweithredu'n cytuno â barn Llywodraeth Cymru "na ellir atal digartrefedd drwy ddarparu tai yn unig.¹⁵ Er bod gan wasanaethau tai rôl hollbwysig, bydd llawer o'r elfennau o ddull llwyddiannus yn dod o'r tu allan i wasanaethau tai. Mae'r fframwaith ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn yr adroddiad hwn yn dibynnu ar y gwaith ehangach hwn, i atal mwy o achosion o ddigartrefedd yn gynharach ac i ailgartrefu pobl yn gyflym os ydynt yn colli eu cartref.

Ar hyn o bryd ceir nifer o fentrau polisi, prosesau cynllunio a strategaethau sydd wedi'u bwriadu i gyflawni deilliannau gwahanol. Er enghraifft, mae'r rhain yn cynnwys asesiadau llesiant a chynllunio ar y cyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, y Grant Cymorth Tai, a *Cymru Iachach*, y maent i gyd yn cydfodoli ac yn gorgyffwrdd o ran atal a hybu llesiant. Ceir strwythurau presennol megis Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (iechyd, gofal cymdeithasol a thai), Byrddau Partneriaeth Iechyd Meddwl Lleol, a Byrddau Cynllunio Ardal (Camddefnyddio Sylweddau). Mae sicrhau bod digartrefedd yn 'fusnes i bawb' wedi codi yn ymgynghoriadau'r Grŵp Gweithredu, gan gynnwys gwell mynediad at iechyd meddwl a chymorth i ddefnyddio sylweddau.

Mae canllawiau'r Grant Cymorth Tai i awdurdodau lleol hefyd yn nodi cyfleoedd penodol i'r grant hwyluso trefniadau cydweithio i atal digartrefedd, gan gynnwys yn y meysydd polisi a restrir uchod ond hefyd trwy'r Grant Plant a Chymunedau; gwasanaethau i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuencid; a chymorth i grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio. Bydd fframwaith deilliannau sengl hefyd ar gyfer y Grant Cymorth Tai, a'r Grant Plant a Chymunedau.¹⁶

I sicrhau bod yr ymdrechion hyn ar y cyd yn gweithio gyda'i gilydd i roi diwedd ar ddigartrefedd rydym yn argymhell cytuno ar ddeilliannau ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd y bydd yr holl wasanaethau cyhoeddus yn amcanu at eu cyflawni, ynghyd â'r cyllid, y data a'r gwaith monitro y mae eu hangen a'r cymorth ar gyfer gweithluoedd i helpu i greu'r amodau y mae eu hangen i roi diwedd ar ddigartrefedd.

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru gytuno ar 'fframwaith deilliannau rhoi diwedd ar ddigartrefedd' i helpu cydweithrediad rhwng holl wasanaethau cyhoeddus Cymru, darparwyr tai, a darparwyr cymorth. Dylai'r fframwaith amcanu at gynyddu gweithgarwch atal digartrefedd a mabwysiadu arfer gorau o ran cynorthwyo pobl sy'n profi digartrefedd i gael mynediad at y tai iawn iddynt hwy a'u cynnal. Dylai'r dybiaeth gychwynnol ymwneud â defnyddio strwythurau cynllunio strategol presennol i gyflawni hyn ar lefel lleol,

¹⁵ Llywodraeth Cymru (2019) *Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd*

¹⁶ Llywodraeth Cymru (2020) *Canllawiau ar y Grant Cymorth Tai – Canllawiau Ymarfer i Awdurdodau Lleol*, adran 3.4. Cyrchwyd ar 11 Chwefror 2020 ar https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/grant-cymorth-tai-canllawiau-ymarfer_0.pdf

ranbarthol a chenedlaethol ond efallai y bydd angen strwythur neu strwythurau newydd.

Mae proses Cyllideb Cymru eisoes wedi mabwysiadu diffiniad cyffredinol o atal a dylai adrannau'r Llywodraeth ddefnyddio hwn ar unwaith wrth adrodd ar eu gwariant arfaethedig dan y Gyllideb. Mae'r diffiniad cyffredinol yn gydnaws â'r fframwaith yn yr adroddiad hwn ac yn helpu adrannau'r Llywodraeth i ateb gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Byrddau Gwasanaethau Lleol. Byddai enghreifftiau o ddull cadarn o atal digartrefedd sy'n ystyried cenedlaethau'r dyfodol yn cynnwys:

- Mynd i'r afael â dewis cyfyngedig iawn o dai ar gyfer pobl iau oherwydd anfforddiadwyedd mewn sawl rhan o Gymru.
- Trechu tlodi yn ystod plentyndod a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, o ystyried y cyswllt â digartrefedd yn y dyfodol, y ceir tystiolaeth ohono.
- Digartrefedd a achoswyd gan y newid yn yr hinsawdd (e.e. codiad yn lefelau'r môr).
- Newidiadau demograffig (e.e. helpu i ddiwallu anghenion tai poblogaeth hŷn sy'n tyfu).
- Mynd i'r afael ag effaith gwaharddiadau o'r ysgol ar ddigartrefedd yn y dyfodol.

Argymhelliad 2: Yn ystod gweithgarwch craffu ar y Gyllideb dylai adrannau Llywodraeth Cymru adrodd wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar wariant cyfredol ac arfaethedig yn eu cyllidebau ym mhob un o'r pump maes o ran atal digartrefedd a nodir yn y fframwaith rhoi diwedd ar ddigartrefedd (fel ag amlinellir yn yr adroddiad hwn) ac yn unol â fframwaith atal generig Llywodraeth Cymru.¹⁷

2.2 Cymorth i weithluoedd

Er bod yr adroddiad hwn yn argymhell fframwaith deilliannau ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd, ynghyd â'r strwythurau cynllunio gwasanaethau cyhoeddus i gyflawni hyn, bydd llwyddiant yn dibynnu ar weithluoedd. Un o'r prif themâu yn ymgynghoriad y Grŵp Gweithredu gyda phobl sy'n gweithio mewn rolau i roi diwedd ar ddigartrefedd oedd awydd i fod â gweithlu sy'n cael ei werthfawrogi a'i gynorthwyo i roi diwedd ar ddigartrefedd.

Nid oedd ymatebwyr o'r farn mai dyma'r realiti ym mhob rhan o Gymru. Roedd pobl y siaradom ni gyda hwy'n ymwybodol bod gweithleoedd mewn meysydd eraill, megis gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, yn meddu ar ryw faint o 'broffesiynoldeb' (h.y. strwythurau gyrfaoedd cydnabyddedig, lefelau cyflog, safonau galwedigaethol cenedlaethol a.y.b.) nad yw'r gweithlu tai a digartrefedd yn meddu arno. Roedd teimlad hefyd o fod yn berthnasau tlawd o ran cyflogaeth ac wrth gydweithio gyda phroffesiynau eraill.

¹⁷ H.y. Cyffredinol/cynradd; wedi'i dargedu/eilaidd; argyfwng/trydyddol; a gwario aciwt (atal brys a thrwy adfer ond gyda phwyslais cynyddol ar ailgartrefu'n gyflym fel y dull diodyn dros wario aciwt).

Er mwyn i ni roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru, mae'n hollbwysig bod pawb sy'n gweithio mewn rôl sy'n helpu i roi diwedd ar ddigartrefedd yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynorthwyo i weithio orau y gallant. Mae hyn yn golygu:

- Cyflog priodol/cydnabyddiaeth briodol i gymwyseddau, gwobrwyon/cymhellion anariannol ac amodau da.
- Mwy o ddiogelwch swydd a llai o ddefnydd o gontractau am gyfnod penodedig.
- Digon o amser ac adnoddau ar gyfer goruchwyliaeth broffesiynol, cymorth therapiwtig a myfyrio, gan gynnwys rhaglen i fynd i'r afael â thrawma mechniol a'i atal (gan gynnwys prosesau i gynnal ôl-drafodaethau gyda staff ar ôl digwyddiadau difrifol).
- Cyfleoedd ar gyfer datblygiad gyrfa, gan gynnwys datblygu arweinwyr a chynllunio ar gyfer olyniaeth.
- Hyfforddiant achrededig, o bosibl trwy ddatblygu safonau galwedigaethol cenedlaethol (e.e. yn yr Alban mae swyddogion cymorth tai yn ennill cymwysterau galwedigaethol a gydnabyddir yn genedlaethol mewn tai neu ddisgyblaethau perthnasol eraill).
- Cydweithio cryfach rhwng awdurdodau lleol.
- Cymorth i'r nifer sylweddol o bobl sy'n gwirfoddoli gyda sefydliadau digartrefedd ochr yn ochr â'r gweithlu cyflogedig. Mae angen cydnabod eu rôl a'u gwerth, ond hefyd sicrhau bod yr hyn y maent yn ei wneud yn gallu cyfrannu at roi diwedd ar ddigartrefedd yn hytrach na'i reoli.

Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'u partneriaid darparu gwasanaethau gytuno ar gynllun i sicrhau bod y gweithlu'n cael ei gefnogi'n effeithiol i roi'r fframwaith hwn ar waith. Mae hyn yn cynnwys:

- **Sicrhau y defnyddir dull sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.**
- **Cydnabyddiaeth bellach i sgiliau, gwerthoedd a phrofiadau staff sy'n gweithio i roi diwedd ar ddigartrefedd a datblygu'r rhain ymhellach, gan gynnwys ystyried dull mwy ffurfiol lle mae dysgu a datblygu seiliedig-ar-waith yn y cwestiwn, yn enwedig mewn gwasanaethau cyhoeddus.**
- **Amser rheolaidd i fyfyrion a goruchwylion achosion ar gyfer staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl y mae digartrefedd yn effeithio arnynt.**
- **Camau pellach i wneud rolau a thelerau ac amodau staff mor ddeniadol â phosibl i ddarparu staff a'r rhai presennol.**

2.3 Diwylliant a rheoli newid

Mae gan Gymru brofiad diweddar o newid diwylliant fel rhan o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Fe wnaeth Rhan 2 o'r Ddeddf hi'n ofynnol i dimau opsiynau tai mewn awdurdodau lleol symud o gymhwyso prosesau i bobl tuag at weithio gyda phobl i ddatrys eu materion tai, h.y. dull mwy cydweithredol, sy'n ymwneud yn fwy â datrys problemau.

Fe gymerodd Llywodraeth Cymru nifer o gamau i gefnogi'r newid hwn, e.e. Cod Canllaw wedi'i gydgynhyrchu, hyfforddiant ar y cyd, newid systemau casglu data, a gweithio i fynd ati'n well i gysoni gwasanaethau a ariennir gan y rhaglen Cefnogi Pobl ag atal digartrefedd. Roedd hyn yn gadarnhaol, ond mae gwerthusiad o'r broses o roi'r ddeddfwriaeth ar waith yn awgrymu bod angen gwaith pellach i ail-bwysleisio'r newid hwn mewn diwylliant ac i roi cymorth pellach i'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith.¹⁸

Wrth bennu'r fframwaith ac ystod o argymhellion uniongyrchol, ymarferol yn yr adroddiad hwn, mae'r Grŵp Gweithredu'n cydnabod y bydd newid diwylliant yn hanfodol i gyflawni'r fframwaith ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd. Mae hyn yn cynnwys diwylliant o berchnogaeth ar draws gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer tai a digartrefedd; cydweithrediad rhwng gwasanaethau a rolau proffesiynol gwahanol; a diwylliant mwy tosturiol yn y gymdeithas ehangach ar gyfer pobl sy'n profi digartrefedd. Rydym wedi adnabod nifer o egwyddorion allweddol diwylliant a fydd, yn ein tyb ni, yn helpu i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru:

- **Ffocws eglur:** datblygu a chytuno ar ddiffiniad o roi diwedd ar ddigartrefedd o bob math trwy sicrhau ei fod yn brin, yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto gyda ffocws tymor hwy ar hyn ac atebolrwydd am gyflawni yn erbyn y fframwaith deilliannau.
- **'Dim byd amdanom ni, hebom ni':** sicrhau bod pobl â phrofiad personol o ddigartrefedd yn goleuo polisi ac arfer; a bod staff yn chwarae rhan lawn.
- **Amgylcheddau sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol/trawma:** rhoi'r pum elfen o'r fframwaith Amgylcheddau sy'n Ystyriol o Gyflwr Seicolegol a ddisgrifir yn nes ymlaen yn yr adran hon ar waith yn llawn.
- **Dull cydweithredol/dim drws anghywir:** sefydliadau'n cydweithio'n effeithiol, gan gymryd cydgyfrifoldeb a sicrhau bod pobl sy'n wynebu digartrefedd neu broblemau tai'n cael eu helpu mor gynnar â phosibl ac nad ydynt yn cael eu 'pasio' rhwng gwasanaethau.
- **Dull dim diagnosis anghywir** – sicrhau cymhwysedd proffesiynol gweithwyr i ymdrin â symptomau a chymhlethdodau wrth i bobl ddod i sylw gyda hwy, i reoli risg ac i reoli gofal wrth ddisgwyl am atgyfeiriad/asesiad pellach.
- **Seiliedig ar ddysgu/tystiolaeth:** defnyddio data ac ymchwil yn dda a bod ag amser i fyfyrto ar waith a gwneud yr hyn sy'n gweithio i roi diwedd ar ddigartrefedd – yn hytrach na'i reoli.
- **Datrys problemau:** cydnabod nad yw pobl sy'n gweithio i roi diwedd ar ddigartrefedd wastad yn gwybod yr ateb 'cywir' a bod angen iddynt weithio gydag eraill i ganfod datrysiadau.
- **Dull tosturiol, sy'n dangos parch ac yn peidio â barnu.**

I roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru, mae angen iddo fod yn 'fusnes i bawb' ac mae'r fframwaith ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn nodi'n fras sut y dylai hyn ddigwydd. Gall cynllun a arweinir gan Lywodraeth Cymru i roi diwedd ar ddigartrefedd ddatblygu'r rhain ymhellach yn gamau ymarferol. Mae gan y

¹⁸ Ahmed, A., Wilding, M. A., Gibbons, A. R., Jones, K. E., Rogers, M. M., a Madoc-Jones, I. (2017) Adroddiad interim *Gwerthusiad ar ôl gweithredu o'r ddeddfwriaeth digartrefedd (rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.*

sefydliadau a'r sectorau canlynol oll rolau o ran rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru a sicrhau bod pobl yn cael eu cartrefu'n briodol:

- Gwasanaethau digartrefedd/opsiynau tai awdurdodau lleol.
- Gwasanaethau eraill awdurdodau lleol, yn enwedig addysg a gwasanaethau cymdeithasol.
- Iechyd, iechyd meddwl, a defnyddio sylweddau,
- Yr heddlu a chyfiawnder troseddol,
- Arweinwyr gwleidyddol – cenedlaethol a lleol.
- Arweinwyr cymunedol.
- Sefydliadau'r trydydd sector.
- Landlordiaid (preifat a chymdeithasol).
- Grwpiau ffydd (e.e. Housing Justice Cymru) a'r gymdeithas ddinesig.
- Arianwyr.
- Busnesau/grwpiau busnes, megis y Ffederasiwn Busnesau Bach, Siambrau Masnach, Busnes yn y Gymuned, ac Ardaloedd Gwella Busnes.
- Y cyfryngau ledled Cymru.
- Sefydliadau academaidd ac addysgol.
- Y cyhoedd ar y cyfan a rhannau o'r cyhoedd.

2.4 Ei gwneud yn bosibl darparu gwasanaethau cymorth sy'n effeithiol ac yn ystyriol o gyflwr seicolegol

Dangosodd y ddau ymgynghoriad gan y Grŵp Gweithredu fod y datrysiadau y mae pobl yn rhoi'r flaenoriaeth uchaf iddynt yn ymwneud â materion sylfaenol cael mynediad at lety brys a llety parhaol addas; a gwneud yn siŵr bod gwasanaethau cymorth ar gael a bod gweithio amlasiantaeth yn digwydd. Roedd awydd hefyd i sicrhau bod cymorth yn fwy ystyriol o drawma hefyd. Roedd hyn yn cynnwys mewn arolygon gyda phobl â phrofiad o ddigartrefedd, lle'r oedd gwasanaethau cyhoeddus sy'n "garedig, yn dosturiol ac yn trin pobl ag urddas" yn brif flaenoriaeth polisi.¹⁹

Fe wnaeth ein harolwg a digwyddiadau ymgynghori gyda phobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau tai, digartrefedd a rolau cysylltiedig adleisio'r canfyddiad hwn ond canfu hefyd barodrwydd amlwg i wneud mwy ac i weithio mewn ffordd wahanol i roi diwedd ar ddigartrefedd. Fodd bynnag, roedd rhwystredigaeth ynglŷn â rhai o'r heriau a rhwystrau y mae pobl sy'n ceisio rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn eu profi. Mae creu'r Grant Cymorth Tai yn gyfle i ailfodelu cyllid ar gyfer cymorth tai ac atal digartrefedd i adlewyrchu'r fframwaith y mae'r adroddiad hwn yn ei ddisgrifio, gyda mwy o bwyslais ar fynd i'r afael ag achosion sylfaenol digartrefedd ac atal digartrefedd ar adeg gynharach. Mae hefyd yn gydnaws ag egwyddorion Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae llawer o bobl sy'n profi digartrefedd neu risg o ddigartrefedd wedi profi trawma – ac yn wynebu risg o drawma pellach – felly dylid comisiynu a darparu gwasanaethau

¹⁹ Gweler Atodiad 1 am ragor o fanylion

gan ddefnyddio dull sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol ac sy'n cydnabod hyn ac yn ymateb yn briodol. Mae'r dull hwn yn ymestyn y tu hwnt i ddim ond y rhyngweithiadau dynol uniongyrchol rhwng staff cymorth a phobl sy'n profi digartrefedd ac i bum elfen. Croesewir y ffaith bod y canllawiau ar y Grant Cymorth Tai'n mabwysiadu'r elfennau hyn a dylid eu mabwysiadu'n fwy eang ar draws gwasanaethau cyhoeddus:²⁰

1. **Fframwaith seicolegol:** Mae gan sefydliadau ymrwymiad strategol a gweithredol i ddulliau sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol. Mae dyluniad gwasanaethau, y broses o'u datblygu a'r broses o'u gwerthuso'n cael eu goleuo gan fodel seiliedig-ar-dystiolaeth sy'n ystyriol o drawma ac mae diwylliant y sefydliad yn fyfyrion, yn dosturiol ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn.
2. **Perthnasoedd:** Mae perthnasoedd o ansawdd da'n cael eu cydnabod fel y prif offeryn yn y broses o ddarparu gwasanaethau effeithiol ac mae gan staff yr amser i ddatblygu perthnasoedd llawn ymddiriedaeth â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Defnyddir dulliau sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol ni waeth pa un a yw profiadau o drawma'n hysbys ac mae disgwyliadau'n cael eu cyfle mewn ffordd eglur, gyson a pharchus sy'n osgoi achosi i bobl brofi trawma drachefn.
3. **Yr amgylchedd corfforol a chymdeithasol:** Mae amgylcheddau asesu a chymorth yn ddiogel, yn groesawgar ac yn hyblyg, gan alluogi rhyngweithio cadarnhaol, sy'n ystyriol o drawma i ddigwydd rhwng staff a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Mae gan bobl ddewis a rheolaeth o ran sut y maent yn ymgysylltu â gwasanaethau ac mae'r amgylchedd ffisegol yn cefnogi eu llesiant.
4. **Hyfforddiant a chymorth ar gyfer staff:** Mae staff yn cael hyfforddiant a chymorth i gynyddu eu dealltwriaeth am drawma a sut y gall hyn effeithio ar ymgysylltiad a pherthynas pobl â gwasanaethau. Mae ymarfer adfyfyrion, dysgu parhaus, goruchwyliaeth broffesiynol a chymorth therapiwtig yn sicrhau bod staff yn teimlo'n hyderus i weithio mewn ffordd sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol.
5. **Tystiolaeth a dysgu:** Cesglir dystiolaeth i ddangos effaith dulliau sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol a defnyddir hyn i gefnogi dysgu parhaus a gwella effeithiolrwydd gwasanaethau. Caiff gwybodaeth am brofiadau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau ei chasglu'n rheolaidd a'i defnyddio i oleuo'r broses o gynllunio gwasanaethau.

Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod pobl sy'n profi digartrefedd yn aml yn rhyngweithio â nifer o wahanol wasanaethau cyhoeddus, megis iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a'r system cyfiawnder troseddol. Mae felly'n bwysig bod y ffocws ar ddulliau sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol/trawma wedi'i sefydlu ar draws yr holl wasanaethau hyn.

Argymhelliad 4a: Dylai gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru roi cymorth i alluogi pawb sy'n gweithio i drechu a rhoi diwedd ar ddigartrefedd i

²⁰ Llywodraeth Cymru (2020) *Canllawiau ar y Grant Cymorth Tai – Canllawiau Ymarfer i Awdurdodau Lleol*, para. 2.9.1. Cyrchwyd ar 11 Chwefror 2020 ar https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/grant-cymorth-tai-canllawiau-ymarfer_0.pdf

ddefnyddio dull sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol ym mhob agwedd ar eu gwaith. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys hyfforddiant, cyllid trwy fframweithiau a phrosesau comisiynu, a chymorth a datblygiad parhaus ar gyfer staff. Dylai cyllid ar gyfer pobl sy'n profi digartrefedd gael ei adnabod, ei ddiogelu/neilltuo, a'i sicrhau yn y tymor hwy i'w gwneud yn bosibl cynllunio a chomisiynu gwasanaethau mewn modd effeithiol a'u darparu'n barhaus.²¹

Argymhelliad 4b: Cyflawni dull sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol gan ddefnyddio'r pum elfen (h.y. fframwaith seicolegol; perthnasoedd; amgylchedd ffisegol a chymdeithasol; hyfforddiant a chymorth ar gyfer staff; a thystiolaeth a dysgu) ar sail sefydliad cyfan trwy:

- **Estyn yr hyfforddiant PATH presennol ar amgylcheddau sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol i'r holl wasanaethau digartrefedd a chysylltiedig ac i bob rôl, gan gynnwys y rhai sy'n pennu ac yn monitro strategaeth a chyllidebau yn ogystal â phobl sy'n darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb.**
- **Cynnwys dull sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol yn y fframwaith deilliannau rhoi diwedd ar ddigartrefedd ac wrth gomisiynu gwasanaethau ar gyfer hynny.**
- **Gwneud hyfforddiant mewn dulliau sy'n ystyriol o drama'n safonol i'r holl weithwyr proffesiynol mewn gwasanaethau sy'n dod i gysylltiad â phobl sy'n profi digartrefedd neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd.**

2.5 Gwrando ar bobl sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd

Roedd digwyddiadau ac arolygon ymgynghori'r Grŵp Gweithredu wedi canfod bod pobl sydd â phrofiad o fod yn ddigartref yn teimlo eu bod hwy yn cael eu gwrando ar ac yn cael eu gwerthfawrogi am fod yr adroddiad hwn yn adlewyrchu eu profiadau. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod pobl am i'w lleisiau gael eu clywed yn y dyfodol ac yn galw i bobl sydd â phrofiad personol i fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau er mwyn rhoi terfyn ar ddigartrefedd.

Gall hyn ddigwydd mewn ffordd hyblyg, felly nid ydym wedi argymhell fformat penodol. Dylai'r deilliannau fod yn ddull 'dim byd amdanom ni hebom ni' tuag at bobl sydd â phrofiad o ddigartrefedd. Dylai sefydliadau sicrhau eu bod yn dilyn arferion da wrth gynnwys, fel rhan hanfodol o'u gwaith, leisiau pobl sydd â phrofiad o ddigartrefedd ym mhob agwedd ar gynllunio, cyflwyno a gwerthuso gwasanaethau:

- **Cynnwys pobl yn gynnar – ac ar adegau allweddol - er mwyn rhoi amser i bobl ddylanwadu'n wirioneddol ar y gwaith.**

²¹ Mae hwn yr un fath â'r argymhelliad o'n hadroddiad blaenorol: Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2019) *Atal cysgu allan yng Nghymru a'i leihau yn y byrdymor*. "Argymhelliad 11: Dylid comisiynu gwasanaethau allgymorth a gwasanaethau eraill i bobl sy'n cysgu allan neu sy'n wynebu risg o gysgu allan er mwyn hyrwyddo atebion estynedig sy'n helpu pobl i ddianc rhag cysgu allan a digartrefedd am byth."

- Sicrhau bod y broses yn hygyrch o ran fformat, amseru a logisteg (e.e. lleoliadau/ar-lein).
- Yn dilyn dull ' fe ddywedoch chi, fe wnaethon ni ' i roi adborth ar yr hyn a wnaeth sefydliad i ymateb i farn pobl a sicrhau bod lleisiau pobl yn dylanwadu ar bob cam o'r broses o wneud penderfyniadau, darparu a gwerthuso.

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru, gwasanaethau cyhoeddus, darparwyr tai a darparwyr cymorth sicrhau bod pobl sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd yn cael cyfleoedd i ddylanwadu ar benderfyniadau a darparu gwasanaethau i roi terfyn ar ddigartrefedd.

3.0 Gwneud digartrefedd yn brin trwy Atal Cyffredinol (Atal Sylfaenol)

Mae tystiolaeth ar achosion digartrefedd wedi canfod:

“Y sbardun pwysicaf ar gyfer digartrefedd yn ei holl ffurfiau yw tloedi... Mae sbardunau eraill yn cynnwys argaeledd a fforddiadwyedd llety, i ba raddau y defnyddir mesurau atal, a... demograffeg...”²²

I ymdrin â'r sbardunau hyn, rhaid i atal cyffredinol gynyddu yng Nghymru. Rhaid i ni greu'r amodau lle mae llai o bobl ac aelwydydd yn cael eu gwneud yn ddigartref yn y lle cyntaf. Rydym yn nodi bod strategaeth digartrefedd Llywodraeth Cymru'n dweud na ellir atal digartrefedd trwy ddarparu tai yn unig a bod angen yr holl wasanaethau cyhoeddus, y sector gwirfoddol a'r gymdeithas sifil ehangach i helpu i leihau'r risg o ddigartrefedd i'r eithaf.²³ Mae'r argymhellion hyn yn nodi'r ymyriadau ehangach ar draws poblogaeth Cymru i wneud digartrefedd yn fwy prin.

3.1 Yr hawl i fyw mewn diogelwch, heddwch ac urddas

Mae llywodraethau yng Nghymru a'r Alban wedi cymryd camau dros y blynyddoedd diwethaf i wreiddio agweddau ar gyfraith ryngwladol ar hawliau dynol yng nghyfraith Cymru, lle mae pwerau datganoledig yn bodoli. Mae adroddiad gan Dr Simon Hoffman ar gyfer Sefydliad Tai Siartredig Cymru, Shelter Cymru a Tai Pawb yn cyfleu'r achos dros ymgorffori'r Hawl i Dai Digonol a gyflwynwyd gan y Cenhedloedd Unedig yng nghyfraith Cymru, i'w gwneud yn rhan o bolisi a chyfraith ar dai.²⁴

Gan ddibynnu ar y ffordd y caiff cyfreithiau hawliau dynol eu gwreiddio mewn cyfraith genedlaethol, gall hyn ddarparu ffordd i gyflwyno safbwynt hawliau dynol ar gyfer llunwyr polisi mewn llywodraeth a throsolwg farnwrol ar brosesau penderfynu. Dylai hefyd sicrhau bod yr holl brosesau penderfynu ynglŷn â gwasanaethau cyhoeddus yn cefnogi'r nod i ddiwallu'r angen sylfaenol cyffredinol am dai digonol. Mae'r Cenhedloedd Unedig yn diffinio'r hawl i dai digonol yn fwy eang na “dim ond to dros ben rywun” ond yn hytrach fel “yr hawl i fyw yn rhywle mewn diogelwch, heddwch ac urddas”.²⁵ Mae hefyd yn dweud bod rhaid i'r hawl “gael ei deall mewn perthynas ag urddas cynhenid y bod dynol”,²⁶ h.y. bod cartref yn angen dynol sylfaenol y mae'n rhaid i ni gydweithio i'w ddiwallu ar gyfer pawb.

Mae hyn yn gydnaws iawn â gweledigaeth strategaeth ddigartrefedd Llywodraeth Cymru ar gyfer “Cymru lle mae gan bawb gartref diogel sy'n diwallu eu hanghenion

²² Bramley, G. (2017) *Homelessness projections: Core homelessness in Great Britain*. Crisis: Llundain

²³ Llywodraeth Cymru (2019) *Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd*, t.1

²⁴ Hoffman, S. (2019) *The right to adequate housing in Wales: Feasibility Report*. Tai Pawb, CIH Cymru a Shelter Cymru.

²⁵ Habitat, U. N. (2009). The right to adequate housing. *Ffeithlen Rhif, 21*.

²⁶ Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig (2019) Guidelines for the Implementation of the Right to Adequate Housing. Cyrchwyd ar 4 Chwefror 2020 ar <https://undocs.org/A/HRC/43/43>

ac yn cefnogi bywyd iach, llwyddiannus a ffyniannus".²⁷ Mae egwyddor deddfu i wneud tai'n hawl sylfaenol yng Nghymru wedi cael cefnogaeth drawsbleidiol eang hefyd. Mae strategaeth ddigartrefedd y Ceidwadwyr Cymreig yn argymhell hyn yn benodol²⁸ ac mae Plaid Cymru wedi ymrwymo i gynllunio i roi diwedd ar ddigartrefedd gan gynnwys cartrefu pawb.

Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cymru ddod o hyd i ffordd o ymgorffori hawl ddynol i dai digonol yng nghyfraith Cymru. Dylai fod dyletswydd ar Weinidogion ac awdurdodau lleol i roi sylw dyladwy i'r hawl i dai digonol wrth wneud penderfyniadau, ac i'r hawl fod yn orfodadwy yn farnwrol.

Mae'r Grŵp Gweithredu'n nodi bod y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi dweud wrth un o bwyllgorau'r Cynulliad bod Llywodraeth Cymru yn ystyried opsiwn 'sylw dyladwy' ond bod ganddi bryderon y bydd y diffyg cyflenwad o dai ar hyn o bryd yn atal awdurdodau lleol rhag cyflawni'r hawl.²⁹ Mae'r Grŵp Gweithredu'n glir y dylai cynllun i roi diwedd ar ddigartrefedd fod wedi'i wreiddio mewn hawl y gellir ei gorfodi'n gyfreithiol i dai digonol a all barhau y tu hwnt i dymor presennol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys 'sylw dyladwy' a gorfodadwyedd. Fodd bynnag, nid yw'n gwbl amlwg a oes gan Gymru'r pwerau deddfwriaethol datganoledig i ddeddfu'n ffurfiol ar yr hawl hon ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yn y cyfamser mae'r Grŵp Gweithredu o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried bod tai digonol yn hawl a chyflawni'r gofynion polisi y mae eu hangen i wireddu'r hawl hon.

Mae cyflenwad o lety gwirioneddol fforddiadwy gyda dewis ar draws gwahanol fathau o ddeiliadaeth yn hanfodol i gartrefu pobl ledled Cymru. Mae casglu a chyhoeddi amcangyfrifon o'r angen am dai yng Nghymru'n gam cyntaf i'w groesawu tuag at sefydlu cynlluniau i ddiwallu'r angen am dai.³⁰ Mae gwaith gan Brifysgol Heriot Watt yn amcangyfrif bod yr angen am dai cymdeithasol ar gyfer pobl â phrofiad o ddigartrefedd ac ar gyfer pobl ar incwm isel ledled Cymru'n 4,000 o gartrefi newydd y flwyddyn am 15 mlynedd (gydag amcangyfrifon pellach ar gyfer mathau eraill o ddeiliadaeth tai, gan gynnwys tai rhent canolradd, rhanberchnogaeth, a thai rhent preifat).³¹

Canfu ymgynghoriad y Grŵp Gweithredu â phobl sydd â phrofiad o ddigartrefedd fod pobl am i eiddo gwag gael ei ddefnyddio unwaith eto i gynyddu'r cyflenwad o dai.

²⁷ Llywodraeth Cymru (2019) *Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd*, t.1

²⁸ Y Ceidwadwyr Cymreig (2019) *More than a Refuge: tackling Wales' homelessness crisis*. Cyrchwyd o <https://www.welshconservatives.com/sites/www.welshconservatives.com/files/2019-10/More%20than%20a%20Refuge%20Tackling%20Wales%20Homelessness%20Crisis%20October%202019.pdf>

²⁹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2019) Cofnod y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 17 Hydref 2019. Cyrchwyd ar 23 Ionawr 2020 ar <https://record.assembly.wales/Committee/5744#C234148>

³⁰ Llywodraeth Cymru (2019) Amcangyfrifon o'r angen am dai yng Nghymru fesul deiliadaeth: sail-2018. Cyrchwyd ar 17 Ionawr 2020 o https://llyw.cymru/amcangyfrifon-or-angen-am-dai-yng-nghymru-fesul-deiliadaeth-sail-2018?_ga=2.193038052.854244248.1583155871-1668418585.1546430274

³¹ Bramley, G. (2018) Housing supply requirements across Great Britain: for low-income households and homeless people. Llundain: Crisis a'r Ffederasiwn Tai Cenedlaethol

Gwnaeth yr adolygiad annibynnol o'r cyflenwad o dai fforddiadwy argymhellion penodol ar y mater hwn.³² Gwnaeth Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Cynulliad Cenedlaethol argymhellion pellach ar eiddo gwag ac fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymateb iddynt ym mis Tachwedd 2019.³³

Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod anghenion tai pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd neu'n ei brofi'n cael eu hystyried trwy Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol. Rhan fawr o'r ddarpariaeth fydd tai cymdeithasol gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ond bydd hefyd yn cynnwys tai'r sector rhentu preifat, tai fforddiadwy canolradd, a thai a rennir i roi dewis a hyblygrwydd i denantiaid. Rhaid i ganllawiau cynllunio a chynlluniau datblygu lleol/rhanbarthol sicrhau eu bod yn mynd i'r afael yn benodol ag anghenion tai aelwydydd digartref cyfredol a rhagamcanol (gan gynnwys, er enghraifft, teuluoedd/unigolion a phobl ifanc yn benodol). Dylid cyflawni argymhellion yr Adolygiad o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy.³⁴

Gall Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid gymryd camau ymarferol ar unwaith i ddarparu hawl i dai digonol cyn y cyflwynir deddfwriaeth. Y nodwedd allweddol ar yr argymhellion hyn yw y dylid eu rhoi ar waith mewn ffordd systemig. Wrth gynyddu'r cyflenwad o lety gwirioneddol fforddiadwy rhaid hefyd rhoi mesurau ar waith i hybu mynediad at dai a chynnal tenantiaethau mewn tai ar draws grwpiau deiliadaeth. Ynghyd â hyn, dylai cynllunio lleol a rhanbarthol ar gyfer tai ac anghenion cymorth ddigwydd gyda'i gilydd.

Ar hyn o bryd, nid yw Cymru'n adeiladu digon o gartrefi i ddiwallu'r angen ac i helpu i roi diwedd ar ddigartrefedd. Mae cynyddu'r cyflenwad o dai'n rhan hollbwysig o ddarparu hawl i dai digonol. Rhaid bod a wnelo hyn yn gyntaf â sicrhau bod y cartrefi cywir yn cael eu hadeiladu yn y manau cywir ac yn ail â gwneud yn siŵr bod pobl sy'n profi digartrefedd neu'n wynebu risg ohono ar hyn o bryd yn cael cymorth i gael mynediad at dai sy'n fforddiadwy ac yn addas i'w hanghenion. Mae'r ffocws ar fforddiadwyedd o fewn y setliad rhent tai cymdeithasol yn rhywbeth i'w groesawu, fel y mae'r datganiad ochr yn ochr â hyn ynghylch uchelgais ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a landlordiaid tai cymdeithasol i roi diwedd ar droi allan i ddigartrefedd o dai cymdeithasol.

Argymhelliad 7a: Cynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol (darparu 4,000 o dai newydd y flwyddyn dros 15 mlynedd) trwy gynyddu'r cyllid cyfalaf sydd ar gael i adeiladu cartrefi cymdeithasol a sicrhau bod y cyflenwad o bob math o dai (cymdeithasol, fforddiadwy, preifat a pherchen-feddiannydd a.y.b.) yn cael ei

³² Y Panel Annibynnol ar y Cyflenwad o Dai Fforddiadwy (2019) *Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy*. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/adolygiad-annibynnol-or-cyflenwad-o-dai-fforddiadwy-adroddiad_0.pdf

³³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2019) *Adroddiad Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau – Eiddo Gwag*. Cyrchwyd ar 4 Mawrth 2020 ar <http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglssueHistoryHome.aspx?lId=25057>

³⁴ Y Panel Annibynnol ar y Cyflenwad o Dai Fforddiadwy (2019) *Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy*. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/adolygiad-annibynnol-or-cyflenwad-o-dai-fforddiadwy-adroddiad_0.pdf

gynnal ar y lefel gywir yn seiliedig ar amcanestyniadau rheolaidd o ddiartrefedd a'r angen am dai. Dylai'r rhain gael eu nodi mewn asesiadau o'r farchnad dai leol a dylai fframweithiau datblygu lleol fod yn seiliedig ar yr asesiad cyfoes hwn o angen, a hynny'n cael ei ategu gan dystiolaeth well ar lefel genedlaethol trwy adnodd data mewn arddull CORE (h.y. cofnodi data'n barhaus ar gyfer tai cymdeithasol).

Argymhelliad 7b: Dylai'r fframwaith grantiau ar gyfer dyrannu cyllid i adeiladu tai cymdeithasol gael ei oleuo gan ddealltwriaeth am yr angen am dai, sy'n cynnwys digartrefedd trwy asesiadau o'r farchnad dai leol. Dylai cyfradd y grant a ddyrennir adlewyrchu costau ychwanegol adeiladu rhai mathau o dai, gan gynnwys tai ar gyfer pobl ifanc a phobl y mae arnynt angen tai meddiannaeth sengl. Dylai'r fframwaith grantiau gefnogi cydweithio rhwng cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol ar adeg dyrannu grantiau trwy ei gwneud yn ofynnol cael sgysiau cynnar ynglŷn â rheoli cartrefi i gynorthwyo pobl sy'n profi digartrefedd ar hyn o bryd neu sy'n wynebu risg ohono i gael mynediad at denantiaethau a'u cynnal.

Mae sicrhau cyflenwad o dai'n rhan hanfodol o ddarparu hawl i dai digonol, gan gynnwys mesurau i hybu mynediad at denantiaethau a chynnal tenantiaethau mewn tai ar draws grwpiau deiliadaeth. Mae hyn yn golygu defnyddio'r Grant Cymorth Tai, a grantiau cymorth eraill a chyllid craidd, i roi cymorth i helpu pobl i mewn i denantiaethau ac i'w helpu i'w cynnal. Dylai fod cytundeb i roi diwedd ar bob achos o droi allan o dai cymdeithasol i ddiartrefedd ac i sicrhau bod polisïau ar ddyraniadau'n helpu i hybu mynediad at dai cymdeithasol ar gyfer pobl â phrofiad o ddiartrefedd neu bobl sy'n wynebu risg.

Argymhelliad 7c: Yn ogystal â chynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol i'r lefel a nodir yn Argymhelliad 7a, sicrhau bod y cyflenwad o bob math o ddeiliadaeth (h.y. rhentu cymdeithasol, y sector rhentu preifat, tai a rennir, a thai rhent canolradd) yn cael ei gynnal ar y lefel gywir, yn seiliedig ar amcanestyniadau rheolaidd o ddiartrefedd a'r angen am dai ar gyfer pobl sy'n wynebu risg o ddiartrefedd a/neu sydd ar incwm isel.

Rydym yn cytuno ag argymhelliad pwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch cynyddu'r dyraniadau cyllidebol ar gyfer y Grant Cymorth Tai ac atal digartrefedd i gyrraedd y nod o roi diwedd ar ddiartrefedd.³⁵

Argymhelliad 7d: Cynyddu'r dyraniadau cyllidebol ar gyfer y Grant Cymorth Tai ac atal digartrefedd i helpu i roi cymorth i bobl ym mhob grŵp deiliadaeth ac ariannu'r grant yn ddigonol i gyflawni deilliannau rhoi diwedd ar

³⁵ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2020) Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau – cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21, t.15. Cyrchwyd ar <https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld12990/cr-ld12990%20-w.pdf>

ddigartrefedd ar gyfer pobl ym mhob deiliadaeth tai, fel a argymhellwyd gan Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Cynulliad.³⁶

Argymhelliad 7e: Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau y rhoddir cymorth cynnal tenantiaeth i bobl ym mhob grŵp deiliadaeth a allai wynebu risg o ddigartrefedd, a gwasanaethau parodrwydd ar gyfer tenantiaeth i landlordiaid a thenantiaid. Fel rhan o hyn, gweithio i ddatblygu proses 'rhybudd cyntaf ar gyfer rhent' i helpu landlordiaid a thenantiaid i gael mynediad at gymorth cynharach yn achos unrhyw broblemau talu rhent.

Dylai Cymru amcanu at gyflawni dim achosion o droi allan i ddigartrefedd o dai cymdeithasol, llety dros dro, a'r sector rhentu preifat, a mwy o fynediad at dai cymdeithasol ar gyfer pobl sy'n wynebu risg o brofi digartrefedd, sy'n ei brofi ar hyn o bryd, neu sydd â phrofiad blaenorol ohono. Byddai'r dull hwn yn cynnwys: dull partneriaeth/cynhadledd achos o gynnal tenantiaeth neu ddod o hyd i ddewisiadau eraill, peidio â defnyddio 'diffyg ymgysylltu' fel rheswm pam fod rhywun yn dod yn ddigartref, defnyddio tai cymdeithasol lle mae angen cartref arall, dull personol ac sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol i ddod o hyd i'r datrysiad gorau, dull wedi'i ffurfioli, a chydabyddiaeth i'r dull hwn wrth gomisiynu gwasanaethau cymorth. Mae cyflawni'r dull hwn yn cynnwys, er enghraifft, gwaith pellach rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i roi cymorth iechyd meddwl i bobl i helpu i gynnal tenantiaethau.³⁷

Argymhelliad 7f: Dylai Llywodraeth Cymru, cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol sy'n dal stoc gytuno a monitro'r broses gyflawni i roi terfyn ar bob achos o droi allan i ddigartrefedd o dai cymdeithasol, a sicrhau nad yw polisïau ar ddyraniadau'n allgáu pobl sy'n profi digartrefedd neu'n wynebu risg o ddigartrefedd trwy sicrhau 'ffafiaeth resymol' i bobl yn y sefyllfa hon. Dylai partneriaid sy'n darparu gwasanaethau cymorth fod yn rhan o'r cytundeb rhwng partneriaid i roi diwedd ar achosion o droi allan o dai cymdeithasol i ddigartrefedd y gwnaethom ei argymhell yn ein hadroddiad blaenorol.³⁸

Rhwng 2007 a 2017 fe wnaeth y sector rhentu preifat yng Nghymru ddyblu mewn maint.³⁹ Er bod darparu tai cymdeithasol newydd a mwy ohonynt yn rhan bwysig o'r datrysiad, dylai llety o ansawdd da yn y sector rhentu preifat fod yn rhan o'r dewis o dai i denantiaid. Croesewir Deddf Rhentu Cartrefi 2016 a'r gwelliannau arfaethedig iddi ond ceir rhai materion heb eu datrys y mae'r Grŵp Gweithredu'n argymhell mynd i'r afael â hwy.

³⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2020) Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau – cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21, t.15. Cyrchwyd ar 3 Chwefror 2020 ar <https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld12990/cr-ld12990%20-w.pdf>

³⁷ Llywodraeth Cymru (2019) Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, Cynllun Cyflawni: 2019-22 o <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/cynllun-cyflawni-ar-gyfer-iechyd-meddwl-2019-i-2022.pdf>

³⁸ Mae hyn yr un fath â'r argymhelliad o'n hadroddiad blaenorol: Y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2019) *Atal cysgu allan yng Nghymru a'i leihau yn y byrdymor*. "Argymhelliad 9: Dylid dod i gytundeb i sicrhau dim troi allan o dai cymdeithasol (na thai sy'n cael cymorth arian cyhoeddus) i ddigartrefedd, a bod mwy o dai'n cael eu dyrannu ar gyfer aelwydydd digartref."

³⁹ Wilcox, S., Perry, J., Stephens, M a Williams, P. (2017) *UK Housing Review 2017*. Coventry: CIH.

Argymhelliad 7g: Dod â Deddf Rhentu Cartrefi 2016 (a gwelliannau arfaethedig i'r Ddeddf) i rym i estyn cyfnodau rhybudd ar gyfer contractau yn y sector rhentu preifat ond hefyd ymrwymo i ddisodli'r seiliau dros 'droi allan heb fai' â seiliau newydd sy'n gwella diogelwch i denantiaid ac yn taro cydbwysedd gwell rhwng hawliau a chyfrifoldebau tenantiaid a landlordiaid.

Argymhelliad 7h: Sicrhau bod cynlluniau mynediad at denantiaethau a chynnal tenantiaethau yn y sector rhentu preifat lleol i gefnogi landlordiaid a thenantiaid, a chefnogi defnydd o'r sector rhentu preifat i ddarparu tai ar gyfer pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd, gan gynnwys cynllun bond cenedlaethol, cynllun prydlesu sector rhentu preifat Cymru, a chynnig o hyfforddiant ymwybyddiaeth o iechyd meddwl i landlordiaid preifat trwy Rhentu Doeth Cymru.

3.2 Nawdd cymdeithasol i atal digartrefedd a threchgu tlodi

Mae gormod o bobl yng Nghymru dan bwysau cyson ac yn cael eu gorfodi i wneud penderfyniadau amhosibl ynglŷn â sut i dalu am eu tai, eu hanghenion sylfaenol, a'u biliau. Pan fo'r pwysau hyn yn mynd yn ormod, gall pobl gael eu gwthio i mewn i straen tai a thlodi a all arwain at ddigartrefedd. Mae'r rhan fwyaf o'r elfennau o bolisi lles yn cael eu pennu gan Lywodraeth y DU ac mae darparu budd-daliadau amserol a digonol, megis budd-dal tai, yn offeryn hollbwysig i leddfu'r pwysau y mae aelwydydd yn ei brofi.

Rydym yn cytuno â chadeirydd Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a ddywedodd:

“Ar hyn o bryd nid yw'r system bresennol yn gweithio i lawer gormod o bobl. Rydym yn clywed dro ar ôl tro nad yw budd-daliadau'n ddigonol i dalu costau cartref sylfaenol a hanfodol, ac nid yw'r system yn trin pobl ag urddas, tegwch na thosturi. Mae cost ddynol y methiannau hyn yn annerbyniol, yn un o economïau cenedlaethol mwyaf y byd.”⁴⁰

Argymhelliad 8a: Rhaid i Lywodraeth Cymru gyfleu'r achos i Lywodraeth y DU dros y canlynol:

- **Pennu cyfraddau Lwfans Tai Lleol ar 30fed pwynt canradd marchnadoedd lleol, i wneud yn siŵr bod taliadau'n cwrdd â chost rhentu preifat**
- **Cael gwared ar y cap budd-daliadau a'r 'dreth ystafell wely'**

⁴⁰ Y Cynulliad Cenedlaethol (2019) Dyfyniad gan Gadeirydd y Pwyllgor John Griffiths AC, a gyrchwyd ar 20 Ionawr 2020 ar <http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglssueHistoryHome.aspx?IId=23649>

- **Cael gwared ar y gyfradd gyfyngedig ar gyfer pobl dan 35 oed yn y sector rhentu preifat**
- **Mesurau i sicrhau bod Credyd Cynhwysol yn gwbl hygyrch ac yn rhoi cymorth i bobl pan fo'i angen arnynt, gan gynnwys diwedd ar y cyfnod aros o bum wythnos o'r adeg ymgeisio i'r adeg y ceir Credyd Cynhwysol.**
- **Darpariaeth cymorth digartrefedd arbenigol ym mhob Canolfan Byd Gwaith.**

3.3 Budd-daliadau lles sydd wedi'u datganoli i Gymru ar hyn o bryd

Rydym yn nodi bod adroddiad pwyllgor y Cynulliad ar fudd-daliadau yng Nghymru'n cyflwyno nifer o opsiynau ar gyfer datganoli a diwygiadau pellach i weinyddu budd-daliadau yng Nghymru.⁴¹ Nid oedd y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd yn dymuno mabwysiadu barn mewn perthynas â chwestiynau gwleidyddol ynglŷn â sut i gyflawni yn erbyn y materion hyn, a pha lywodraethau ddylai fod yn gyfrifol, ond yn hytrach mae'n tynnu sylw at botensial y system lles fel offeryn atal digartrefedd cyffredinol. Rhaid i ba bynnag lywodraeth sy'n gwneud penderfyniadau roi i bobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd – neu bobl sydd eisoes yn ei brofi – yng Nghymru y cymorth ariannol, ymarferol, iechyd a lles y mae ei angen arnynt.

Mae mwyafrif y system lles heb ei datganoli ond mae amrywiaeth o fudd-daliadau a chymorth lles wedi'u datganoli ac yn cael eu rheoli gan Lywodraeth Cymru neu awdurdodau lleol. Yn achos rhai o'r rhain, caiff yr holl benderfyniadau ynghylch pennu cyllidebau, rheolau a threfniadau gweinyddol eu gwneud gan Lywodraeth Cymru. Yn achos rhai eraill, caiff rheolau a chyllidebau ar y cyfan eu pennu gan adrannau yn Llywodraeth y DU ond caiff trefniadau gweinyddu eu penderfynu yng Nghymru.

Mae Sefydliad Bevan a Sefydliad Joseph Rowntree wrthi ar hyn o bryd yn cynnal prosiect sy'n bwrw golwg ar gynlluniau cymorth ar gyfer teuluoedd ar incwm isel yng Nghymru ('system budd-daliadau Cymru'), gan bwysu a mesur a dadansoddi'r hyn sydd ar gael mewn nifer o feysydd, gan gynnwys tai, a byddant yn gwneud argymhellion ynghylch sut y gallai'r cynlluniau hyn gael eu defnyddio'n well.⁴² Gallai'r holl fesurau hyn gryfhau polisi lles yng Nghymru a lleddfu'r pwysau a brofir gan aelwydydd sy'n gallu arwain at ddigartrefedd.

Y cynlluniau cymorth mwyaf arwyddocaol sy'n gysylltiedig â rhoi diwedd ar ddigartrefedd yw Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai a'r Gronfa Cymorth Dewisol. Mae cynlluniau eraill, yn enwedig Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, yn hollbwysig i helpu pobl i dalu biliau. Pan fo pobl yn symud ymlaen at Gredyd Cynhwysol neu'n ymgeisio amdano, mae'n rhaid iddynt wneud cais ar wahân am

⁴¹ Y Cynulliad Cenedlaethol (2019) Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau – *Budd-daliadau yng Nghymru: opsiynau i'w cyflawni'n well*. Hydref 2019

⁴² Sefydliad Bevan (2020) *The case for a Welsh Benefits System*. Ar gael ar <https://41ydv1cuyvlonsm03mpf21pub-wpengine.netdna-ssl.com/wp-content/uploads/2020/02/Case-for-Welsh-Bens-Report-2.pdf>

Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Ceir tystiolaeth bod pobl, yn lle cael cymorth, yn diweddu â dyled treth gyngor.

Mae'r modd y gweinyddir Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai yn amrywio'n sylweddol rhwng awdurdodau lleol, gan gynnwys i ba raddau y maent yn cael eu defnyddio i atal digartrefedd. Cronfa 'atodol' neu argyfwng ydynt i bob pwrpas nad yw'n gallu ymdrin ag achosion sylfaenol digartrefedd ond sy'n gallu lleddfu rhai o'r pwysau y mae pobl yn eu profi. O ystyried mai cronfa argyfwng ydyw dylid gallu cael mynediad ato'n gyflym ac yn rhwydd ond ceir tystiolaeth nad felly y mae hi bob amser. Ceir problem hefyd gyda defnyddio'r gyllideb Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai (tua £9m), lle mae nifer sylweddol o bobl yn cael Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai am bod y 'dreth ystafell wely' yn berthnasol iddynt, sy'n gadael llai ar gyfer atal argyfwng ac yn ei gwneud yn anodd i'r sector rhentu preifat fod yn opsiwn mwy fforddiadwy.⁴³

Ar y cyfan, caiff awdurdodau lleol wario 2.5 gwaith yn fwy ar Daliadau Disgresiwn at Gostau Tai nag y maent yn ei gael gan Adran Gwaith a Phensiynau'r DU.⁴⁴ Er bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru'n gwario'u cyllideb Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai, mae nifer fach wedi dyrannu llawer mwy na'u dyraniad; 135% oedd yr uchaf yn 2018-19.⁴⁵ Gallai Llywodraeth Cymru weithredu mewn modd tebyg i Lywodraeth yr Alban trwy roi cyllid atodol yn y gyllideb Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai hyd at yr uchafswm a ganiateir ac ystyried pwyso am ddatganoli'r Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai yn llawn, fel a argymhellwyd gan ymchwiliad diweddar un o bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i fudd-daliadau.⁴⁶

Argymhelliad 8b: Tra bo unrhyw newid i bolisi tai a lles yn yr arfaeth gan Lywodraeth y DU, rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'i phwerau presennol i lunio dull strategol lle mae 'system budd-daliadau Cymru' yn y cwestiwn, gan wneud y defnydd gorau o'r ystod o gronfeydd sydd ar gael i hybu amcanion polisi Llywodraeth Cymru a lleddfu pwysau ar aelwydydd ac unigolion, gan gynnwys:

- **Ychwanegu cyllid atodol at y gyllideb Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai a chysylltu cyllideb fwy â gwaith atal digartrefedd, gan gynnwys dim troi allan i ddigartrefedd.**
- **Gweithio gydag awdurdodau lleol i symleiddio a chyflymu'r broses ymgeisio ar gyfer Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai, cyflawni trefn weinyddu fwy cyson, ac archwilio sut y defnyddir Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai i gefnogi gwaith atal wedi'i dargedu, atal**

⁴³ Llywodraeth y DU (2019) Use of Discretionary Housing Payments: financial year 2018 to 2019 (diweddarwyd ddiwethaf ar 14 Awst 2019). Cyrchwyd ar 4 Chwefror 2020 ar <https://www.gov.uk/government/statistics/use-of-discretionary-housing-payments-financial-year-2018-to-2019>

⁴⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2019) Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau – Budd-daliadau yng Nghymru: opsiynau i'w cyflawni'n well. Cyrchwyd ar 3 Chwefror 2020 ar <https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld12832/cr-ld12832%20-w.pdf>

⁴⁵ Llywodraeth y DU (2019) Use of Discretionary Housing Payments: financial year 2018 to 2019 (diweddarwyd ddiwethaf ar 14 Awst 2019). Cyrchwyd ar 4 Chwefror 2020 ar <https://www.gov.uk/government/statistics/use-of-discretionary-housing-payments-financial-year-2018-to-2019>

⁴⁶ Y Cynulliad Cenedlaethol (2019) – Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau. *Budd-daliadau yng Nghymru: opsiynau i'w cyflawni'n well*. Hydref 2019

argyfwng ac atal trwy adfer, a sut y gall cais am Daliadau Disgresiwn at Gostau Tai sbarduno mathau o gymorth gan wasanaethau cyhoeddus eraill. Fel rhan o hyn, ystyried pwysu am ddatganoli Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai i Gymru yn llawn.

- **Ystyried rôl y Gronfa Cymorth Dewisol o ran atal digartrefedd, yn enwedig cynorthwyo pobl i ddod o hyd i gartref a sefydlu tenantiaethau cynaliadwy.**
- **Dod o hyd i ffyrdd o gynyddu'r nifer sy'n defnyddio Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.**

3.4 Profiadau yn gynnar mewn bywyd (plant a phobl ifanc)

Mae tlodi plant a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn ddangosyddion eithriadol o gryf ar gyfer digartrefedd yn y dyfodol. Nododd ymchwil gan Iechyd Cyhoeddus Cymru: "ACEs are stressful experiences occurring during childhood that directly harm a child (e.g. sexual or physical abuse) or affect the environment in which they live (e.g. growing up in a house with domestic violence)."⁴⁷ Canfu ymchwil bellach fod bron i un ym mhob 14 (7%) o'r boblogaeth oedolion yng Nghymru wedi dweud iddynt brofi digartrefedd. Roedd pobl a oedd yn dweud eu bod wedi cael pedwar neu fwy o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod 16 gwaith yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi profi digartrefedd. Meddai un ymatebydd yn yr adroddiad:⁴⁸

"Everyone has got so many different complex needs. I was very dismissive of, when I was growing up, you'd see someone rough sleeping, and you'd walk by and you'd think well, it's their fault. And having gone through it, and seeing what's gone on in the past with my life, it's not, you know."

Canfu'r ymchwil hefyd fod perthyn i gymuned, bod â pherthynas yn llawn ymddiriedaeth ag 'oedolyn sefydlog', ac athrawon cefnogol yn eu helpu i ymdopi. Roedd rhwystrau i gymorth yn cynnwys "pobl ddim yn gwrandao arnaf, ofni'r canlyniadau, diffyg ymddiriedaeth, [pobl eraill] ddim yn gweld y person y tu ôl i'r ymddygiad sy'n dod i sylw, a'r plentyn ddim yn cydnabod eu profiadau fel rhai niweidiol".⁴⁹

Er bod cysylltiadau rhwng y datrysiadau hyn – a'r profiadau niweidiol yn ystod plentyndod – a digartrefedd a bod yn agored i niwed mae angen dull llawer mwy torfol, cyffredinol o fynd i'r afael â hwy mewn gwasanaethau yng Nghymru. Mae polisi cyffredol yng Nghymru ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac

⁴⁷ Bellis, M. A., Ashton, K., Hughes, K., Ford, K., Bishop, J., a Paranjothy, S. (2015) *Welsh Adverse Childhood Experiences (ACE) Study: Adverse childhood experiences and their impact on health-harming behaviours in the Welsh adult population*. Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru, t.4

⁴⁸ Grey, C.N.B. a Woodfine, L. (2019) *Voices of those with lived experiences of homelessness and adversity in Wales: informing prevention and response*. Caerdydd: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, t.4

⁴⁹ Grey a Woodfine, t.5

ymrwymiadau i roi diwedd ar ddigartrefedd ieuenctid yn fan cychwyn defnyddiol ond er mwyn atal digartrefedd mae angen eu cynyddu. Ni ellir gorddatgan pwysigrwydd yr argymhellion canlynol yn yr adran hon i greu dull parhaus, hirdymor o roi diwedd ar ddigartrefedd. Ceir cynseiliau da o ran cymorth cynnal i blant, gan gynnwys pwyslais ar hybu lles mewn ysgolion yn y cwricwlwm cenedlaethol i Gymru sydd ar ddod⁵⁰ a mynediad gorfodol at wasanaethau cwnsela mewn ysgolion a nyrsys ysgol.

Nid oes ymyriadau ehangach i atal a mynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar waith mewn gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru eto ond rhaid iddynt gael eu goleuo gan dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio, cael eu trosi'n waith ymarferol i sefydlu cymorth i atal profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn y lle cyntaf a chefnogi plant a phobl ifanc ac oedolion sydd wedi'u cael.

Ni ddylai gwasanaethau digartrefedd a gwasanaethau cyhoeddus eraill 'gyfrif profiadau niweidiol yn ystod plentyndod' yn unig, gan bod hynny'n creu perygl o warthnod pellach i bobl sydd eisoes yn wynebu rhagfarn ac yn cael eu hymyleiddio gan gymdeithas. Mae Comisiynydd Plant Cymru hefyd wedi pwysleisio'r angen i osgoi labelu neu bennu trothwyon ar gyfer cymorth sy'n allgau pobl o gymorth.⁵¹ Yn lle hynny, dylai sefydliadau greu dull sy'n ystyriol o drawma drwy eu holl wasanaethau (fel a argymhellwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn), sy'n sicrhau bod pobl sydd wedi profi trawma'n cael y cymorth gorau posibl, ni waeth pa un a yw'r trawma hwn yn hysbys o'r dechrau un ai peidio.

Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru fwrw golwg o'r newydd ar dargedau tlodi plant a'u diwygio ac archwilio effaith y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ar dlodi plant, i sicrhau bod Cymru'n cymryd yr holl gamau angenrheidiol i leihau a dileu tlodi plant. Dylai hyn gynnwys adolygiad o wariant a dulliau partneriaeth presennol hefyd, yn enwedig mwy o ymwneud ag adnabod materion tai a mynd i'r afael â hwy trwy weithluoedd yn y blynyddoedd cynnar, Teuluoedd yn Gyntaf, timau o amgylch y teulu, a Dechrau'n Deg.

Argymhelliad 10: Rydym yn argymhell bod aliniad strategol rhwng y Fframwaith Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd a'r Cynllun Cyflawni ar gyfer yr Hwb Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod 2020-2021, i adnabod a chynyddu i'r eithaf unrhyw gyfleoedd i atal digartrefedd.

Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus perthnasol sefydlu hawl plentyn bod gwasanaethau'n sylwi arnynt ac yn adnabod ac ymateb yn briodol i brofiadau niweidiol, gan adeiladu ar Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, cynigion ar gyfer dinasoedd sy'n

⁵⁰ Llywodraeth Cymru ac Addysg Cymru (2019) *Y Cwricwlwm Drafft i Gymru 2022 (Ebrill 2019): Iechyd a Lles*

⁵¹ Comisiynydd Plant Cymru (2018) Papur safbwynt polisi ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Cyrchwyd ar 27 Ionawr 2020 ar <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2018/10/Papur-Safbwynt-ACEs-CPC.pdf>

ystyriol o blant, a'r ffocws ar gefnogi'r 1,000 o ddiwrnodau cyntaf ym mywyd plentyn.

3.5 Cyfathrebu am ddiartrefedd a thlodi i gefnogi newid

Fe wnaeth ein hadroddiad blaenorol ystyried tystiolaeth o arolygon yng ngaeaf 2018 a oedd yn awgrymu nad oedd mwyafrif yr oedolion ledled Cymru (59%) a Phrydain gyfan yn gwybod beth i'w wneud pan ydynt yn gweld rhywun sy'n ddiartref.⁵² Daw'r diffyg eglurder hwn o negeseuon cymysg ynglŷn â diartrefedd gan y cyfryngau, llywodraethau, elusennau, busnesau a chymdeithas ehangach.⁵³ Mae ymchwil yn canfod nad yw'r trafodaethau cyfredol yn helpu i roi diwedd ar ddiartrefedd a bod angen iddynt newid i gynnwys.⁵⁴

- Ystod ehangach o storïau am brofiadau o ddiartrefedd, sy'n cwmpasu'r ystod lawn o fathau o 'ddiartrefedd craidd' ac nid dim ond mathau mwy gweladwy, megis cysgu allan.
- Iaith fwy cynhwysol i roi anogaeth ar gyfer ymateb tosturiol a seiliedig-ar-dystiolaeth i ddiartrefedd. Mae'r defnydd cyfredol o iaith yn creu pellter ac yn arwain at feddwl am bobl sy'n profi diartrefedd fel pobl wahanol (e.e. 'y diartref'), sy'n gysylltiedig ag ymatebion cul allan o dosturi neu elyniaeth tuag at unigolion sy'n ychwanegu at y gwarthnod, yr arwahanrwydd a'r cywilydd y mae pobl yn eu profi.
- Mwy o drafodaeth am y newidiadau systemig y mae eu hangen i roi diwedd ar ddiartrefedd a symud i ffwrdd oddi wrth ffocws rhy gryf ar brofiadau unigolion. Gall hyn arwain at ddatrysiadau sy'n seiliedig ar ymddygiad unigol yn hytrach na mynd i'r afael â sbardunau diartrefedd.
- Mwy o storïau am yr hyn a weithiodd i roi diwedd ar ddiartrefedd, gan ddangos y gellir rhoi diwedd ar ddiartrefedd a rhoi anogaeth ar gyfer trafodaeth ynglŷn â diartrefedd sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau.

Ceir enghreifftiau o arfer da, serch hynny. Mae'r ymgyrch 'diartrefedd cudd' diweddar gan Lywodraeth Cymru a Shelter Cymru yn enghraifft dda o stori ehangach am ddiartrefedd sy'n defnyddio'r diffiniad o 'ddiartrefedd craidd' gyda galwad i weithredu bod pobl yn gofyn am help. Fe wnaeth Cwpan y Byd Diartref 2019 yng Nghaerdydd gynnig ystod o opsiynau ar gyfer cynulleidfaoedd penodol o ran sut y gallant helpu i roi diwedd ar ddiartrefedd, yn seiliedig ar yr ymchwil i gyfathrebu, a dylid parhau â'r dull hwn fel prosiect etifeddol sy'n deillio o'r digwyddiad.

⁵² YouGov Plc (2018) 2,031 o oedolion oedd cyfanswm maint y sampl. Fe wnaed y gwaith maes rhwng 14 a 15 Tachwedd 2018. Cwblhawyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigyrau wedi cael eu pwysoli ac maent yn cynrychioli'r holl oedolion ym Mhrydain (18+ oed). Cwestiwn: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â phob un o'r gosodiadau canlynol? Datganiad: "Dydw i ddim fel arfer yn gwybod beth ddylwn i ei wneud i helpu pan fydda i'n gweld rhywun sy'n ddiartref"

⁵³ O'Neil, M., Gerstein Pineau, M., Kendall-Taylor, N., Volmert, D., Stevens, A. (2017) *Finding a Better Frame: How to Create More Effective Messages on Homelessness in the United Kingdom*. FrameWorks Institute.

⁵⁴ Nichols, J., Volmert, A., Busso, D., Gerstein Pineau, M., O'Neil, M. a Kendall-Taylor, N. (2018) *Reframing Homelessness in the United Kingdom: A FrameWorks MessageMemo*. Sefydliad FrameWorks.

Enghraifft arall, o faes polisi arall, yw'r ymgyrch Amser i Newid Cymru, sy'n amcanu at leihau'r gwarthnod a gwahaniaethu a brofir gan bobl â phroblemau iechyd meddwl.⁵⁵ Roedd yr ymgyrch, a ariannwyd yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru, Y Gronfa Loteri Fawr a Comic Relief, yn defnyddio nifer o ddulliau i newid agweddau, gan gynnwys ymgyrchoedd marchnata cymdeithasol a gyrhaeddodd niferoedd mawr o bobl, cymorth i fusnesau drechu gwarthnod yn eu sefydliadau a chymunedau lleol, a hyfforddiant i bobl â phrofiad personol ddod yn hyrwyddwyr a rhoi sgysiau atal gwarthnod ledled Cymru.

Argymhelliad 12a: Dylai gwasanaethau cyhoeddus arwain y ffordd o ran ailfframio cyfathrebu am ddigartrefedd, gan dynnu ar dystiolaeth o fframio digartrefedd, fframio tlodi⁵⁶ ac o wersi am Gwpan y Byd Digartref 2019.

Argymhelliad 12b: Dylai Llywodraeth Cymru ariannu a rhoi cefnogaeth weithredol i ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus am ddigartrefedd i gynyddu dealltwriaeth a lleihau gwarthnod ynglŷn â digartrefedd yng Nghymru, gan ddysgu o'r ymgyrch Amser i Newid Cymru a Chwpan y Byd Digartref. Dylai'r dulliau hyn gael eu hadolygu'n gyflym a dylai mewnwediadau ohonynt gael eu mabwysiadu ar gyfer cyfathrebu ehangach a pharhaus ynglŷn â chanfyddiadau'r cyhoedd, a dylid eu teilwra â galwadau i weithredu ar gyfer cynulleidfaoedd penodol (megis y cyhoedd, busnesau, elusennau, gwasanaethau cyhoeddus, arweinwyr gwleidyddol a'r llywodraeth).

⁵⁵ I gael rhagor o wybodaeth: <https://www.timetochangewales.org.uk/en/about/>

⁵⁶ Sefydliad Joseph Rowntree (2019) Framing toolkit: Talking about poverty. Cyrchwyd ar 20 Ionawr 2020 ar <https://www.jrf.org.uk/report/framing-toolkit-talking-about-poverty>

4.0 Gwneud digartrefedd yn brin trwy Atal wedi'i Dargedu (Atal Eilaidd)

Mae atal digartrefedd mewn modd wedi'i dargedu'n golygu atal digartrefedd ar adeg gynharach na'r adeg risg statudol (h.y. 56 diwrnod cyn y gallai rhywun golli ei gartref) a chyda ffocws penodol ar helpu pobl y profwyd eu bod yn wynebu mwy o risg. Mae'r gwaith i sefydlu'r dyletswyddau statudol yn Neddf Tai 2014 ar awdurdodau lleol wedi bod yn llwyddiant. Fodd bynnag, mae niferoedd yr aelwydydd sydd dan fygythiad o ddigartrefedd yn y lle cyntaf yn cynyddu ac felly rhaid i Gymru gynyddu ei hymdrechion i wneud digartrefedd yn fwy prin cyn bod pobl hyd yn oed yn cyrraedd y pwynt lle mae arnynt angen help statudol gan eu hawdurdod lleol.⁵⁷

4.1 Sefydliad gwasanaethau cyhoeddus a threfniadau ar gyfer atal digartrefedd

Un o'r nodweddion allweddol ar waith i atal digartrefedd ar adeg gynharach yw bod gwasanaethau cyhoeddus ehangach yn aml yn dod i gysylltiad â phobl sy'n wynebu risg *cyn* gwasanaethau ym maes tai a digartrefedd.⁵⁸ Mae hyn yn cynnig y cyfle i atal digartrefedd ar adeg gynharach o lawer, cyn bod pobl yn profi niwed sylweddol neu argyfwng. Gall cost mynd i'r afael ag argyfyngau fod yn sylweddol. Canfu un amcangyfrif, er enghraifft, fod cost rhywun yn cysgu allan am 12 mis yn fwy nag £20,000 ond mai tua £1,400 oedd cost ymyriad llwyddiannus.⁵⁹

I greu'r dull y mae ei angen i wneud hyn, mae angen i Gymru sefydlu:

- Newid diwylliannol ac ymarferol tuag at ymdeimlad cryfach o berchnogaeth ar draws gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer ailgartrefu pobl a digartrefedd, gan wneud y syniad bod 'digartrefedd yn fater ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ac nid dim ond yn fater sy'n ymwneud â thai' yn realiti.⁶⁰
- Defnyddio tystiolaeth i dargedu atal ar adeg gynharach o lawer ar gyfer y bobl sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddigartrefedd, gan ddefnyddio arweinyddiaeth, pennu deilliannau, a data defnyddiol fel y man cychwyn; gan arwain wedyn at weithredu seiliedig-ar-dystiolaeth ar draws gwasanaethau i atal digartrefedd ac ymateb yn gyflym iddo; a phartneriaethau rhanbarthol a lleol i gyflawni hyn.
- Deilliannau y cytunwyd arnynt i gyflawni'r fframwaith rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn yr adroddiad hwn (atal ar bob cam; ac ailgartrefu'n gyflym).

⁵⁷ Llywodraeth Cymru (2019) *Digartrefedd yng Nghymru, 2018-19*. Cyrchwyd ar 15 Ionawr 2020 o <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/homelessness-april-2018-march-2019-993.pdf>

⁵⁸ Fitzpatrick, S., Bramley, G. a Johnsen, S. (2013) 'Pathways into multiple exclusion homelessness in seven UK cities', *Urban Studies*, 50(1): 148-168

⁵⁹ Pleace, N. (2015) *At what cost? An estimation of the financial cost of single homelessness in the UK*. Llundain: Crisis

⁶⁰ Y cam nesaf yn gwaith y Grŵp Gweithredu ar ôl yr adroddiad hwn fydd ateb y ddau gwestiwn sy'n weddill, sy'n berthnasol iawn i'r mater hwn: Sut allwn ni sicrhau bod y broses o ailgartrefu pobl yn gyflym ac yn barhaol wrth wraidd y gwaith i atal digartrefedd, ei drechu a rhoi diwedd arno? A sut allwn ni sicrhau bod partneriaethau a chynlluniau cydgysylltiedig lleol yn cael eu rhoi ar waith er mwyn atal digartrefedd, ei drechu a rhoi diwedd arno ledled Cymru?

Rhan allweddol o gyflawni'r dull hwn yw gwneud yn siŵr bod y deilliannau rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn gallu cael eu cyflawni mewn ardaloedd penodol, a hynny'n cael ei ategu gan gynllunio, comisiynu a chyllidebu ar draws gwasanaethau iechyd, gwasanaethau tai (gan gynnwys y cyflenwad o dai cymdeithasol), gwasanaethau gofal cymdeithasol, gwasanaethau addysg ac ieuentid, gwasanaethau digartrefedd a chyflogaeth/cyflogadwyedd.

Er bod y Grŵp Gweithredu'n gwneud argymhelliad cyffredinol yn yr adroddiad hwn, byddwn yn darparu rhagor o fanylion fel rhan o'n gwaith ar gynyddu ailgartrefu'n gyflym a gwneud yn siŵr bod partneriaethau lleol/rhanbarthol yn gallu gweithio i roi diwedd ar ddigartrefedd. Mae'r Canllawiau ar y Grant Cymorth Tai i awdurdodau lleol ar atal digartrefedd yn darparu man cychwyn cryf ar gyfer cynllunio a strategaeth, ac ar gyfer gweithio'n rhanbarthol.⁶¹

Argymhelliad 13: Dylai Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid arwain newid mewn gwasanaethau cyhoeddus i sicrhau bod digartrefedd yn cael ei atal cyn troi'n argyfwng (h.y. cyn y diffiniad statudol cyfredol o 56 diwrnod). Dylai'r dull hwn gynnwys:

- Y fframwaith deilliannau rhoi diwedd ar ddigartrefedd gyda'r data y mae ei angen i fonitro a gwerthuso cynnydd, gydag atebolrwydd a rheoleiddio posibl.
- Cymorth strategol i'r gweithlu gyflawni yn erbyn y fframwaith deilliannau mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma.
- Gwneud yn siŵr bod prosesau llunio strategaethau, cynllunio a chomisiynu/cyllidebu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn gallu cyflawni yn erbyn y fframwaith deilliannau i sicrhau bod digartrefedd yn brin, yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto ac i sicrhau'r cyflenwad o dai a'r cymorth tai y mae eu hangen i gyflawni hyn.
- Arweinyddiaeth gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys aelodau Cabinet ac arweinwyr perthnasol o awdurdodau lleol, byrddau iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill.
- Ffocws ar dystiolaeth.
- Partneriaethau rhanbarthol a lleol.

4.2 Adnabod yn gynnar a thargedu gwaith atal digartrefedd

Dylai atal digartrefedd ar adeg gynharach gynnwys grwpiau o bobl y profwyd eu bod yn wynebu mwy o risg hefyd, megis pobl ifanc agored i niwed a phobl sydd ar fin mynd trwy gyfnodau pontio sy'n achosi risg, megis gadael gofal awdurdod lleol, y carchar neu driniaeth iechyd meddwl fel claf mewnol.⁶²

⁶¹ Llywodraeth Cymru (2020) *Canllawiau ar y Grant Cymorth Tai – Canllawiau Ymarfer i Awdurdodau Lleol*. Cyrchwyd ar 11 Chwefror 2020 ar https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/grant-cymorth-tai-canllawiau-ymarfer_0.pdf

⁶² Fitzpatrick, S., Mackie, P., a Wood, J. (2019) *Homelessness Prevention in the UK – Policy Briefing*, t.3

Yn adroddiad diwethaf y Grŵp Gweithredu ar atal cysgu allan, fe wnaethom argymhell dull 'dim drws anghywir' ar gyfer pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd, sy'n golygu y dylai pobl gael eu helpu i osgoi neu ddatrys digartrefedd ni waeth ble y daethant i sylw gyntaf fel pobl ac arnynt angen cymorth. Mae hon yn egwyddor bwysig ar gyfer helpu grwpiau o bobl sy'n wynebu risg, fel bod gwasanaethau cyhoeddus yn gallu ymateb cyn gynted ag y byddant yn adnabod risg.

Yn ogystal â dulliau generig o fynd i'r afael â hyn, bydd angen addasiadau penodol iawn i'r dull ar gyfer grwpiau o bobl ac ar gyfer unigolion i ddiwallu eu hanghenion. Byddai hyn yn cynnwys hyblygrwydd o fewn y llwybrau y cytunwyd arnynt ar gyfer cymorth. Rydym wedi cynnig grid yn Atodiad 4 i fapio grwpiau o bobl sy'n wynebu risg, gwahanol fathau o ymyriadau, ac enghreifftiau penodol o ymyriadau ar gyfer grwpiau o bobl sy'n wynebu risg.

Argymhelliad 14a: Dylai Llywodraeth Cymru, partneriaid darparu a gwasanaethau cyhoeddus gytuno a gweithredu llwybrau atal clir ac ailgartrefu'n gyflym o gymorth wedi'i deilwra ar gyfer pobl yn y grwpiau risg canlynol:

- **Pobl sy'n gadael y carchar/sefydliad diogel, neu sydd mewn cysylltiad â thîm troseddwr ifanc**, yn enwedig ar adeg rhyddhau.⁶³
- **Pobl ifanc sy'n profi digartrefedd.** Mae digartrefedd ieuencid yn broblem ar wahân ac yn galw am ddatrysiadau ar wahân, o ystyried bod pobl ifanc yn mynd trwy gyfres allweddol o brosesau pontio i wasanaethau oedolion sy'n gallu bod yn adegau lle ceir risg uchel o ymddieithrio a digartrefedd. Mae cyfleoedd i weithio ar adeg gynharach i atal digartrefedd, gan gynnwys galluogi pobl i aros yng nghartref y teulu gyda chymorth cyfryngu teuluol pan fo hynny'n ddiogel ac yn briodol i'r person ifanc.⁶⁴ Canfu ymgynghoriad y Grŵp Gweithredu â phobl sydd â phrofiad personol o fod yn ddigartref fod pobl ifanc a phobl ifanc â phrofiad o ofal yn awyddus i weld mwy o gymorth i helpu pobl i fod yn 'barod am rent', e.e. dysgu sut i gyllidebu a rheoli cyllid, sgiliau byw'n annibynnol (fel golchi a choginio), a sut i ddelio â chostau tai ac argaeledd. Gallai'r cymorth hwn fod ar ffurf addysgu sgiliau bywyd mewn ysgolion a cholegau.
- **Pobl ifanc a fu mewn gofal** sy'n eithriadol o agored i'r risg o ddigartrefedd. Amcangyfrifir bod traean o'r bobl ifanc sy'n gadael gofal yn dod yn ddigartref o

⁶³ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2010) *Compendium of reoffending statistics and analysis*.
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/199224/compendium-of-reoffendingstatistics-and-analysis.pdf

⁶⁴ Feantsa (2019)

https://www.feantsa.org/public/user/Activities/events/2019/2019_policy_conference/stream_2/Youth_Homelessness/Youth_Homelessness_Workshop_V3_AC.pptx

fewn dwy flynedd; a bod un ym mhob pedwar o bobl sy'n sengl ac yn ddigartref wedi bod mewn gofal ar ryw adeg yn eu bywydau.⁶⁵

- **Pobl â phroblemau iechyd corfforol neu iechyd meddwl neu anableddau dysgu.**⁶⁶
- **Plant a phobl ifanc mewn ysgolion a lleoliadau addysg.** Ceir tystiolaeth bod plant a phobl ifanc yn gallu cael eu hasesu ar gyfer bod yn agored i niwed a chael cynnig cymorth.⁶⁷
- **Pobl â phroblemau cyffuriau a/neu alcohol,** fel un o'r ffactorau uniongyrchol sy'n arwain at golli cartref ond mewn nifer o achosion mae'r problemau hyn yn codi pan fo rhywun yn ceisio ymdopi â thrawma dod yn ddigartref.⁶⁸
- **Pobl sy'n profi trais (yn erbyn menywod a phobl eraill), cam-drin domestig, a thrais rhywiol – a goroeswyr y profiadau hyn.**⁶⁹ Mae hyn hefyd yn cynnwys helpu pobl sy'n agored i niwed o ganlyniad i gamfanteisio, e.e. pobl sy'n agored i niwed o ganlyniad i droseddau 'rhyw i dalu rhent/talu am atgyweiriadau i'r tŷ' a gyflawnir yn eu herbyn. Mae angen gwneud yn siŵr bod pobl yn y sefyllfaoedd hyn yn cael eu cefnogi, gan gynnwys gyda thai/ailgartrefu a llety brys i alluogi pobl i adael perthnasoedd treisgar neu gamdriniol. Mae hyn yn cynnwys ymateb effeithiol i argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.⁷⁰
- **Pobl LGBTQ+,** a orgynrychiolir ym mhoblogaeth ehangach pobl sy'n ddigartref. Yn sgîl realiti bod yn LGBTQ+ mewn cymdeithas gall pobl wynebu mwy o risg o gael eu cam-drin a gallant brofi sefyllfa lle mae'r teulu'n chwalu.⁷¹
- **Ffoaduriaid, ceiswyr lloches a phobl nad ydynt yn gallu cael arian cyhoeddus,** y mae pwysau a rheolau ychwanegol yn ei gwneud yn anos neu'n amhosibl iddynt gael mynediad at gymorth ar gyfer tai, cyfleoedd gwaith, a chymorth ar ffurf budd-daliadau.⁷²

⁶⁵ Y Grŵp Seneddol Trawsbleidiol ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd (2017) *Homelessness prevention for care leavers, prison leavers and survivors of domestic violence*. Cyrchwyd o: https://www.crisis.org.uk/media/237534/appg_for_ending_homelessness_report_2017_pdf

⁶⁶ Cymorth Cymru (2017) *Health Matters*. Cyrchwyd ar 15 Ionawr 2020 o

https://www.cymorthcymru.org.uk/files/1515/0108/8821/Cymorth_Cymru_Health_Matters_report.pdf

⁶⁷ Mackenzie, D., a Thielking, M. (2013) *The Geelong Project: A community of schools and youth services model for early intervention*. Melbourne: Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol Swinburne, Prifysgol Swinburne.

⁶⁸ Cymorth Cymru (2017) *Health Matters*

⁶⁹ Mackie, P. a Thomas, I. (2014) *Nations Apart? Experiences of single homeless people across Great Britain*, Llundain: Crisis. https://www.crisis.org.uk/media/20608/crisis_nations_apart_2014.pdf

⁷⁰ Swyddfa Archwilio Cymru (2019) Cynnydd o ran rhoi'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith. Cyrchwyd 13 Chwefror 2020 ar https://www.audit.wales/cy/system/files/publications/VAWDASV_cym.pdf

⁷¹ End Youth Homelessness Cymru (2019) *Out on the Streets - LGBTQ+ Youth Homelessness in Wales: Full Report*. Awst 2019.

⁷² Boobis, S., Jacob, R., a Sanders, B. (2019) *A Home for All: Understanding Migrant Homelessness in Great Britain*. Llundain: Crisis

- **Pobl sy'n dod i sylw trwy fynd i Ganolfan Byd Gwaith i gael cyngor a chymorth.**⁷³
- **Pobl sy'n profi anawsterau gyda'u rhent/tenantiaeth**, a oedd yn ffactorau blaenllaw a oedd yn achosi i bobl wynebu bygythiad o ddigartrefedd yn ôl ffigyrau Llywodraeth Cymru. Yn 2018-19, roedd 32 y cant o bobl yn wynebu bygythiad o ddigartrefedd o ganlyniad i golli llety ar rent; a 15 y cant oherwydd ôl-ddyledion rhent mewn llety rhent cymdeithasol neu breifat.⁷⁴
- **Pobl sy'n profi methiant perthynas neu anawsterau gyda pherthynas, neu brofedigaeth.** Ar gyfer pobl a oedd yn wynebu bygythiad o ddigartrefedd neu'n profi digartrefedd yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf, roedd diffyg parodrwydd ffrind/perthynas/rhiant i'w lletya a methiant perthynas yn rhoi cyfrif am un ym mhob tri o bobl a geisiodd help ar adeg argyfwng gan yr awdurdod lleol.⁷⁵
- **Pobl sy'n gadael y lluoedd arfog**, er y bu llwyddiant sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf o ran cynorthwyo mwy o bobl i gael eu cartrefu.⁷⁶

Mae rhai o'r ymyriadau y mae eu hangen eisoes yn bodoli'n genedlaethol ac mae rhai'n bodoli'n rhannol, naill ai mewn ardaloedd penodol yng Nghymru neu ar gyfer rhai grwpiau sy'n wynebu risg. Er y bydd angen i'r cymysgedd o ymyriadau a graddfa ymyriadau adlewyrchu angen lleol a rhanbarthol dylai gwasanaethau cyhoeddus ystyried pa ymyriadau sy'n bodoli ar gyfer pob un o'r grwpiau a restrir uchod a pha un a oes angen llenwi bylchau mewn ymyriadau ar gyfer grwpiau penodol.

Er nad yw'n gynhwysfawr, nac yn rhestr 'blwch ticio', dyma enghreifftiau o ymyriadau nodweddiadol y gall fod eu hangen ar gyfer pob grŵp o bobl sy'n wynebu risg:

- **Gwybodaeth a chyngor hygyrch:** Gallai hyn gynnwys sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn fformat mwy hygyrch neu mewn lleoliadau penodol, megis carchardai, wardiau iechyd meddwl, canolfannau ieuencid neu drwy linellau ffôn fel Byw Heb Ofn neu CALL (y Llinell Wrando a Chymorth Cymunedol). Dylid gwneud darpariaeth gan gyfeirio at waith y Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol yng Nghymru a'r cynllun gweithredu presennol ar wybodaeth a chyngor.⁷⁷
- **Eiriolaeth a chymorth gan gymheiriad:** Rhai o'r grwpiau sy'n wynebu risg arbennig o ddigartrefedd yw'r rhai sy'n cael eu hymyleiddio fwyaf hefyd ac maent

⁷³ Downie, M., Gousy, H., Basran, J., Jacob, R., Rowe, S., Hancock, C., Albanese, F., Pritchard, R., Nightingale, K. a Davies, T. (2018) *Everybody In: How to end homelessness in Great Britain*. Llundain: Crisis, p.267

⁷⁴ StatsCymru (2019) Aelwydydd y canfuwyd eu bod dan fygythiad o ddigartrefedd yn ystod y flwyddyn. Prif reswm dros fod dan fygythiad o ddigartrefedd yn ôl y math o aelwyd (Adran 66). Ffigyrau 2018-19, a ddiweddarwyd ar 25 Gorffennaf 2019 ac a gyrchwyd ar 20 Ionawr 2020.

⁷⁵ Llywodraeth Cymru (2019) *Digartrefedd yng Nghymru, 2018-19*. Cyrchwyd ar 15 Ionawr 2020 o <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/homelessness-april-2018-march-2019-993.pdf>

⁷⁶ Mackie a Thomas, *Nations apart?*

⁷⁷ Llywodraeth Cymru (2016) *Cynllun Gweithredu Gwybodaeth a Chyngor*. Cyrchwyd ar 11 Chwefror 2020 yn <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-11/information-and-advice-action-plan.pdf>

yn debygol o gael budd o wasanaethau eirioli neu gymorth gan gymheiriaid i helpu i gael y cymorth y mae ei angen arnynt.

- **Datrysiadau tai priodol:** Gallai hyn olygu darparu datrysiadau tai gwahanol neu arloesol i ddiwallu'r angen cyffredinol am dai sefydlog a diogel ond ar gyfer grwpiau penodol, megis pobl ifanc, neu fodolau megis Tai yn Gyntaf ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl a defnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd.
- **Mynediad cyflym ac amserol i gymorth iechyd meddwl.** Fe wnaeth bobl a oedd yn gweithio ym maes tai a digartrefedd a phobl sydd â phrofiad o ddigartrefedd sôn fod hyn yn flaenoriaeth er mwyn gwella'r sefyllfa. Gallai hyn gynnwys mynediad amserol at gymorth iechyd meddwl i bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, cymorth iechyd meddwl dynodedig mewn llety â chymorth, ymrwymiad strategol i hwyluso mynediad ar unwaith i wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl â phroblemau sy'n cyd-ddigwydd mewn cynlluniau Tai yn Gyntaf, gan gynnwys arbenigwyr iechyd meddwl o fewn timau allgymorth grymusol, sy'n rhoi cymorth iechyd meddwl sy'n ystyried trawma i bobl sy'n ffoi rhag trais a chamdriniaeth, neu sy'n darparu cymorth iechyd meddwl penodol i bobl sy'n gadael gofal, carchar neu'r lluoedd arfog.
- **Cytleoli:** Gallai hyn olygu staff tai ar wardiau iechyd meddwl neu mewn carchardai, neu weithwyr iechyd meddwl proffesiynol mewn adrannau tai, yn sicrhau bod pobl yn cael cyngor a chymorth cyfannol sy'n atal digartrefedd.
- **Ymyriadau ar adegau tyngedfennol:** Model rheoli achosion â therfyn amser ar gyfer grwpiau y nodwyd eu bod yn wynebu risg penodol o ddigartrefedd, megis pobl sy'n mynd trwy broses bontio i adael sefydliadau cyhoeddus, e.e. carchar neu ysbyty.⁷⁸
- **Rhannu gwybodaeth a data:** Mae llawer o'r grwpiau sy'n wynebu risg arbennig o ddigartrefedd mewn cysylltiad â gwasanaethau cyhoeddus y tu allan i dai, a byddent yn cael budd o drefniadau rhannu gwybodaeth effeithiol rhwng asiantaethau, a allai ddarparu dull cyfannol, mwy cydgysylltiedig ac atal digartrefedd.
- **Fframweithiau polisi a chyfreithiol:** Sicrhau eglurder o ran sut y mae cyrff cyhoeddus yn dehongli ac yn defnyddio fframweithiau polisi a chyfreithiol ar gyfer grwpiau sy'n wynebu risg arbennig o ddigartrefedd, megis Adran 60 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (dyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy i gael mynediad at gymorth). Mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn diwygio'r cod canllaw ar ddigartrefedd, sy'n gyfle i sicrhau eglurder cenedlaethol ar gyfer ardaloedd lleol a rhanbarthau, a dylai ystyried newidiadau pellach i fframweithiau polisi a chyfreithiol mewn ymateb i'r adroddiad hwn.
- **Llwybrau a phrotocolau:** Mae nifer o lwybrau eisoes yn bodoli, megis y llwybrau ar gyfer rhai sy'n gadael carchar a'r llwybrau ar gyfer pobl ifanc. Fodd bynnag, rhaid iddynt gael eu rhoi ar waith ar raddfa fawr ledled Cymru ac fe allai fod angen am lwybrau neu brotocolau ychwanegol (neu ddiwygiadau i rai presennol) i sicrhau eu bod yn atal pobl rhag bod yn ddigartref gymaint ag a ellir ac yn ailgartrefu pobl yn gyflym.

⁷⁸ I gael rhagor o wybodaeth gweler: <https://www.criticaltime.org/wp-content/uploads/2009/04/cti-handout4.pdf> Bydd ymyriadau ar adeg dyngedfennol yn cael sylw mwy manwl yng ngwaith y Grŵp Gweithredu yn y dyfodol ar ailgartrefu'n gyflym.

- **Hyfforddiant a sgiliau staff:** Gallai hyn gynnwys hyfforddiant digartrefedd arbenigol ar gyfer staff sy'n gweithio mewn ysbytai, carchardai neu wasanaethau eraill lle mae pobl yn wynebu mwy o risg o ddigartrefedd. I'r gwrthwyneb, gallai gynnwys hyfforddiant arbenigol ar gyfer staff tai a digartrefedd mewn meysydd megis adnabod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac ymateb iddo; iechyd meddwl; anabledau dysgu a.y.b. Gallai hefyd gynnwys cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o nodweddion a phrofiadau grwpiau o bobl i leihau gwahaniaethu yn eu herbyn.
- **Systemau ar gyfer adnabod yn gynnar:** Systemau ar waith i adnabod pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd yn llawer cynharach, sy'n arwain at atgyfeiriadau gan arwain at gymorth sy'n atal digartrefedd, megis systemau sgrinio mewn ysgolion, sgrinio yn y ddalfa, lleoliadau iechyd, canolfannau gwaith, neu brotocolau i landlordiaid preifat dynnu sylw at bobl sy'n wynebu risg.
- **Technoleg a dadansoddeg ragfynegol:** Ystyried sut y gellir defnyddio technoleg a data'n fwy effeithiol i fodelu'r risg gymharol o ddigartrefedd, deall yr hyn sy'n gweithio ar lefel gyffredinol, a hefyd o bosibl helpu i amlygu unigolion sy'n wynebu risg a sicrhau eu bod yn cael cynnig cyngor a chymorth i helpu i atal digartrefedd. Gall Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, sefydliadau academiaidd, a Swyddfa Ystadegau Gwladol y DU i symud y gwaith hwn yn ei flaen.

Mae Atodiad 4 yn dangos y grwpiau sy'n wynebu risg ac ymyriadau posibl ar ffurf grid, fel y gall gwasanaethau cyhoeddus asesu pa ymyriadau sy'n bodoli ar gyfer pa grwpiau yn ardal ranbarthol eu hawdurdod lleol - a nodi'r bylchau y mae angen eu llenwi er mwyn sicrhau bod pob grŵp sydd â risg arbennig o ddigartrefedd yn gweld hyn yn cael ei wireddu.

Argymhelliad 14b: Dylai gwasanaethau cyhoeddus ddangos eu bod yn darparu'r cymysgedd priodol o ymyriadau i sicrhau bod pobl yn cael eu hatal rhag bod yn ddigartref gymaint ag a ellir ac yn cael eu hailgartrefu'n gyflym.

4.3 Cartrefu pobl ar ôl eu rhyddhau

Yn adroddiad diwethaf y Grŵp Gweithredu ar atal cysgu allan fe wnaethom gydnabod y nifer uwch o achosion o ddigartrefedd ymhlith pobl sydd wedi cael eu rhyddhau o wasanaeth neu sefydliad cyhoeddus; a hefyd y nifer o bobl a gafodd eu troi allan i ddigartrefedd.⁷⁹

Ceir newidiadau penodol y dylai Cymru eu gwneud i sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei ryddhau o unrhyw wasanaeth cyhoeddus i ddigartrefedd, gyda dyletswyddau atgyfeirio a chydweithredu i leihau'r risg o ddigartrefedd ar ôl rhyddhau o'r gwasanaeth a chymorth yn cael ei roi i gynnal sefydlogrwydd tai.

Y datrysiad ar y cyfan yw llwybrau ataliol y darperir adnoddau priodol ar eu cyfer, a weithredir yn effeithiol ac a adolygir yn rheolaidd ar gyfer pawb sy'n cael gofal neu'n

⁷⁹ Y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2019) *Atal cysgu allan yng Nghymru a'i leihau yn y byrdymor*.

cael eu goruchwylio gan y wladwriaeth (e.e. y lluoedd arfog, carchar, iechyd, iechyd meddwl, y system ofal, system lloches a.y.b.). Dylai'r holl lwybrau presennol gael eu hadolygu a dylid tynnu unrhyw wersi o lwybrau mewn mannau eraill. Dylai Ymyriadau ar Adeg Dyngedfennol fod yn elfen allweddol o gomisiynu ac ariannu gwasanaethau cyhoeddus i sicrhau bod risg o ddigartrefedd yn cael ei lleihau cyn ac ar ôl ryddhau.

Argymhelliad 15a: Sicrhau bod gan bawb sy'n cael ei ryddhau o sefydliad cyhoeddus ddatrysiad tai cynaliadwy, a gweithredu llwybrau atal ac ailgartrefu'n gyflym (mireinio llwybrau presennol os oes angen) y cytunwyd arnynt i ddiwallu anghenion tai pobl cyn, yn ystod ac ar ôl iddynt adael y GIG, y system ofal, neu sefydliad diogel. Dylai hyn fod yn un o'r deilliannau yn y fframwaith deilliannau rhoi diwedd ar ddigartrefedd.

Argymhelliad 15b: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried dyletswyddau cyfreithiol pellach ar gyfer atal, atgyfeirio a/neu gydweithredu ar gyrff cyhoeddus os oes angen i gyrraedd y nod, sef dim achosion o ryddhau i ddigartrefedd.

5.0 Gwneud digartrefedd yn brin trwy Atal Argyfwng (Atal Trydyddol a Gwario Acíwt)

Mae Cymru wedi cymryd “camau sylweddol ymlaen” o ran atal digartrefedd mewn argyfwng trwy Ddeddf Tai (Cymru) 2014.⁸⁰ Mae dyletswyddau'r Ddeddf ar gynghorau lleol i atal, lleddfu ac (i rai pobl) mynd ati'n uniongyrchol i sicrhau llety wedi helpu bron i 24,000 o aelwydydd i osgoi dod yn ddigartref ers 2015. Mae cyfraddau llwyddiant wedi cyrraedd lefel sefydlog o fwy na 66 y cant o aelwydydd y mae digartrefedd yn cael ei atal ar eu cyfer a 40 y cant o aelwydydd y mae digartrefedd wedi cael ei lleddfu ar ôl iddynt ei brofi.⁸¹

Roedd ein hadroddiad diwethaf yn canolbwyntio ar gysgu allan, sy'n adeg benodol pan fo atal argyfwng a gwario aciwt ar wasanaethau'n digwydd.⁸² Mae'r Grŵp Gweithredu'n cytuno â Llywodraeth Cymru mai'r rhan hon o'r system ddylai fod y “llinell amddiffyn olaf”⁸³ ond mae'r fframwaith y mae'r adroddiad hwn yn ei nodi'n galw am fwy o atal ar lefelau cyffredinol ac wedi'u targedu, a newid tuag at ailgartrefu'n gyflym ar gyfer y rhai sydd eisoes yn profi digartrefedd. Bydd atal yn gynharach yn lleihau'r angen am atal argyfwng ac yn lleihau effaith digartrefedd ar unigolion a chymdeithas.

Er gwaethaf y llwyddiant o ran atal a lleddfu, fe wnaeth nifer yr aelwydydd a oedd dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod (h.y. angen cymorth i atal argyfwng digartrefedd) godi 18 y cant yn 2018-19 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.⁸⁴ Mae diwygiadau a gynigir i ddeddfwriaeth rhentu hefyd yn golygu y bydd hyd safonol tenantiaeth yn y sector rhentu preifat yn cynyddu i chwe mis gyda chyfnod rhybudd o chwe mis, sy'n golygu ei bod yn bosibl na fydd y cysyniad o ffenestr atal argyfwng o 56 diwrnod yn briodol mwyach.⁸⁵

Prif egwyddorion y dull y gwnaethom ei nodi ar gyfer rhoi diwedd ar gysgu allan a mathau eraill o ddigartrefedd yw:

- **Dull dim drws anghywir, beth bynnag a gymer:** Gwasanaethau cyhoeddus a phartneriaid yn cydweithio'n gyflym ac ar draws ffiniau gwasanaethau a phroffesiynau i helpu rhywun i adael digartrefedd mor gyflym â phosibl. I wneud hyn mae angen i ni rymuso staff, pobl a gwasanaethau; a dileu unrhyw rwystrau sy'n bodoli.

⁸⁰ Fitzpatrick, S., Mackie, P., a Wood, J. (2019) *Homelessness Prevention in the UK – Policy Briefing*, t.4

⁸¹ Llywodraeth Cymru (2019) *Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd*

⁸² Y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2019) *Atal cysgu allan yng Nghymru a'i leihau yn y byrdymor*

⁸³ Llywodraeth Cymru (2019) *Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd*

⁸⁴ Llywodraeth Cymru (2019) Digartrefedd yng Nghymru, 2018-19. Cyrchwyd ar 16 Ionawr 2020 o <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/homelessness-april-2018-march-2019-993.pdf>

⁸⁵ Llywodraeth Cymru (2019) Cynyddu'r cyfnod rhybudd lleiaf ar gyfer 'troi allan heb fai'. Cyrchwyd ar 16 Ionawr 2020 o https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2019-08/consultation-increasing-the-minimum-notice-period-for-a-no-fault- eviction_2.pdf

- A **hybu'r diwylliant o gydweithredu** y mae ei angen i gyflawni'r dull hwn, trwy bennu deilliannau eglur a rhoi cyllid, hyfforddiant ac adnoddau i wasanaethau gyflawni'r deilliannau hyn, a chymorth parhaus ar gyfer y gweithlu ehangach. Rydym yn croesawu cynlluniau i ddileu rhwystrau i waith ar y cyd rhwng gwasanaethau tai/digartrefedd a gwasanaethau iechyd meddwl a defnyddio sylweddau, fel a nodir yng nghynlluniau cyflawni Llywodraeth Cymru ar iechyd meddwl ac ar gamddefnyddio sylweddau.⁸⁶

5.1 Dull dim drws anghywir, beth bynnag a gymer

Un o nodau'r fframwaith ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd yw bod pobl yn cael eu helpu i adael digartrefedd ac i fynd i mewn i dai sefydlog cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn galw am set newydd o ymyriadau i ategu gweithgarwch presennol ar gyfer atal argyfwng.

Y nod y dylid amcanu ato yw sicrhau bod yr holl gyrff cyhoeddus perthnasol (a chyrrff cysylltiedig, megis cymdeithasau tai, gofal iechyd sylfaenol, gofal iechyd eilaidd, gwasanaethau cymdeithasol ac elusennau a gomisiynir i gyflawni contractau cyhoeddus) yn cymryd pob cam rhesymol i atal digartrefedd ac i gydweithredu gydag awdurdodau tai lleol i leddfu digartrefedd.⁸⁷

Clywsom yn ein digwyddiadau ymgynghori am gynlluniau gweithredu iechyd ar gyfer pobl ddigartref a grwpiau agored i niwed (a adwaenir hefyd yn ôl yr acronym HAVGHAP) ond clywsom bryderon hefyd y dylai'r cynlluniau gweithredu gael eu hailfywiogi. Mae sawl maes allweddol yn y cynlluniau'n berthnasol i'r fframwaith rhoi diwedd ar ddigartrefedd hwn, gan gynnwys arweinyddiaeth, cydweithio, a mynediad at ofal iechyd.⁸⁸

Mae'r Grŵp Gweithredu'n annog Llywodraeth Cymru i estyn dyletswyddau atal a lleddfu i gyrff cyhoeddus ehangach. Yn ogystal â hyn dylai Llywodraeth Cymru ystyried gosod 'dyletswydd i atal' ar gyrff cyhoeddus ehangach, lle mae rhywun yn amlwg yn wynebu risg o ddigartrefedd, i helpu i greu ymateb amlasiantaeth. Ym maes diogelu mae cysyniad 'adolygiad achos difrifol' ar ôl digwyddiad wedi hen ennill ei blwyf a gallai'r broses hon dynnu gwersi ohono ac addasu proses a all ddigwydd cyn bod rhywun yn dod yn ddigartref.

Yn ein hadroddiad ar atal a rhoi diwedd ar gysgu allan fe wnaethom nodi'r angen i fynd i'r afael â'r rhwystrau a'r gamddealltwriaeth sy'n atal pobl sy'n wynebu risg o

⁸⁶ Llywodraeth Cymru (2019) *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, Cynllun Cyflawni: 2019-22*. Ar gael ar <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/cynllun-cyflawni-ar-gyfer-iechyd-meddwl-2019-i-2022.pdf> a'r Cynllun cyflawni ar gyfer camddefnyddio sylweddau: 2019 - 2022 <https://llyw.cymru/cynllun-cyflawni-ar-gyfer-camddefnyddio-sylweddau-2019-i-2022-0>

⁸⁷ Mae'r dull hwn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan banel arbenigol ar gyfer Llywodraeth yr Alban, yn dilyn argymhelliad tebyg gan u Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd a Chysgu Allan (HARSAG)

⁸⁸ Cymorth (2017) *Health Matters – the health needs of homeless people in Wales, Caerdydd*: Cymorth. Ar gael ar https://www.cymorthcymru.org.uk/files/1515/0108/8821/Cymorth_Cymru_Health_Matters_report.pdf

ddigartrefedd neu sy'n cysgu allan rhag cael mynediad at dai a chymorth digonol. Mae'r rhain yn cynnwys angen blaenoriaethol, profion bwriad, cysylltiad lleol, a defnydd yr heddlu o'r Ddeddf Crwydradaeth.⁸⁹ Fe wnaethom hefyd argymhellion yn yr adroddiad diwethaf, a fabwysiadwyd yn yr adroddiad hwn, i sicrhau mai ailgartrefu'n gyflym yw'r dewis diofyn ar gyfer pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd sydd ar fin digwydd.⁹⁰ Yn y cyfamser, cyn bod angen blaenoriaethol yn cael ei ddileu, mae angen sicrhau bod rhagor o grwpiau mewn angen blaenoriaethol, e.e. estyn angen blaenoriaethol i bob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol; a sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu defnyddio dull cynhwysol o gefnogi'r holl bobl nes bod angen blaenoriaethol yn cael ei ddileu.

Argymhelliad 16: Lle caiff pobl eu hadnabod fel rhai sy'n wynebu risg o ddigartrefedd ac, yn y pen draw, cysgu allan, mae angen bod dull 'dim drws anghywir' o weithredu ac o leiaf atgyfeirio at gymorth tai. Dylai Llywodraeth Cymru:

- Estyn y diffiniad o 'wynebu risg' o 56 diwrnod i 6 mis ar gyfer yr holl wasanaethau cyhoeddus.⁹¹
- Estyn y dyletswyddau i atal a lleddfu i gyrff cyhoeddus ehangach y tu hwnt i dai.
- Gweithredu'r argymhelliad o'n hadroddiad ar gysgu allan i ddileu rhwystrau a mynd i'r afael â chamddealltwriaeth sy'n atal pobl rhag cael mynediad at dai a chymorth ar hyn o bryd, gan gynnwys angen blaenoriaethol a phroffion bwriad a chysylltiad lleol, a'r Ddeddf Crwydradaeth. Disodli'r rhain â chamau gweithredu i roi diwedd ar ddigartrefedd fel a argymhellir yn fframwaith y Grŵp Gweithredu ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd (h.y. hawl i dai digonol, atal gymaint ag a ellir, ac ailgartrefu'n gyflym ar gyfer y rhai sy'n profi digartrefedd).⁹²

5.2 Helpu pobl sy'n defnyddio sylweddau

Mae angen i'r dull presennol o ymdrin â phobl sy'n defnyddio sylweddau newid gan bod tystiolaeth gynyddol o wledydd dros Ewrop sy'n dangos bod ffyrdd eraill o fynd i'r afael â niweidiau cymdeithasol arferion defnyddio sylweddau problemus mewn

⁸⁹ Y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2019) *Atal cysgu allan yng Nghymru a'i leihau yn y byrdymor*. "Argymhelliad 10: Dylid dileu'r rhwystrau a mynd i'r afael â'r camddealltwriaethau sy'n atal pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd neu sy'n cysgu allan rhag cael gafael ar yr angen dynol sylfaenol am dai digonol a chymorth."

⁹⁰ Y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2019) *Atal cysgu allan yng Nghymru a'i leihau yn y byrdymor*. "Argymhelliad 8: Cynnal tenantiaethau ac ailgartrefu'n gyflym (gan gynnwys Tai yn Gyntaf lle y bo'n briodol) ddylai gael eu mabwysiadu fel y dull arferol o gefnogi pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd neu gysgu allan a dylid ei sicrhau drwy broses drosiannol ailgartrefu'n gyflym."

⁹¹ Y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2019) *Atal cysgu allan yng Nghymru a'i leihau yn y byrdymor*. "Argymhelliad 7: Lle y nodir bod pobl yn wynebu risg o ddigartrefedd, ac yn y pen draw, cysgu allan, mae angen gweithredu dull 'dim drws anghywir' (a chyfeiriad o leiaf at gymorth tai)."

⁹² Y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2019) *Atal cysgu allan yng Nghymru a'i leihau yn y byrdymor*. "Argymhelliad 8: Cynnal tenantiaethau ac ailgartrefu'n gyflym (gan gynnwys Tai yn Gyntaf lle y bo'n briodol) ddylai gael eu mabwysiadu fel y dull arferol o gefnogi pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd neu gysgu allan a dylid ei sicrhau drwy broses drosiannol ailgartrefu'n gyflym."

cymunedau. Mae dulliau gwahanol yn cynnwys dad-droseddoli.⁹³ Mae Adran 8 o'r Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau (1974) yn gosod gormod o straen ar landlordiaid i sicrhau nad yw eu hadeiladau'n cael eu defnyddio at ddibenion defnyddio cyffuriau anghyfreithlon. Mae hyn yn tansellio'r argymhellion yn y canllawiau Tai yn Gyntaf yn uniongyrchol ac yn cynyddu'r risg o ddigartrefedd yn lle hybu camau i leihau niwed a gwella yn y tymor hir. Rydym yn nodi bod Llywodraeth Cymru a phartneriaid Tai yn Gyntaf, gan gynnwys heddluoedd a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau, yn gweithio i roi sicrwydd i landlordiaid.⁹⁴

Mae angen i'r dull 'dim drws anghywir, beth bynnag a gymer' hefyd gynnwys mesurau i gefnogi oedolion sy'n profi problemau iechyd meddwl ac iechyd corfforol, caethiwed, a thrawma aciwt a hybu dull lleihau niwed i bobl sy'n defnyddio sylweddau. Fel yr oedd ein hadroddiad diwethaf yn nodi:

"Mae angen rhoi terfyn ar farwolaethau ymhlith pobl sy'n ddigartref fel mater o frys. Yn ôl data diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol mae nifer y marwolaethau wedi cynyddu'n sylweddol yng Nghymru (a Lloegr) ac un o'r prif ffactorau a oedd yn ysgogi hyn oedd marwolaethau a oedd yn ymwneud â chyffuriau."⁹⁵

Er bod Llywodraeth Cymru yn dweud ei bod yn cydnabod bod caethiwed yn "fater iechyd a gofal yn hytrach nag yn fater sy'n ymwneud â chyfiawnder troseddol yn unig", mae angen rhoi'r dull hwn ar waith.⁹⁶ Mae'r Grŵp Gweithredu yn nodi'r dystiolaeth ar effeithiolrwydd uwch ganolfannau lleihau niwed (a adwaenir hefyd fel 'ystafelloedd cymryd cyffuriau dan oruchwyliaeth' neu 'gyfleusterau chwistrellu dan oruchwyliaeth feddygol') i ddarparu mannau hylan, offer diheintiedig, gofal brys, ac atgyfeiriad at wasanaethau triniaeth cyffuriau, cwnsela a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Dywed Panel Cynghori Llywodraeth Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau fod yr holl adolygiadau'n dangos dystiolaeth o'u heffeithiolrwydd, yn enwedig o ran lleihau niwed sy'n gysylltiedig â chyffuriau.⁹⁷ Dywedodd Cyngor Cynghorol Llywodraeth y DU ar Gamddefnyddio Cyffuriau yr amcangyfrifir bod y cyfleusterau hyn yn arbed mwy o arian nag y maent yn ei gostio, oherwydd

⁹³Hughes, C., Stevens, A., Hulme, S., a Cassidy, R. Models for the decriminalisation, depenalisation and diversion of illicit drug possession: An international realist review (2019) *International Journal of Drug Policy*. <http://harmreductioneurasia.org/wp-content/uploads/2019/07/Hughes-et-al-ISSDP-2019-Models-for-the-decriminalisation-depenalisation-and-diversion-of-illicit-drug-possession-FINAL.pdf>

⁹⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2020) Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau sy'n dwyn y teitl Gwaith dilynol ar gysgu ar y stryd: Gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Cyrchwyd ar 7 Chwefror 2020 ar <https://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld12307/gen-ld12307%20-w.pdf>

⁹⁵ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2019) Deaths of homeless people in England and Wales: 2018. Cyhoeddwyd 1 Hydref 2019.

⁹⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2020) Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau sy'n dwyn y teitl Gwaith dilynol ar gysgu ar y stryd: Gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

⁹⁷ Sylwadau'r Grŵp ar Uwch Ganolfannau Lleihau Niwed (2018) mewn ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru 2018 <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-08/Submission-enhanced-harm-reduction-group-for-wales.pdf>

gostyngiadau mewn marwolaethau a chyfraddau haint HIV ac na chanfuwyd eu bod yn cynyddu cyfraddau chwistrellu, defnyddio cyffuriau na throsteddu lleol.⁹⁸ Fe gomisiynodd y bartneriaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn Glasgow achos busnes ar gyfer dull canolfannau lleihau niwed estynedig, a oedd yn dangos y byddai'n gwella deilliannau iechyd ac yn cyfrannu at arbedion ariannol.⁹⁹

Dengys data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol mai Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot oedd â'r cyfraddau ail a thrydydd uchaf o ran marwolaethau o ganlyniad i ddefnyddio cyffuriau yn y DU rhwng 2016 a 2018. Mae Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru, Matt Jukes, o'r farn bod Cymru'n lleoliad delfrydol ar gyfer treialu'r dull hwn, ac mae Comisiynydd Heddlu a Throsteddu Heddlu Gogledd Cymru, Arfon Jones, hefyd yn cefnogi'r dull lleihau niwed.¹⁰⁰

Argymhelliad 17a: Dylai Llywodraeth Cymru hybu camau i gymhwyso dull lleihau niwed seiliedig-ar-dystiolaeth i reoli a phlisma arferion defnyddio cyffuriau, gan gynnwys dod o hyd i ddatrysiad i'w gwneud yn bosibl gweithredu Uwch Gyfleusterau Lleihau Niwed. Bydd hyn yn galw am weithio gyda Llywodraeth y DU i gyfleu'r achos dros ganiatáu'r dulliau hyn yn awdurdodaeth gyfreithiol Cymru a Lloegr.

Ar hyn o bryd nid yw'n gyfreithlon rhagnodi heroin gradd feddygol yn y DU ac mae'r defnydd o Driniaeth â Chymorth ar gyfer Heroin (HAT) wedi cael canlyniadau cadarnhaol mewn Hap-dreialon wedi'u Rheoli.¹⁰¹ Yn y rhan fwyaf o achosion lle mae'r dull hwn yn effeithiol, mae pob ymgais blaenorol i roi triniaeth wedi bod yn aflwyddiannus, gan gynnwys rhagnodi amnewidion opiad fel methadon. Ystyrir bod HAT yn addas ar gyfer y defnyddwyr heroin mwyaf diysgog ac yn rhoi seibiant o symptomau diddyfnu (ac ymddygiad troseddol dilynol i gael arian i dalu am fodloni awydd) fel bod pobl yn gallu diwallu anghenion eraill, megis tai. Mae'r cohort yr argymhellir ei fod yn cael yr ymyriad hwn yn gymharol fach (2-5% o'r defnyddwyr ar hyn o bryd) ond mae'r manteision i'r gymuned yn sylweddol o'i gymharu â'r costau.¹⁰² Er bod y grŵp mwyaf diysgog hwn yn fach mewn nifer mae dwyster yr adnoddau a neilltuir i reoli goblygiadau defnydd anhrefnus maith o gyffuriau'n uchel.

Argymhelliad 17b: Dylai Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal Camdefnyddio Sylweddau, byrddau iechyd, ac awdurdodau lleol sicrhau bod

⁹⁸ ACMD (2016) Reducing Opioid-Related Deaths in the UK. Cyrchwyd 16 Ionawr 2020 o https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/576560/ACMD-Drug-Related-Deaths-Report-161212.pdf

⁹⁹ NHS Greater Glasgow and Clyde (2017) 'Safer consumption facility could provide substantial financial gain for services'. Cyrchwyd ar 16 Ionawr 2020 o <https://www.nhsggc.org.uk/about-us/media-centre/news/2017/02/safer-consumption-facility-could-provide-substantial-financial-gain/>

¹⁰⁰ Gwefan BBC News (2020) Anti-drug work 'not making difference needed' in Wales. Cyrchwyd ar 16 Ionawr 2020 o <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-50987013>

¹⁰¹ Demaret, I., Quertemont, E., Litran, G., Magoga, C., Deblire, C., Dubois, N., ac Ansseau, M. (2015) Efficacy of heroin-assisted treatment in Belgium: a randomised controlled trial. *European addiction research*, 21(4), 179-187. Doi: 10.1159/000369337

¹⁰² Farrell, M., a Hall, W. (2015) Heroin-assisted treatment: Has a controversial treatment come of age? *British Journal of Psychiatry*, 207(1), 3-4. doi:10.1192/bjp.bp.114.160986

Triniaeth â Chymorth ar gyfer Triniaeth â Chymorth ar gyfer Heroin ar gael ledled Cymru.

6.0 Sicrhau bod digartrefedd yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto trwy ailgartrefu'n gyflym

Hyd yma mae'r adroddiad hwn wedi ystyried y mesurau y mae eu hangen i atal gymaint ag a ellir ar bob lefel (cyffredinol, wedi'i dargedu ac argyfwng) i wneud digartrefedd yn fwy prin ledled Cymru. Fodd bynnag, ni allwn atal pob achos o ddigartrefedd, felly mae angen i ni fod ag ymateb i helpu pobl sydd eisoes yn profi digartrefedd. Dywedodd canllawiau yn yr Alban ar ailgartrefu'n gyflym:

“Rapid rehousing is about taking a housing led approach for rehousing people that have experienced homelessness, making sure they reach a settled housing option as quickly as possible rather than staying in temporary accommodation for too long.”¹⁰³

Ceir llawer o gydnabyddiaeth ymhlith pobl â phrofiad o ddigartrefedd y gall ymateb cyflym helpu. Er enghraifft, dywedodd person yn ne Cymru:

“Mae diffyg cymorth, sy'n golygu ei bod yn hawdd i chi fynd yn sownd mewn system nad yw'n eich symud ymlaen. Fodd bynnag, nid yw gweddill cymdeithas yn sylweddoli hyn. Yn lle hynny, maen nhw'n beio'r person yn hytrach na'r system.”¹⁰⁴

6.1 Ymatebion cyfredol ar gyfer pobl sydd eisoes yn profi digartrefedd

Fe gynyddodd cysgu allan 45 y cant rhwng 2015 a 2018¹⁰⁵ ac mae'r ffigyrau digartrefedd swyddogol diweddaraf ar gyfer Cymru'n dangos bod niferoedd yr aelwydydd mewn llety dros dro ac yn benodol mewn llety gwely a brecwast ar eu lefel uchaf ers 2015.¹⁰⁶ Ar hyn o bryd, gall trwch y buddsoddiad yng Nghymru ar gyfer pobl sydd eisoes yn profi digartrefedd gael ei gategoreiddio fel Atal Brys neu Atal trwy Adfer: ymateb i risg uniongyrchol iawn i atal pethau rhag mynd yn waeth. Mae'r dystiolaeth yn dangos nad yw'r dull hwn yn gwneud rhyw lawer, os o gwbl, i atal problemau rhag digwydd yn y dyfodol.¹⁰⁷ Mae'r fframwaith rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn yr adroddiad hwn yn diffinio hyn yn bennaf fel atal 'brys' ac atal 'trwy adfer', sy'n cynnwys darparu llety brys a thros dro. Bydd angen y gwasanaethau hyn yn y dyfodol, ond dylai fod defnydd cynyddol o ailgartrefu'n gyflym fel y dull diodyn dros wario aciwt.

¹⁰³ Social Bite (2018) Rapid Rehousing Transition Plans: Guidance for Local Authorities and Partners. Cyrchwyd ar 21 Ionawr 2020 ar https://social-bite.co.uk/wp-content/uploads/2018/07/Rapid_Rehousing_Guidance1.1.pdf

¹⁰⁴ Uscreates (2018) *The lived experience of homelessness*. Llundain: Crisis a Groundswell.

¹⁰⁵ Llywodraeth Cymru (2019) Cyfrif cenedlaethol o gysgu allan (amcangyfrif dros bythefnos), cyhoeddwyd 21 Mawrth 2016 a 5 Chwefror 2019. Gweler y datganiadau llawn am ragor o fanylion oherwydd newidiadau i'r fethodoleg a ddaeth i rym yn 2015

¹⁰⁶ Llywodraeth Cymru (2019) Digartrefedd: Gorffennaf - Medi 2019. Cyrchwyd ar 21 Ionawr 2020 ar <https://gov.wales/homelessness-july-september-2019>

¹⁰⁷ Mackie, P., Johnsen, S., a Wood, J. (2017) *Ending rough sleeping: what works? An international evidence review*. Crisis: Llundain

Bu cynnydd yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf o ran cyflawni yn erbyn dyletswyddau i leddfu digartrefedd neu sicrhau llety ar gyfer pobl sy'n ei brofi. Bu ymdrechion hefyd i sefydlu dull Tai yn Gyntaf mewn rhai ardaloedd. Er bod y dystiolaeth ar gyfer Tai yn Gyntaf yn "eithriadol o gryf" o ran ei ddefnyddio fel ymyriad cymorth sy'n gysylltiedig â thai ar gyfer pobl sy'n cysgu allan, nid yw'n ateb i bopeth.¹⁰⁸ Mae'n addas ar gyfer pobl ag anghenion cymorth mwy cymhleth a rhaid ei ddarparu gan ddilyn y model yn fanwl, fel a nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru.¹⁰⁹ Mae ymwneud gan wasanaethau eraill â rhoi cymorth yn hollbwysig, ac rydym yn nodi cynllun cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl Llywodraeth Cymru (2019-22) sy'n cynnwys cymorth i bobl mewn tenantiaethau Tai yn Gyntaf.¹¹⁰

Fodd bynnag, ar gyfer grŵp ehangach o bobl sy'n profi digartrefedd neu fygythiad ohono, gall egwyddor mynediad cyflym at gymorth a chartrefu/ailgartrefu ddigwydd mewn gwahanol ffyrdd. Y prif nodweddion ar ddulliau ailgartrefu'n gyflym yw:¹¹¹

- Dull 'seiliedig ar dai' ydynt sy'n canolbwyntio ar helpu pobl i gael llety parhaol cyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion eraill y gall fod arnynt angen cymorth gyda hwy.
- Eu nod yw byrhau'r amser y mae person yn ddigartref gymaint ag a ellir.
- Maent yn helpu pobl sy'n ddigartref ac sydd ag anghenion cymorth is neu ddim anghenion cymorth o gwbl, a gallant atal anghenion cymhleth neu faterion cronig rhag mynd yn waeth.
- Maent yn amlasiantaeth gydag amrywiaeth o help wedi'i deilwra i anghenion pobl.
- Nid oes asesiadau o 'barodrwydd ar gyfer tai' i gael mynediad at lety.

Y datrysiad cyffredinol i'r sefyllfa hon yw cyflawni dull ailgartrefu'n gyflym, cynyddu buddsoddiad yn y dull hwn fel yr opsiwn diofyn, gyda chymorth brys ac adfer yn dod yn nodwedd lai ar y system. Mae natur amlasiantaeth cymorth yn hanfodol i lwyddiant ailgartrefu cyflym. Canfu ymgynghoriadau'r Grŵp Gweithredu gyda phobl sydd â phrofiad o ddigartrefedd a phobl sy'n gweithio ym maes tai a digartrefedd fod pobl am gael gwell mynediad at wasanaethau iechyd meddwl i bobl sy'n profi digartrefedd.

Argymhelliad 18: Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol arwain proses bontio yn y system gymorth dros amser i flaenoriaethu cynnal tenantiaethau ac ailgartrefu'n gyflym (gan gynnwys Tai yn Gyntaf lle y bo'n briodol) fel y dull diofyn ar gyfer pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd sydd ar fin digwydd neu

¹⁰⁸ Mackie, P., Johnsen, S., a Wood, J. (2017) *Ending rough sleeping: what works? An international evidence review*. Crisis: Lundain, p. xi

¹⁰⁹ Llywodraeth Cymru (2018) *Tai yn Gyntaf – Canllawiau Cenedlaethol ac Egwyddorion i Gymru*

¹¹⁰ Llywodraeth Cymru (2019) *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, Cynllun Cyflawni: 2019-22*. Ar gael ar <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/cynllun-cyflawni-ar-gyfer-iechyd-meddwl-2019-i-2022.pdf>

¹¹¹ Downie, M., Gousy, H., Basran, J., Jacob, R., Rowe, S., Hancock, C., Albanese, F., Pritchard, R., Nightingale, K. a Davies, T. (2018) *Everybody In: How to end homelessness in Great Britain*. Llundain: Crisis, t.111

sydd eisoes yn ei brofi. Erbyn diwedd cyfnod pontio hyd at bum mlynedd o hyd, dylai dulliau ailgartrefu gael eu cynyddu a dylai gwariant aciwt gael ei leihau ond bydd ei angen o hyd ar gyfer cymorth a llety byrdymor i nifer lai o bobl.¹¹²

Bydd angen i Lywodraeth Cymru roi cymorth pontio i awdurdodau lleol ar gyfer cynlluniau pontio effeithiol; a pharhau i ddarparu arweinyddiaeth genedlaethol ar gynyddu Tai yn Gyntaf yn unol â'r egwyddorion y cytunwyd arnynt ar gyfer Cymru.¹¹³

Dylai awdurdodau lleol, byrddau cynllunio rhanbarthol a lleol, a gwasanaethau cymorth i gyd gytuno ar gynllun pontio ailgartrefu'n gyflym (CPAG) i sicrhau bod ailgartrefu'n gyflym a Tai yn Gyntaf yn dod yn rhannau diofyn a sylfaenol o'r cynllun lleol a rhanbarthol ar gyfer tai a digartrefedd. Mae dull o'r fath ar waith yn yr Alban a gall Cymru gymryd gwersi o'r cynnydd a'r canllawiau yno.¹¹⁴ Mae cynlluniau pontio ailgartrefu'n gyflym yn ofynnol i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu comisiynu a'u datgomisiynu'n drefnus tuag at system ailgartrefu'n gyflym. Maent yn sicrhau bod y broses yn dryloyw ac yn strategol.

7.0 Gwladolion o'r Tu Allan i'r DU

Mae ymchwil i ddigartrefedd ymhlith gwladolion o'r tu allan i'r DU yn amlygu bod digartrefedd ymhlith pobl â statws ymfudwr wedi cynyddu ledled Prydain. Mae hefyd yn canfod bod cyfyngiadau ar gymorth budd-daliadau, mynediad at dai, a rhwystrau i gyflogaeth yn achosi mwy o risg y bydd pobl yn dioddef camfanteisio ac yn ei gwneud yn anos atal digartrefedd a rhoi diwedd arno.¹¹⁵

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi dynodi bwriad polisi "y dylid trin pob unigolyn yn deg, yn enwedig y rheini sydd wedi eu gwthio bellaf i'r cyrion gan systemau cymdeithasol sy'n atal pobl rhag gallu sicrhau eu hanghenion sylfaenol" yn ei chynllun i helpu pobl sy'n ffoaduriaid a cheiswyr lloches.¹¹⁶ Dylai pob egwyddor ac argymhelliad yn yr adroddiad hwn fod yn gymwys i'r holl bobl sy'n ddigartref neu'n wynebu risg o ddigartrefedd yng Nghymru, ni waeth beth fo'u statws mewn fudo, hyd y bo hyn yn bosibl yng nghyfraith y DU ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r argymhellion pellach hyn wedi'u bwriadu'n benodol i helpu pobl â statws ymfudwr ac, mewn rhai achosion, byddai eu rhoi ar waith yng Nghymru'n galw am ddull gwahanol i ddull Llywodraeth y DU.

¹¹² Wedi'i addasu o argymhelliad yn ein hadroddiad blaenorol. Gweler Atodiad 2 am ragor o fanylion.

¹¹³ Social Bite (2018) *Rapid Rehousing Transition Plans: Guidance for Local Authorities and Partners*. Cyrchwyd ar 21 Ionawr 2020 ar https://social-bite.co.uk/wp-content/uploads/2018/07/Rapid_Rehousing_Guidance1.1.pdf

¹¹⁴ Dunn, L. (2020) *Rapid rehousing transition plans: a Scottish overview*. Crisis. Cyrchwyd ar 17 Chwefror 2020 ar https://www.crisis.org.uk/media/241640/crisis_rapid-rehousing-report_web_spreads_v2.pdf

¹¹⁵ Boobis, S., Jacob, R., a Sanders, B. (2019) *A Home for All: Understanding Migrant Homelessness in Great Britain*. Llundain: Crisis

¹¹⁶ Llywodraeth Cymru (2019) *Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches*. Cyrchwyd ar 15 Ionawr 2020 o https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cenedl-noddfa-cynllun-ffoaduriaid-a-cheiswyr-lloches_1.pdf

Argymhelliad 19: Dylai Llywodraeth Cymru helpu i atal digartrefedd a rhoi diwedd arno yn benodol ar gyfer pobl sydd wedi ymfudo i Gymru o'r tu allan i'r DU trwy wneud y canlynol:

- **Gwneud gwladolion o Ardal Economaidd Ewrop (AEE) sydd â hawl i breswyllo yn gymwys ar gyfer cymorth digartrefedd statudol.**
- **Rhoi canllawiau i awdurdodau lleol, gan nodi'n glir beth yw'r dyletswyddau tuag at aelwydydd mudol nad ydynt yn gallu cael arian cyhoeddus.**
- **Ystyried sut orau i ganiatáu mynediad at y system ddigartrefedd statudol ar gyfer pobl â statws ymfudwr, mewn ymgynghoriad â Llywodraeth y DU, ac ochr yn ochr â mynediad at unrhyw wasanaethau eraill y mae eu hangen i helpu i roi diwedd ar ddigartrefedd rhywun (e.e. gwasanaethau iechyd, cymorth gyda chyflogaeth, mynediad at fudd-daliadau, a chymorth gyda chyffuriau ac alcohol).**
- **Trefnu bod gwasanaeth ailgysylltu o un pen i'r llall a gefnogir yn briodol ac sy'n wirfoddol (mewn gair ac ysbryd) ar gael i alluogi pobl i adleoli i'w gwlad enedigol yn hytrach na dod yn ddigartref yng Nghymru, dim ond os mai dyma sydd orau er eu lles hwy ac os mai dyma yw'r opsiwn a ffefrir ganddynt.**
- **Sicrhau argaeledd llety brys addas, byrdymor a chyingor annibynnol ynghylch mewnfudo ar gyfer ymfudwyr sy'n ddigartref, neu'n wynebu risg sydd ar fin digwydd o ddod yn ddigartref i atal digartrefedd a rhoi diwedd arno, gan dynnu ar yr adolygiad, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, o opsiynau llety.**
- **Lobïo Llywodraeth y DU i wneud newidiadau i gyfraith a pholisi'r DU i hwyluso gwell cymorth sy'n gysylltiedig â thai ar gyfer pobl â statws ymfudwr, gan gynnwys estyn y cyfnod symud ymlaen ar gyfer ffoaduriaid sydd newydd gael eu cydnabod o 28 diwrnod i 56 diwrnod.**
- **Lobïo Llywodraeth y DU i ganiatáu i oroeswyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol nad ydynt yn gallu cael arian cyhoeddus i gael mynediad at wasanaethau tai a chymorth.**

Atodiad 1 – Gweithgarwch ymgynghori i oleuo'r adroddiad hwn

Fe gynhaliodd y Grŵp Gweithredu ymgynghoriadau ochr yn ochr â phobl â phrofiad personol o bob math o ddigartrefedd, a phobl sy'n gweithio mewn rolau i roi diwedd ar ddigartrefedd, yn enwedig o gefndiroedd ym maes tai a digartrefedd. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r ddau grŵp o bobl am eu myfyrdodau defnyddiol a gonest yn yr arolygon a'r digwyddiadau.

Yn y ddau ymgynghoriad, fe ddechreuom ni'n fras ag arolygon i ofyn i bobl am y datrysiadau i ddigartrefedd yr oeddent yn eu ffafrio fwyaf o restr hwy o ddatrysiadau posibl. Roedd y rhestr yn seiliedig ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio a chafodd ei mapio hefyd yn erbyn pedwar cwestiwn y Grŵp Gweithredu. Lle bynnag yr oedd yn bosibl fe wnaethom gynnwys yr un cwestiynau yn y ddau arolwg i helpu gydag unrhyw gymariaethau.

Ymgynghori â phobl sydd â phrofiad o ddigartrefedd

Ar gyfer yr ymgynghoriad â phobl â phrofiad personol, roedd y gwaith maes yn cynnwys arolygon ar blatfform Survey Monkey (yn Gymraeg ac yn Saesneg), a lansiwyd yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 16 Medi 2019 ac a ddaeth i ben yn yr wythnos yn dechrau 7 Hydref 2019. Fe wnaethom hefyd hwyluso ymatebion mewn gwasanaethau opsiynau tai ledled Cymru ac fe wnaeth aelodau'r Grŵp Gweithredu a'u cysylltiadau anfon y dolenni i'r arolygon, ac fe wnaeth gweithwyr cymorth hwyluso ymatebion gan bobl â phrofiad o ddigartrefedd.

Pobl a gymerodd ran

- 152 o ymatebion gan bobl â phrofiad personol o ddigartrefedd, yr oedd 53 y cant ohonynt wedi'i brofi o fewn y 5 mlynedd ddiwethaf.
- Roedd 50 y cant o ymatebwyr mewn 'mathau llai sefydlog/diogel o lety' (llety hostel, adsefydlu, dros dro).
- Mae gan 46 y cant eu 'cartref eu hunain' (perchnogaeth, y sector rhentu preifat neu denantiaeth tai cymdeithasol).

Canfyddiadau allweddol

- Dim ond 10% o'r holl ymatebwyr ddywedodd nad ydynt byth yn poeni am eu sefyllfa dai.
- Y datrysiad a flaenoriaethwyd fel dewis cyntaf oedd "Fe allem wella gwasanaethau cyhoeddus fel eu bod yn garedig, yn dosturiol ac yn trin pobl ag urddas". Y datrysiad a oedd yn ail ddewis: "Fe allem newid y system lles fel bod pobl yn gallu fforddio talu eu costau tai a'u costau byw."
- Roedd ymatebion i gwestiynau agored yn canolbwyntio ar gynyddu tai fforddiadwy a diogel.

"Ei gwneud hi'n haws i ni gael lle, hyd yn oed os mai dim ond am un noson oddi ar y stryd y mae hynny, wedyn fel allwch ddod i wybod ym mha sefyllfa yr ydym"

"Mwy o dosturi, deall yr effaith ar iechyd meddwl pobl! Deall y rhwystrau'n fwy. [Mae dileu] rhwystrau'n tynnu peth wmbredd o straen oddi ar berson digartref! Yn aml gwneir iddynt deimlo'n ddiwerth fel nad oes ots amdanynt!"

“Llety sy’n teimlo’n gartrefol”

Mae ail gam yr ymgynghoriad wedi'i amlinellu yn Atodiadau 5a a 5b.

Ymgynghoriad â phobl sy’n gweithio i roi diwedd ar ddiartrefedd

Roedd y gwaith ar gyfer pobl sy’n gweithio ym maes tai a digartrefedd yn cynnwys arolygon ar-lein, ac yna digwyddiadau/cyfarfodydd wyneb yn wyneb sydd wedi’u cynnwys yn y rhestr isod.

Pobl a gymerodd ran

- Arolygon ar-lein SurveyMonkey yn Gymraeg ac yn Saesneg gyda dwy ffenestr arolwg (17 Medi 2019 tan 18 Hydref 2019; a 5 Rhagfyr 2019 tan 6 Ionawr 2020).
- Fe wnaeth 590 gwblhau’r arolwg ar-lein neu ei gwblhau’n sylweddol yn y ddwy iaith gyda’i gilydd, y mae tua 27 y cant ohonynt yn gweithio’n uniongyrchol mewn gwasanaethau statudol, tua 31 y cant yn gweithio i ddarparwyr tai, a thua 42 y cant yn ddarparwyr cymorth elusennol (yn rhai a gomisiynwyd gan wasanaethau cyhoeddus ac yn rhai gwirfoddol).
- Mae tua 64 y cant o ymatebwyr yn gweithio’n uniongyrchol gyda phobl yr effeithiwyd arnynt gan ddiartrefedd, 26 y cant yn rheoli gwasanaeth, a 9 y cant mewn rolau strategaeth/cynllunio/corfforaethol.
- Roedd digwyddiadau wyneb yn wyneb yn cynnwys sesiynau ar iechyd y cyhoedd (Caerdydd) ac iechyd meddwl (Wrecsam), a oedd yn cynnwys grŵp ehangach o bobl sydd â diddordeb mewn tai ond sy’n dod o gefndir iechyd.

Canfyddiadau’r arolwg

O’r ystod o ddatrysiadau a gynigiwyd i helpu pobl i wneud eu swyddi i roi diwedd ar ddiartrefedd cafodd yr holl ddatrysiadau lawer o gefnogaeth a blaenoriaeth uchel. Fodd bynnag, fe ddywedodd bron pawb a ymatebodd fod “Llwybrau atgyfeirio cyflymach i mewn i wasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl a defnyddio sylweddau” a “Cyflenwad gwell o dai cymdeithasol” yn bwysig iawn/yn bwysig. Roedd cyflenwad gwell o lety’n gyffredinol (llety fforddiadwy, cymdeithasol a symud ymlaen/dros dro) yn amlwg iawn fel rhai pwysig iawn/pwysig.

Dyfyniadau allweddol ar y datrysiadau a oedd wedi’u cynnwys:

“Mynediad at wybodaeth/canllawiau a chymorth ar adegau ac mewn lleoliadau sydd ar gael pan fo pobl yn gallu cael mynediad atynt. Nid yn ystod oriau 9 tan 5 gydag apwyntiadau nad yw pobl yn gallu eu cadw.”

“Mwy o annibyniaeth i staff cymorth wneud penderfyniadau”


“Ymagwedd fwy cadarnhaol o lawer tuag at bobl a’u materion yn y cyfryngau”

“Pob sector a chorff cyhoeddus yn cymryd ac yn rhannu cyfrifoldeb”


“Mwy o dai fforddiadwy. Mwy o dai fforddiadwy. Mwy o dai fforddiadwy.”

Mae'r graffiau canlynol hefyd yn dangos y cyfrannau o'r bobl a ddywedodd fod datrysiadau 'yn bwysig iawn' ac 'yn bwysig': yn gyntaf i helpu pobl yn uniongyrchol gyda'u gwaith i roi diwedd ar ddigartrefedd; ac yna i roi diwedd ar ddigartrefedd ar y cyfan.

Graff: Wrth feddwl am eich gwaith, pa mor bwysig ydych chi'n meddwl yw'r datrysiadau canlynol i'ch helpu chi i roi diwedd ar ddiartrefedd yn fwy effeithiol ar gyfer y bobl yr ydych yn gweithio gyda hwy?



Graff: Wrth feddwl am eich gwaith, pa mor pwysig ydych chi'n meddwl yw'r datrysiadau canlynol i helpu i roi diwedd ar ddiartrefedd yng Nghymru



Themâu allweddol o gyfarfodydd/digwyddiadau wyneb yn wyneb

1. Yr ymdrech amlasiantaeth, ehangach y mae ei angen i roi diwedd ar ddigartrefedd a pheidio â dibynnu ar ymateb mewn argyfwng.
2. Sicrhau dull tosturiol a dileu rhwystrau i gymorth fel nad yw cymorth yn fater o 'geisio ffitio pobl i mewn i focs'.
3. Wrth roi diwedd ar ddigartrefedd mae angen cynnwys cymorth gwell i iechyd meddwl pobl gyda dull mwy hyblyg i ddiwallu anghenion pobl.¹¹⁷
4. Mae cyllid byrdymor a/neu danariannu yn her fawr sy'n ychwanegu at straen cefnogi pobl sy'n profi trawma, yn gwneud cadw staff yn anos, ac yn arwain at anghysondeb o ran y cymorth a roddir i bobl a cholli sgiliau/profiad.
5. Angen dod o hyd i ffyrdd o gefnogi'r gweithlu'n well a chydabod sgiliau/profiad.

Digwyddiadau a chyfarfodydd

Tachwedd 2019

- Cyfarfod aelodau cabinet Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer tai (Caerdydd, 6^{ed}) – cyflwyniad a sesiwn holi ac ateb
- Cynhadledd aelodau (cleientiaid) Crisis De Cymru (Abertawe, 6^{ed}) – cyflwyniad a sesiwn holi ac ateb
- Symposiwm digartrefedd Cymorth (Caerdydd, 12^{fed}) – cyflwyniad i'r sesiwn dorfol a dau weithdy
- Cyfarfod y Grŵp Gweithredu (Wrecsam, 14^{eg})
- Seminar Rhwydwaith Iechyd y Cyhoedd Cymru (Caerdydd, 20^{fed}) – dau weithdy
- Cynhadledd flynyddol Cartrefi Cymunedol Cymru (Caerdydd, 21^{ain}) – cyflwyniad a sesiwn holi ac ateb
- Cynhadledd iechyd meddwl a thai'r 2025 (Wrecsam, 29^{ain})

Rhagfyr 2019

- Cyfarfod gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (5^{ed})

Ionawr 2020

- Cyfarfod y Grŵp Gweithredu (Bangor, 8^{fed})
- Rhwydwaith digartrefedd a chymorth tai CLILC (Llandrindod, 14^{eg}) - cyflwyniad a sesiwn holi ac ateb
- Cyfarfod y Grŵp Gweithredu (Y Drenewydd, 30^{ain})

¹¹⁷ I gael rhagor o fanylion am gynhadledd y 2025 Movement gweler yr adroddiad ar ôl y gynhadledd: <https://2025movement.files.wordpress.com/2020/01/2025-conference-report-final-1.pdf>

Atodiad 2 – Fersiynau llawn o argymhellion adroddiad 1^{af} y Grŵp Gweithredu y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn

Argymhelliad 6: Mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus sicrhau bod gan bawb sy'n cael ei ryddhau o sefydliad cyhoeddus ateb cynaliadwy o ran tai.

Fel rhan o hyn dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Gwerthuso unrhyw wersi a ddysgwyd o'r argymhellion tymor byr iawn yn yr adroddiad hwn a gweithredu arnynt.
- Ystyried cyhoeddi data ar ryddhau i ddigartrefedd o bryd i'w gilydd.
- Gweithio gyda phartneriaid i fapio lle mae adnoddau arbenigol ar gyfer tai a digartrefedd ar waith ac yn gweithio ar gyfer pob llwybr. Byddai hyn yn golygu arbenigwr tai a chymorth, wedi'i leoli mewn gwasanaethau eraill, sy'n gyfrifol ac yn atebol am sicrhau bod anghenion tai yn cael eu hasesu a bod tai addas yn cael eu sicrhau drwy bartneriaid tai. Ymdrin â bylchau mewn adnoddau arbenigol, anelu at ail-hyryddo'r llwybrau, a rhoi gwybod am ganlyniadau.
- Cynnwys darpariaeth ar gyfer Ymyriadau Adeg Allweddol i bobl sy'n gadael sefydliadau'r wladwriaeth.¹¹⁸
- Monitro effaith y mesurau hyn ac ystyried dyletswydd ar gyrff cyhoeddus ehangach i atal pobl rhag cael eu rhyddhau heb gartref i fynd iddo, gan ystyried gwerthusiad o'r 'ddyletswydd i gyfeirio' i gael cymorth tai ar gyrff cyhoeddus yn Lloegr. Byddai angen proses effeithiol o ddarparu adnoddau a newidiadau i ymarfer pe bai unrhyw newid yn y gyfraith yng Nghymru.

Dylai pob sefydliad cyhoeddus sydd wedi cytuno ar lwybrau wneud y canlynol: cydweithredu ag awdurdodau lleol i ddatrys yr argyfwng cysgu allan ac, yn y tymor hwy, darparu'r llwybrau.

Dylai awdurdodau lleol a'u partneriaid wneud y canlynol:

- Sicrhau bod adnodd penodol ar hyd y llwybr mewn lleoliadau nad ydynt yn dai, gan gynnwys staff sy'n gallu cael gafael ar wasanaethau atebion tai sy'n gyfrifol am atal/lleddfu digartrefedd.
- Rhoi arbenigedd penodol ar ddigartrefedd a thai yn lleoliadau'r ystad ddiogel ac mewn carchardai i weithio gyda gwasanaethau er mwyn sicrhau bod tai diogel a sefydlog ar gael i bawb sy'n cael eu rhyddhau. Mae hyn yn cynnwys rolau cydgysylltwyr rhwydwaith sy'n anelu at wella cydberthnasau rhwng timau gwasanaethau prawf ac adsefydlu ac opsiynau/atebion tai awdurdodau lleol.
- Rhoi'r llwybr rhyddhau o'r ysbyty ar waith ac ystyried darparu arbenigedd penodol ar ddigartrefedd a thai mewn lleoliadau iechyd, gan ystyried arfer megis y timau Pathway¹¹⁹ sy'n gweithredu mewn ysbytai mawr; a

¹¹⁸ Downie, M., Gousy, H., Basran, J., Jacob, R., Rowe, S., Hancock, C., Albanese, F., Pritchard, R., Nightingale, K. a Davies, T. (2018) *Everybody In: How to end homelessness in Great Britain*. Llundain: Crisis, t.111

¹¹⁹ I gael rhagor o wybodaeth gweler <https://www.pathway.org.uk>

chynghorwyr tai mewn lleoliadau ieuchyd eraill, megis swyddogion tai yn Ysbyty Bodelwyddan yn Llanelwy, Caerffili, Ysbyty Sant Cadog yng Nghasnewydd, Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn Rhondda Cynon Taf, ac Ysbyty Llandochau ym Mro Morgannwg.

- Ailystyried ac ailhyrwyddo'r llwybr tai i'r rhai sy'n gadael gofal.¹²⁰

Argymhelliad 7: Lle y nodir bod pobl yn wynebu risg o ddigartrefedd, ac yn y pen draw, cysgu allan, mae angen gweithredu dull 'dim drws anghywir' (a chyfeiriad o leiaf at gymorth tai).

Fel rhan o hyn dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn defnyddio dull 'holi a gweithredu' mewn ymateb i'r risg o ddigartrefedd ond bod rheoliadau neu ddeddfwriaeth ar gyfer cyhoeddus yn cael eu hystyried yn y tymor hwy. Gweithio gyda phartneriaid ar raglen codi ymwybyddiaeth a gweithredu sydd wedi'i theilwra ar gyfer grwpiau proffesiynol penodol (e.e. meddygon teulu, staff adrannau damweiniau ac achosion brys a staff addysgu) er mwyn eu helpu i ddeall y risgiau a gwybod bod camau gweithredu clir y gallant eu cymryd yn eu rôl/lleoliad mewn ymateb.
- Sefydlu rhaglen hyfforddiant a llesiant cynhwysfawr i'r holl weithwyr proffesiynol sy'n debygol o adnabod pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd a chysgu allan.
- Defnyddio strwythurau sy'n bodoli eisoes i gynnwys grŵp ehangach o wasanaethau, megis Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Dylai awdurdodau lleol wneud y canlynol:

- Hyrwyddo un pwynt cyswllt ar gyfer pob ardal i bartneriaid gwasanaethau statudol a phroses atgyfeirio sy'n rhoi digon o wybodaeth i awdurdodau lleol i ymateb.
- Hwyluso cynhadledd amlasiantaethol ar unwaith os bydd rhywun yn wynebu risg uniongyrchol o gysgu allan, gan gynnwys timau tai awdurdodau lleol, asiantaethau digartrefedd lleol, a'r holl bartion perthnasol eraill, gan sicrhau nad yw'r unigolyn hwnnw yn dechrau cysgu allan.

Argymhelliad 8: Cynnal tenantiaethau ac ailgartrefu'n gyflym (gan gynnwys Tai yn Gyntaf lle y bo'n briodol) ddylai gael eu mabwysiadu fel y dull arferol o gefnogi pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd neu gysgu allan a dylid ei sicrhau drwy broses drosiannol ailgartrefu'n gyflym.

Fel rhan o hyn dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

¹²⁰ Y llwybr ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal:

<https://www.barnardos.org.uk/sites/default/files/uploads/Care%20leavers%20accommodation%20and%20support%20framework%20for%20Wales%20October%202016%20%28PDF%29.pdf>

- Rhoi cymorth trosiannol i awdurdodau lleol ar gyfer cynlluniau trosiannol effeithiol. Bydd angen cymorth ariannol er mwyn helpu pob ardal awdurdod lleol i symud i ffwrdd o'r system bresennol i system a diwylliant newydd sy'n ategu'r gwaith atal presennol. Bydd angen i'r gost hon gael ei modelu fel rhan o'r broses o ddatblygu Cynlluniau Trosiannol Ailgartrefu'n Gyflym.
- Rhoi arweinyddiaeth genedlaethol ar gyflwyno Tai yn Gyntaf ar raddfa fwy, gan gynnwys sicrhau y cydymffurfir â'r model sy'n seiliedig ar dystiolaeth dda ac y caiff ei ddefnyddio ar gyfer pob unigolyn y mae angen yr ateb penodol hwn arno.

Dylai awdurdodau lleol wneud y canlynol:

- Llunio Cynllun Trosiannol Ailgartrefu'n Gyflym er mwyn sicrhau nad yw ailgartrefu'n gyflym na Tai yn Gyntaf yn dod yn opsiynau 'ychwanegol' dewisol ond eu bod yn elfennau hanfodol o gynllun tai a digartrefedd lleol, lle y caiff y gwaith o gynllunio a darparu tai ei lywio'n llawn gan y lefel o angen a ragwelir i bobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd.
- Defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r broses o ddatblygu Cynlluniau Trosiannol Ailgartrefu'n Gyflym yn yr Alban, e.e. mae Rhwydwaith Pobl Ddigartref Glasgow wedi llunio canllawiau ar ddatblygu cynllun trosiannol.¹²¹ Bydd cynlluniau trosiannol ailgartrefu'n gyflym, o anghenraid, yn cynnwys comisiynu a dadgomisiynu gwasanaethau, o'r rhai sy'n cadw pobl yn ddigartref i'r rhai sy'n symud pobl yn gyflym i atebion tai prif ffrwd. Dylai hyn fod yn dryloyw ac yn strategol, dylai gael ei nodi yn y Cynllun Trosiannol Ailgartrefu'n Gyflym ac ni ddylai gynnwys toriadau mewn gwasanaethau cyn neu yn lle darpariaeth newydd. Y canlyniad yn y pen draw fydd lleihau'r defnydd cyffredinol o lety dros dro ac am faint o amser y mae pobl yn aros ynddo.

Argymhelliad 9

Dylid dod i gytundeb i sicrhau dim troi allan o dai cymdeithasol (na thai sy'n cael cymorth arian cyhoeddus) i ddigartrefedd, a bod mwy o dai'n cael eu dyrannu ar gyfer aelwydydd digartref.

Fel rhan o'r cytundeb hwn:

- Dylai Llywodraeth Cymru gasglu a chyhoeddi data ar ddyraniadau ac achosion o droi allan, gan gynnwys pobl sy'n wynebu digartrefedd. Gallai hyn fod yn seiliedig ar set ddata CORE yn Lloegr.¹²²
- Fel rhan o'r ymateb i'r adolygiad o'r cyflenwad o dai fforddiadwy, dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu ffordd newydd o ddyrannu'r grant tai cymdeithasol, sy'n gofyn am ymrwymiad gan landlordiaid cymdeithasol i

¹²¹ Canllawiau a thempledi Rhwydwaith Digartrefedd Glasgow ar gyfer Cynlluniau Pontio Ailgartrefu'n Gyflym: <https://www.ghn.org.uk/rapid-rehousing-transition-plan/>

¹²² Data CORE: <https://core.communities.gov.uk/>

gyfrannu at roi terfyn ar ddigartrefedd. Gallai hyn gynnwys mesurau i gynyddu dyraniadau i bobl sydd wedi cael profiad o ddigartrefedd a lleihau a dileu achosion o droi allan i ddigartrefedd; a darparu hyfforddiant a chymorth priodol i staff i wireddu hyn, e.e. adnabod pobl sy'n wynebu risg o gam-drin domestig a'u cysylltu â gwasanaethau priodol.¹²³

- Dylai landlordiaid cymdeithasol sicrhau dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth ddyrannu tai a dileu unrhyw rwystrau sy'n atal aelwydydd digartref rhag cael tai cymdeithasol. Cafodd y nod hwn gefnogaeth drawsbleidiol yn adroddiad pwyllgor y Cynulliad Cenedlaethol yn 2018 ar gysgu allan.¹²⁴ Dylai pob ardal hefyd geisio pennu polisi dyrannu cyffredin ochr yn ochr â datblygu arfer da o ran dyrannu.
- Dylai landlordiaid cymdeithasol fabwysiadu dull seicolegol wybodus o gyflawni eu swyddogaethau rheoli tai a chael mynediad at gymorth arbenigol gan ddarparwyr eraill.
- Dylai pawb gytuno ar fesurau i symud pobl ymlaen mewn ffordd reoledig (drwy gynnal cynadleddau achos gydag awdurdodau lleol) os mai er budd pennaf unigolion y dylent symud ymlaen o'r cartref a ddyrannwyd iddynt yn flaenorol, gan sicrhau nad ydynt yn wynebu risg o ddigartrefedd.
- Dylai pawb gytuno ar ddefnyddio cyllid y Grant Cymorth Tai i ddiwallu anghenion cymorth penodol a dylai llywodraethau ystyried dyletswyddau neu glustnodi cyllid yn benodol er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd. Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu cyllideb y Grant Cymorth Tai er mwyn sicrhau bod mwy o wasanaethau cymorth sy'n ymwneud â thai ar gael i leihau nifer yr achosion o droi allan o dai cymdeithasol. Dylai hyn gynnwys rhoi cymorth dwys i bobl a fyddai fel arall yn wynebu'r risg fwyaf o gael eu troi allan.
- Os na fydd mesurau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i atgyfnerthu partneriaethau i leihau achosion o droi allan i ddigartrefedd a'u dileu yn arwain at leihad, yna dylent dderbyn dyletswydd i atal digartrefedd.

Argymhelliad 10: Dylid dileu'r rhwystrau a mynd i'r afael â'r camddealltwriaethau sy'n atal pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd neu sy'n cysgu allan rhag cael gafael ar yr angen dynol sylfaenol am dai digonol a chymorth.

Fel rhan o hyn dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Ar y cyd ag awdurdodau lleol mewn ardaloedd â ffocws, adolygu'n gyflym y gwersi a ddysgwyd o unrhyw ymgais i lacio ar reoliadau a chyfreithiau yn y byrdymor y cyfeirir ati yn Argymhelliad 2.

¹²³ Gweler enghraifft o adduned CIH

<http://www.cih.org/resources/PDF/1Makeastand%20pledge%20FINAL.pdf>

¹²⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018) Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau – *Bywyd ar y strydoedd: atal a mynd i'r afael â chysgu ar y stryd yng Nghymru*, t.40

- Cael gwared ar gysyniadau ac ymarfer 'yn fwriadol ddigartref' a 'dim cysylltiad lleol' er mwyn sicrhau mai atal neu leddfu cysgu allan yw'r ystyriaeth bennaf. Sefydlu 'egwyddor hunangyflwyno', lle mae awdurdodau lleol yn ariannu dinasyddion digartref mewn ardaloedd awdurdod lleol eraill os ydynt yn gofyn am gymorth yno, yn gyntaf yng Nghymru ac wedyn gyda gweddill y DU.¹²⁵ Cafwyd cefnogaeth drawsbleidiol o blaid hyn pan gafodd ei argymhell gan un o bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol.¹²⁶
- Cael gwared ar gysyniad ac ymarfer angen blaenoriaethol gan ddefnyddio'r opsiynau a nodir yn yr adolygiad arfaethedig o angen blaenoriaethol. Dylai Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid gael gwared ar angen blaenoriaethol yn raddol, law yn llaw â sicrhau mai ailgartrefu'n gyflym yw'r dull arferol a ddefnyddir a hefyd ddiwallu'r angen am gyflenwad ychwanegol o dai cymdeithasol. Tra bydd yn cael gwared ar angen blaenoriaethol yn raddol, yn y byrdymor, dylai pobl sy'n cysgu allan neu sy'n wynebu risg o gysgu allan gael eu hystyried yn awtomatig fel angen blaenoriaethol yn ogystal â phobl sy'n gadael y carchar. Mae hwn yn newid a gefnogwyd ar y cyfan gan ymchwiliad trawsbleidiol pwyllgor y Cynulliad Cenedlaethol i gysgu allan.¹²⁷
- Gweithio gyda Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau, gwasanaethau iechyd ac awdurdodau lleol i ymchwilio i Driniaeth â Chymorth Heroin a darparu rhagor o Gyfleusterau Lleihau Niwed Ychwanegol (a elwir hefyd yn 'ystafelloedd cymryd cyffuriau o dan oruchwyliaeth').¹²⁸
- Ystyried y cynnydd yn erbyn Argymhelliad 7 ('dim drws anghywir' i gael gafael ar gymorth) a'r achos dros osod dyletswydd i atgyfeirio/cydweithredu ar gyrff cyhoeddus ehangach er mwyn atal digartrefedd a chydweithredu â gwaith atal/lleddfu.
- Gweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau'r cyflenwad o dai addas o ansawdd da, a'u dyrannu, er mwyn diwallu anghenion, gan gynnwys tai a ddarperir o dan y cytundeb y cyfeirir ato yn Argymhelliad 9.

Dylai awdurdodau lleol wneud y canlynol:

- Sicrhau y caiff dull 'Dim Noson Gyntaf Allan' ei fabwysiadu, gan weithio gyda phob corff cyhoeddus i sicrhau nad oes neb sy'n wynebu risg o gysgu allan yn cysgu allan mewn gwirionedd. Unwaith y caiff y risg ei nodi, yna mae'n rhaid mai'r ymateb amlasiantaethol yw atal cysgu allan rhag digwydd drwy gynnig dewis amgen digonol a'r gymorth wedyn i ddiwallu anghenion tai ac anghenion eraill.

¹²⁵ Mackie, P. a Thomas, I. (2016) *Transitory single homelessness in Wales*

¹²⁶ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018) Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau – *Bywyd ar y strydoedd: atal a mynd i'r afael â chysgu ar y stryd yng Nghymru*, t.27

¹²⁷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018) Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau – *Bywyd ar y strydoedd: atal a mynd i'r afael â chysgu ar y stryd yng Nghymru*, t.27

¹²⁸ Gweler y dystiolaeth gan Grŵp Uwch Ganolfannau Lleihau Niwed Cymru (2018)

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-08/Submission-enhanced-harm-reduction-group-for-wales.pdf>

Argymhelliad 11: Dylid comisiynu gwasanaethau allgymorth a gwasanaethau eraill i bobl sy'n cysgu allan neu sy'n wynebu risg o gysgu allan er mwyn hyrwyddo atebion estynedig sy'n helpu pobl i ddianc rhag cysgu allan a digartrefedd am byth.

Fel rhan o hyn dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Nodi disgwyliad y bydd pob gwasanaeth cyhoeddus yn dod yn amgylchedd seicolegol wybodus a dod o hyd i ffyrdd o annog hyn drwy gomisiynu ym maes gofal cymdeithasol, iechyd meddwl a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Dylai hyn fod yn rhan o waith byrddau rhanbarthol a byrddau gwasanaethau cyhoeddus.
- Ystyried pennu cyllidebau dangosol am gyfnod o 3 neu 5 mlynedd ar gyfer y Grant Cymorth Tai er mwyn galluogi awdurdodau lleol a'u partneriaid i gynllunio'n strategol i leihau a rhoi terfyn ar gysgu allan yn unol â'r argymhellion hyn.

Dylai awdurdodau lleol wneud y canlynol:

- Gweithio gyda modelau amlasiantaethol presennol (megis y Canolfannau Diogelu Amlasiantaethol) er mwyn cysylltu â gwasanaethau eraill.
- Fel rhan o drefniadau'r Grant Cymorth Tai, ystyried rhwydwaith o gomisiynwyr i gynnig cymorth a chynghor gan gymheiriaid a rhannu arfer da.
- Cael gwared yn raddol ar derfynau amser ar wasanaethau i bobl sy'n cysgu allan neu sy'n wynebu risg o gysgu allan. Yn fwy cyffredinol, sicrhau bod eu prosesau a'u harferion comisiynu yn ei gwneud yn bosibl i sefydliadau gael yr adnoddau a'r hyblygrwydd i ddarparu gwasanaethau seicolegol wybodus, gan gynnwys yr amser i feithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â phobl sy'n ddigartref a'r arian i fuddsoddi er mwyn rhoi cymorth i'r staff sy'n darparu gwasanaethau.

Argymhelliad 12: Mae angen i fetrigau cenedlaethol a lleol a phrosesau casglu data gael eu rhoi ar waith er mwyn cefnogi'r uchelgais i ddileu cysgu allan yn gyfan gwbl ac atal digartrefedd yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor.

Dylai hyn gefnogi anghenion ar gyfer mesur nifer y bobl sy'n cysgu allan mewn amser real, drwy roi modd i dimau allgymorth ac eraill gofnodi achosion o gysgu allan a manylion rheoli achos yn effeithiol. Gallai'r gwaith diweddar ar y Rhwydwaith Gwybodaeth Digartrefedd ar y Stryd ledled Cymru fod yn sail i hyn. Mae angen gwerthuso'r cynnydd hyd yma.

Yn ogystal â rhoi'r Rhwydwaith Gwybodaeth Digartrefedd ar y Stryd ar waith ar y cyd â phartneriaid, dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried dichonoldeb casglu data ar unigolion a'u cysylltu â data y rhwydwaith er mwyn darparu gwybodaeth ynglŷn â sut mae pobl yn profi gwahanol fathau o ddigartrefedd a gwella gwaith atal.

Atodiad 3 – Digartrefedd craidd

Mae'r tablau hyn yn dangos y data 'digartrefedd craidd' mwyaf cyfoes ar gyfer Prydain a Chymru. Dylid eu darllen gyda'r ymchwil wreiddiol, sy'n diffinio 'digartrefedd craidd' a'r fethodoleg ar gyfer y rhifau (h.y. maent yn dangos aelwydydd sy'n ddigartref ar unrhyw adeg benodol yn y flwyddyn).¹²⁹

Digartrefedd craidd ledled Prydain Fawr ar unrhyw noson benodol (aelwydydd), 2012 - 2017

<i>Digartrefedd craidd - Prydain (cyfanswm)</i>	<i>2012</i>	<i>2013</i>	<i>2014</i>	<i>2015</i>	<i>2016</i>	<i>2017</i>	<i>% y newid: 2012 - 2017</i>	<i>% y newid: 2016 - 2017</i>
Rhai sy'n Cysgu Allan	6,200	7,250	7,250	9,150	10,250	12,300	98%	20%
Car, pabell, cludiant cyhoeddus	5,900	6,900	6,950	8,850	9,950	11,950	103%	20%
Sgwatio, adeilad dibreswyl	11,350	12,200	12,150	13,150	13,150	14,150	25%	8%
Mewn Hostelaau, llochesi, llochesi nos/gaeaf	47,100	44,900	44,300	42,150	41,150	40,150	-15%	-2%

¹²⁹ Bramley, G. (2017) *Homelessness projections: Core homelessness in Great Britain*, Llundain: Crisis.

Llety dros dro anaddas	10,700	13,350	15,350	17,500	19,500	20,850	95%	7%
Rhai sy'n Cysgu ar Soffa	70,450	70,300	72,800	70,350	71,350	71,400	1%	0%
Cyfanswm y stoc (ciplun)	151,600	153,850	158,700	161,150	167,350	170,800	13%	2%

Digartrefedd craidd ledled Cymru ar unrhyw noson benodol (aelwydydd), 2012 - 2017

<i>Digartrefedd craidd - Cymru (wedi'i dalgrynnu)</i>	<i>2012</i>	<i>2013</i>	<i>2014</i>	<i>2015</i>	<i>2016</i>	<i>2017</i>	<i>% y newid: 2012 - 2017</i>	<i>% y newid: 2016 - 2017</i>
Rhai sy'n Cysgu Allan	200	250	250	300	300	350	75%	17%
Car, pabell, cludiant cyhoeddus	200	200	250	250	300	300	50%	0%
Sgwatio, adeilad dibreswyl	300	250	250	250	250	250	-17%	0%
Mewn Hostelaau, llochesi,	850	850	850	850	850	850	0%	0%

Ilochesi nos/gaeaf									
Llety dros dro anaddas	400	250	300	250	200	200	-50%	0%	
Rhai sy'n Cysgu ar Soffa	4,200	3,800	3,750	3,200	3,250	3,250	-23%	0%	
Cyfanswm y stoc (ciplun)	6,100	5,600	5,600	5,100	5,150	5,200	-15%	1%	

Atodiad 4a – Grwpiau sy'n wynebu risg ac ymyriadau wedi'u targedu

	Gwybodaeth a chyngor hygyrch	Eiriolaeth a chymorth gan gymheiriaid	Datrysia -dau tai priodol	Cytleoli	Ymyriadau ar adeg dyngedfennol	Rhannu gwybod -aeth a data	Fframweithiau polisi a chyfreithiol	Llwybrau a phrotocolau	Hyfforddiant a sgiliau staff	Systemau i adnabod yn gynnar	Technoleg a dadansoddeg ragfynegol
Pobl sy'n gadael y carchar, sefydliad diogel, neu sydd mewn cysylltiad â thîm troseddwyr ifanc											
Pobl ifanc a fu mewn gofal											
Pobl â phroblemau iechyd corfforol neu feddyliol neu anableddau dysgu.											
Plant a phobl ifanc mewn ysgolion a lleoliadau addysg.											
Pobl â phroblemau cyffuriau a/neu alcohol											
Pobl sy'n profi trais (yn erbyn menywod a phobl eraill), cam-drin domestig, a thrais rhywiol a goroeswyr											
Pobl LGBTQ+											
Ffoaduriaid, ceiswyr lloches a phobl na allant gael arian cyhoeddus											
Pobl sy'n dod i sylw trwy fynd i Ganolfan Byd Gwaith i gael cyngor a chymorth											
Pobl sy'n profi anawsterau gyda'u rhent/ tenantiaeth											

Pobl sy'n profi methiant
perthynas neu
anawsterau gyda
pherthynas



Atodiad 4b: Enghreifftiau o gymorth wedi'i dargedu

Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos sut y gallai'r mathau o ymyriadau a restrir yn Atodiad 4a gael eu rhoi ar waith yn lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol ar gyfer grwpiau sy'n wynebu risg arbennig o ddirgaredd.

Cytleoli – Pobl â phroblemau iechyd meddwl

Mae gweithwyr tai proffesiynol sy'n gweithio ar wardiau iechyd meddwl yng Nghymru'n gallu adnabod materion tai pan gaiff cleifion eu derbyn a naill ai cadw cartref claf neu drefnu llety newydd iddynt cyn iddynt gael eu rhyddhau. Mae gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol mewn adrannau opsiynau tai'n cynyddu dealltwriaeth gweithwyr tai proffesiynol am iechyd meddwl, yn goleuo dyfarniadau ynglŷn ag angen blaenoriaethol ac yn cynghori pobl ynghylch sut i gael mynediad at gymorth iechyd meddwl.

Systemau ar gyfer adnabod yn gynnar – Plant a phobl ifanc mewn ysgolion a lleoliadau addysg

Rhaglen ymyrryd yn gynnar yn Awstralia yw'r Geelong Project, sy'n gweithio i adnabod unigolion sy'n wynebu risg o ddirgaredd a darparu ystod o wasanaethau ymyrryd yn gynnar i atal pobl ifanc rhag dod yn ddirgaredd. Un elfen o'r prosiect yw arolwg sy'n sgrinio ar gyfer pobl ifanc sy'n wynebu risg o ddirgaredd, ac yn ei gwneud yn bosibl cynnig cymorth yn llawer cynharach er mwyn atal hyn rhag digwydd.

Gwybodaeth a chynghor hygyrch – Pobl sy'n profi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Mae Siop Un Stop Cam-drin Domestig Abertawe, sydd wedi'i lleoli yng nghanol y ddinas, yn gartref i nifer o sefydliadau a gwasanaethau sy'n darparu gwybodaeth, cynghor a chymorth i bobl sydd wedi profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r gwasanaeth galw heibio hwn yn darparu gwybodaeth, cynghor a chymorth ar gyfer materion sy'n ymwneud â thai, iechyd rhywiol, iechyd meddwl, cyffuriau ac alcohol.

Llwybrau a phrotocolau – Pobl sy'n gadael y carchar / sefydliad diogel

Mae awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru wedi creu gweithwyr achosion digaredd sydd wedi'u neilltuo i weithio gyda charcharorion i roi cymorth i fynd ati'n effeithiol i gyflawni'r llwybr ar gyfer y rhai sy'n gadael y carchar. Maent yn gweithio mewn partneriaeth gyda staff y carchar a'r gwasanaeth prawf i ymgysylltu â charcharorion cyn iddynt gael eu rhyddhau, maent yn defnyddio'u gwybodaeth am wasanaethau lleol i gynllunio llety ac yn darparu gwasanaeth cofleidiol wedi'i deilwra. Maent yn darparu un pwynt cyswllt ac yn sicrhau bod yr holl bartneriaid yn ymwybodol o'r llwybr cyffredin, prosesau ac amserlenni, gan sicrhau bod gwybodaeth a dogfennau hollbwysig yn dod i law yn brydlon ac yr eir i'r afael ag anghenion tai ar y cyfle cynharaf.

Datrysiadau tai priodol – pobl ifanc LGBTQ+

Yn Sir Ddinbych mae prosiect llety â chymorth wedi cael ei sefydlu ar gyfer pobl ifanc sy'n eu hystyried eu hunain yn LGBTQ+. Mae'r prosiect hwn, dan arweiniad sefydliad yn y trydydd sector, yn darparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai arbenigol o fewn amgylchedd therapiwtig, gan

weithio ochr yn ochr ag asiantaethau eraill sy'n cefnogi'r person ifanc, gan gynnwys Gwasanaethau Ieuencid, grŵp LGBT+ lleol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a seicotherapydd.

Hyfforddiant a sgiliau staff – Pobl â phroblemau cyffuriau a/neu alcohol

Fe ddarparodd Bwrdd Cynllunio Ardal Caerdydd a'r Fro hyfforddiant ar drawma ac amgylcheddau sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol ar gyfer staff iechyd, tai a chyfiawnder troseddol sy'n gweithio mewn gwasanaethau statudol ac yn y trydydd sector o fewn y rhanbarth. Nod yr hyfforddiant hwn oedd eu helpu i roi cymorth sy'n ystyriol o drawma i bobl â materion defnyddio sylweddau a thai.

Atodiad 5: Arbenigwyr drwy Brofiad: sut y gallwn roi terfyn ar ddiqartrefedd yng Nghymru – adroddiad ymgynghori

Ynglwm wrth yr adroddiad hwn

